Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 75/2021

Dyddiad Cyhoeddi: 25/11/2021

# Y Cynllun Rheoli Cynaliadwy: Adroddiad Gwerthusiad Proses a Damcaniaeth Newid

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol: 978-1-80391-306-3

Y Cynllun Rheoli Cynaliadwy: Adroddiad Gwerthusiad Proses a Damcaniaeth Newid

Awduron: Heledd Bebb a Nia Bryer, Ymchwil OB3 gyda chyfraniadau gan Rob Owen a Sue Rice, Partneriaeth BRO

Safbwyntiau'r ymchwilwyr ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Y Gangen Ymchwilio, Monitorio a Werthuso
Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: RME.mailbox@llyw.cymru

## Cynnwys


Geirfa .. 3

1. Cyflwyniad 4
2. Methodoleg 6
3. Trosolwg o'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy 11
4. Rhesymeg polisi a rhesymeg strategol ar gyfer yr SMS 22
5. Model Rhesymeg y Ddamcaniaeth Newid ar gyfer yr SMS 30
6. Dylunio a datblygu'r SMS 34
7. Canfyddiadau'r gwaith maes: Y broses ymgeisio 42
8. Canfyddiadau'r gwaith maes: Gweithredu 59
9. Canfyddiadau'r gwaith maes: Cyflawniadau a chanlyniadau 76
10. Casgliadau ac argymhellion 95

Atodiad A: Disgrifiad byr o’r 18 prosiect a gyfwelwyd 103

Atodiad B: Canllaw Trafod Theori Newid 117

Atodiad C: Canllaw Trafod Rhanddeiliaid Allweddol 120

Atodiad Ch: Arweinwyr prosiectau ac unigolion allweddol - canllaw trafod 125

## Rhestr o dablau a ffigurau

Tabl 3.1: Llinell amser cyfnodau gwneud cais am gyllid yr SMS ………….……......15

Tabl 3.2: Ceisiadau a phrosiectau a gymeradwywyd fesul cyfnod gwneud cais am gyllid………………………………………………………………………………16

Tabl 3.3: Dangosyddion lefel achos yr SMS………………………………..……..…17

Tabl 3.4: Cynnydd yn erbyn dangosyddion lefel achos cyfunol y prosiectau a ariannwyd hyd yma......................................................................…….…..……..18

Ffigur 5.1: Model Rhesymeg Damcaniaeth Newid ar gyfer yr SMS……….….……33

Ffigur 7.1: Dull o glywed am SMS……………………………………….……………42

Ffigur 7.2: Nifer y partneriaid a oedd yn rhan o bob cais SMS………..……….....44

Ffigur 7.3: Pa mor hawdd oedd cwblhau'r Datganiad o Ddiddordeb a'r cais ar gyfer yr SMS ………………………………………………………………………………………45

Ffigur 7.4: I ba raddau yr oedd syniadau cychwynnol y prosiect yn bodloni amcanion yr SMS…………………………………………………………...…………….……50

Ffigur 7.5: Barn yr ymatebwyr i'r arolwg ar (a) pa mor ddefnyddiol oedd y cymorth gan Lywodraeth Cymru a (b) y gwahaniaeth a wnaeth i'w cais………………………56

Ffigur 8.1: Profiad cyffredinol o'r cynllun SMS ……………………………...….…59

Ffigur 8.2: Barn ar ofynion adrodd prosiectau SMS Llywodraeth Cymru………..…..62

Ffigur 9.1: Cyfraniad disgwyliedig prosiectau SMS at themâu trawsbynciol a'r strategaeth Cymraeg 2050……………………………………………………………85

## Geirfa

| Acronym/Allweddair | Diffiniad |
|---|---|
| AHNE | Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol |
| CNC | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Deddf Llesiant | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol |
| ENRaW | Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant yng Nghymru |
| GIS | System Gwybodaeth Ddaearyddol |
| SMNR | Rheoli ein Hadnoddau Naturiol yn Gynaliadwy |
| SMS | Y Cynllun Rheoli Cynaliadwy |
| TWE | Taliadau am Wasanaethau Amgylcheddol |
| UE | Undeb Ewropeaidd |

# 1. Cyflwyniad

1.1 Penodwyd Ymchwil OB3, ar y cyd â Phartneriaeth BRO, gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad o'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy (SMS) a ariennir trwy Raglen Cymunedau Gwledig - Rhaglen Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru (WG RC-RDP) 2014-2020.

1.2 Nod y gwerthusiad yw adolygu sut mae'r SMS yn cefnogi'r camau gweithredu ar y cyd i wella adnoddau naturiol a helpu i sicrhau cadernid yr ecosystem ac asesu ei gyfraniad at gynnal manteision cymdeithasol ac economaidd i gymunedau.

1.3 Bwriedir i'r gwerthusiad ymchwilio i bum amcan allweddol:

- i ba raddau y mae'r prosiectau'n cyd-fynd ag egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR)
- y ffordd y mae'r cynllun yn cael ei reoli a'i weithredu
- natur a graddau'r cydweithio a'r hyn a gyflawnwyd drwy hynny
- canlyniadau'r cynllun a chamau gweithredu ar y blaenoriaethau polisi
- y cyfraniad at y themâu trawsbynciol, yn enwedig addasu a lliniaru'r newid yn yr hinsawdd.

1.4 Mae'r gwerthusiad yn cael ei gynnal rhwng mis Ionawr 2020 a mis Hydref 2022 ac mae'n cynnwys:

- adroddiad diweddaru blynyddol cyntaf (Tachwedd 2020)
- ail adroddiad diweddaru blynyddol (Hydref 2021)
- adroddiad gwerthuso effaith terfynol (Hydref 2022)

1.5 Mae'r adroddiad diweddaru blynyddol cyntaf hwn yn amlinellu'r ddamcaniaeth newid ar gyfer yr SMS ac yn cyflwyno canfyddiadau allweddol gwerthusiad proses. Mae wedi cynnwys ymchwil desg, gan gynnwys dadansoddiad o ddogfennau rhaglenni a data monitro, yn ogystal â gwaith maes gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, rhanddeiliaid allweddol, arweinwyr prosiectau a chyfranwyr eraill at brosiectau. Mae'n bwysig nodi bod yr adroddiad cyntaf hwn wedi canolbwyntio ar y ffordd y

mae'r cynllun yn cael ei reoli a'i weithredu a natur y cydweithio. Bydd adroddiadau dilynol, a'r adroddiad terfynol yn benodol yn adrodd yn llawnach ar ganlyniadau ac effeithiau'r rhaglen

1.6 Cyflwynir yr adroddiad hwn mewn 10 pennod, fel a ganlyn:

- pennod un: y cyflwyniad hwn i'r adroddiad
- pennod dau: amlinelliad o fethodoleg yr astudiaeth
- pennod tri: trosolwg o'r SMS
- pennod pedwar: y cyd-destun polisi a strategol ar gyfer yr SMS
- pennod pump: Damcaniaeth Newid ar gyfer y rhaglen
- penodau chwech i naw: canfyddiadau'r gwaith maes
- pennod deg: y casgliadau a'r argymhellion ar gyfer gweddill cyfnod y rhaglen.

Mae Atodiad A yn rhoi crynodeb byr o'r prosiectau a gafodd eu cyfweld ar gyfer yr adroddiad hwn. Mae Atodiadau B-D yn cynnwys y canllawiau trafod a ddefnyddiwyd i gasglu'r dystiolaeth.

## 2. Methodoleg

2.1 Mae'r bennod hon yn amlinellu'r dull a ddefnyddiwyd i lunio adroddiad diweddaru blynyddol y gwerthusiad, proffil o gynrychiolwyr y prosiectau a gyfwelwyd ac yn trafod rhai o'r ystyriaethau methodolegol allweddol wrth gynnal yr astudiaeth.

### Dull

2.2 Roedd y gweithgareddau gwerthuso a gynhaliwyd rhwng mis Ebrill a mis Hydref 2020 yn cynnwys yr elfennau canlynol:

- cam cychwynnol, a oedd yn cynnwys cyfarfod cychwynnol gydag un o swyddogion Llywodraeth Cymru, cyfarfod dilynol yn canolbwyntio ar bolisi sy'n gysylltiedig â'r SMS a pharatoi dull methodolegol a chynllun prosiect wedi'u mireinio
- ymchwil desg, a oedd yn cynnwys dadansoddiad o bolisïau a dogfennau strategol perthnasol gan gynnwys cyhoeddiadau Llywodraeth Cymru a deddfwriaeth allweddol, yn ogystal ag adolygiad o ddogfennau ac adroddiadau'r cynllun SMS
- paratoi canllaw trafod ansoddol ar gyfer cyfweld â swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â dylunio a datblygu'r SMS (a nodir yn Atodiad B)
- cyfweld ag wyth o swyddogion Llywodraeth Cymru i gael eu barn ynghylch pwrpas a dyluniad yr SMS ynghyd â'r canlyniadau bwriadedig a'r effeithiau a ddisgwylir
- syntheseiddio canfyddiadau'r gwaith maes a'r adolygiad desg i ddatblygu model rhesymeg Damcaniaeth Newid ar gyfer yr SMS, a nodir yn Ffigur 5.1, Pennod 5
- paratoi a dosbarthu arolwg ar-lein i bob ymgeisydd llwyddiannus ac aflwyddiannus i'r SMS
- paratoi canllawiau trafod ansoddol ar gyfer cyfweld â chyfranwyr fel rhan o'r gwerthusiad (Atodiadau A ac C) a Hysbysiad Preifatrwydd ategol

- cynnal cyfweliadau â 26 o gynrychiolwyr ar draws 18 o brosiectau SMS
- cynnal trafodaethau grŵp ffocws ar-lein gyda deg aelod o'r gwasanaeth cymorth gan hwylusydd
- cyfweld â deg o randdeiliad allweddol ychwanegol o Lywodraeth Cymru a sefydliadau allanol eraill gan gynnwys CNC
- dadansoddi a chyfuno canfyddiadau'r gwaith maes a'r adolygiad desg a pharatoi'r adroddiad hwn.

**Proffil o'r ymatebwyr i'r arolwg**

2.3 Cafwyd cyfanswm o 27 o ymatebion i'r arolwg ar y we. O blith y rhain, cwblhawyd 24 o'r ymatebion yn Saesneg a chwblhawyd tri ymateb yn Gymraeg.

2.4 Cwblhawyd y mwyafrif (24 o ymatebion) gan gynrychiolydd prosiect neu sefydliad sy'n ymgeisydd arweiniol a chwblhawyd tri ymateb gan sefydliad partner prosiect neu ymgeisydd.

2.5 Adeg cwblhau'r arolwg ar y we:

- roedd Datganiad o Ddiddordeb pump o'r ymatebwyr wedi cael ei wrthod gan Lywodraeth Cymru
- roedd cais am gyllid SMS tri o'r ymatebwyr wrthi'n cael ei arfarnu gan Lywodraeth Cymru
- roedd cais am gyllid SMS un ymgeisydd wedi cael ei gymeradwyo ond nid oedd y prosiect wedi dechrau
- dywedodd 14 fod eu prosiect SMS yn mynd rhagddo
- roedd pedwar wedi cwblhau eu prosiect SMS.

**Proffil y prosiectau a gyfwelwyd**

2.6 Dewiswyd sampl o 20 o brosiectau SMS presennol ar gyfer cyfweliadau. Dewiswyd y rhain ar sail eu dyddiad gorffen disgwyliedig. Bydd gweddill y prosiectau SMS i gyd yn cael eu cyfweld yn ystod y gwerthusiad, yn ystod y cam o lunio'r adroddiad diweddaru blynyddol nesaf neu yn ystod y cam o

llunio'r adroddiad gwerthuso terfynol. Gwrthododd dau o'r 20 prosiect a ddewiswyd gymryd rhan ar y cam hwn oherwydd materion yn deillio o Covid-19 megis y ffaith bod y prosiect wedi ei oedi neu bod y staff ar ffyrlo. Mae disgrifiad byr o bob un o'r deunaw prosiect sydd wedi'u cynnwys yn y gwaith maes ar gyfer yr adroddiad hwn wedi'i gynnwys yn Atodiad A yr adroddiad diweddaru hwn o'r gwerthusiad.

2.7 O blith y 18 o brosiectau a gyfwelwyd:

- roedd naw o'r cyfnod cyllido cyntaf (gyda dyddiadau dechrau yn amrywio o fis Hydref 2016 i fis Ionawr 2017), roedd saith o'r ail gyfnod cyllido (gyda'r dyddiadau dechrau yn amrywio o fis Mawrth 2017 i fis Mawrth 2018) ac roedd dau o'r trydydd cyfnod cyllido (gyda dyddiadau dechrau yn amrywio o fis Gorffennaf 2019 i fis Ebrill 2020)
- arweiniwyd pedwar prosiect gan awdurdodau parciau cenedlaethol, arweiniwyd tri gan awdurdodau lleol, arweiniwyd pedwar gan ymddiriedolaeth neu gymdeithas bywyd gwyllt ac roedd y lleill yn gymysgedd o sefydliadau, elusennau neu bartneriaethau'r trydydd sector.
- o ran lleoliadau daearyddol, roedd dau brosiect yn cwmpasu Cymru gyfan, roedd tri phrosiect yn gweithio ar draws sawl ardal awdurdod lleol ac roedd y prosiectau eraill wedi'u lleoli mewn awdurdod lleol penodol. O blith y prosiectau nad oeddent yn gweithredu ledled Cymru, roedd wyth wedi'u lleoli yn y Gogledd, pump yn y De a thri yn y Canolbarth
- roedd cyfanswm y grant a dderbyniwyd gan y prosiectau yn amrywio o £200,000 i ychydig o dan £1 filiwn.

**Ystyriaethau methodolegol**

2.8 Mae angen ystyried y materion canlynol mewn perthynas â'r fethodoleg a fabwysiadwyd ar gyfer yr astudiaeth hon:

- mae'r brigiad o achosion o'r coronafeirws Covid-19 a'r cyfyngiadau a osodwyd yn sgil hynny wedi effeithio ar gyflawni'r prosiect. Cafodd llawer o staff eu rhoi ar ffyrlo yn ystod cyfnod y gwaith maes neu

roedd y rhai a oedd ar ôl yn rhy brysur gan wrthod cymryd rhan ar y cam hwn. Mae'r pandemig hefyd wedi effeithio ar y dull a fabwysiadwyd ar gyfer cynnal yr astudiaeth hon. Ein bwriad oedd ymweld â phob un o'r prosiectau a gweld rhai o ganlyniadau'r prosiect yn uniongyrchol. Fodd bynnag, oherwydd y cyfyngiadau, cynhaliwyd pob cyfweliad drwy Teams neu dros y ffôn. Mae'r anallu hwn i ymweld â safleoedd a chwrdd ag ystod eang o bartneriaid wedi cael effaith ar lefel y manylion yr ydym wedi gallu eu darganfod am brosiectau astudiaethau achos yn benodol. O'r herwydd, mae'r astudiaethau achos yn yr adroddiad hwn yn gipluniau byrrach. Mewn adroddiadau yn y dyfodol rydym yn bwriadu ailedrych ar y prosiectau hyn a chael dealltwriaeth ddyfnach o'r effeithiau a'r gwahaniaeth a wnânt yn lleol

- dewiswyd y sampl o blith sefydliadau o'r cyfnodau cyllido cynharach (cyfnodau un i dri). Er bod modd i bob prosiect ymateb i'r arolwg, ymatebwyd i hwn hefyd yn bennaf gan brosiectau a ariannwyd yn ystod cyfnodau cynharach sydd eisoes yn mynd rhagddynt. Bydd yr arolwg yn cael ei ailadrodd ddwywaith ar gyfer cyfnodau adrodd dilynol ac felly bydd hynny'n gyfle i gael rhagor o ymatebion gan bob prosiect a ariannwyd. Mae'r adborth yn yr adroddiad hwn yn adlewyrchu'n bennaf y cam Datgan Diddordeb cynnar a cham ymgeisio'r rhaglen ac ni fydd yn darparu llawer o wybodaeth am unrhyw newidiadau a allai fod wedi digwydd ers hynny. Ni fydd ychwaith yn darparu llawer o ddealltwriaeth o'r gwasanaeth cymorth gan hwylusydd a gyflwynwyd i gyfnodau cyllido diweddarach (o gyfnod pedwar ymlaen). Er y gall yr adroddiad ddarparu rhai safbwyntiau ynghylch y gwasanaeth cymorth gan hwylusydd gan lunwyr polisïau a'r hwyluswyr eu hunain, ac y gall gynnig rhai prif ganfyddiadau o'r arolwg, ni fydd yn gallu 'profi' rhai o'r rhagdybiaethau a'r canfyddiadau gyda'r prosiectau a ddefnyddiodd y gwasanaeth yn yr adroddiad hwn. Bydd y gwerthusiad yn dibynnu ar gael y dystiolaeth hon drwy gyfweliadau ar gyfer yr adroddiadau diweddaru blynyddol dilynol

- adeg paratoi'r adroddiad hwn dim ond tri phrosiect SMS sydd wedi'u cwblhau, ac nid yw'r adroddiadau gwerthuso prosiect terfynol wedi dod i law eto. O'r herwydd, mae'r adroddiad hwn, yn unol â'r bwriad gwreiddiol, yn **werthusiad proses** gyda'r nod o dynnu sylw at y canfyddiadau allweddol yn deillio o ddylunio, gweithredu a chyflawni'r SMS yn y camau cynnar. Lle y casglwyd tystiolaeth o allbynnau a chanlyniadau yn ystod cyfweliadau, adroddir ar y rhain ym mhennod naw, ond bydd adroddiadau diweddaru blynyddol dilynol yn gallu darparu mwy o fanylion wrth i brosiectau SMS pellach gyrraedd eu dyddiadau cwblhau a chyflwyno eu hadroddiadau gwerthuso i'w hystyried.
- mae'r amrywiaeth eang o brosiectau a'u gwahanol nodau ac amcanion yn cyflwyno ei heriau mewn perthynas â gwerthusiad ar lefel rhaglen o ran gallu dod â nodweddion cyffredin ynghyd a chyflwyno effeithiau ar lefel rhaglen. Fodd bynnag, mae ein methodoleg ar gyfer adroddiadau gwerthuso dilynol yn cynnwys dadansoddi data System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) er mwyn cofnodi canlyniadau ac effeithiau.

# 3. Trosolwg o'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy

3.1 Mae'r bennod hon yn rhoi trosolwg manwl o'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy (SMS) gan ystyried dogfennau ar lefel y cynllun yn cynnwys canllawiau i ymgeiswyr a phrosiectau.

**Cyflwyniad**

3.2 Nod yr SMS yw cefnogi dulliau cydweithredol o ymgymryd â gweithgareddau rheoli tir a fydd yn gwella adnoddau naturiol ac yn helpu i sicrhau cadernid ecosystemau a fydd, yn ei dro, yn cynnal y manteision cymdeithasol ac economaidd y maent yn eu darparu i gymunedau. Mae'r canllawiau'n amlinellu ei nod cyffredinol fel a ganlyn:

'cefnogi prosiectau cydweithredol ar raddfa'r dirwedd i ddarparu camau gweithredu sy'n gwella ein hadnoddau naturiol mewn ffordd sy'n sicrhau manteision i fusnesau gwledig a ffermio a chymunedau gwledig'[1].

3.3 Nod y cynllun oedd:

- diogelu adnoddau naturiol fel dŵr, pridd, bioamrywiaeth ac aer
- gwella cadernid ecolegol
- gwella mynediad i'r amgylchedd a chyfleoedd i fwynhau ardaloedd naturiol
- cyflwyno cyfleoedd newydd ar gyfer datblygu sgiliau a chreu swyddi
- gwella mannau gwyrdd cymunedol
- lleihau'r risg o lifogydd yn sgil dŵr wyneb
- sicrhau bod gan y gymuned a'r sector y gallu i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd
- darparu cyfleoedd ar gyfer ymarfer corff a gwelliannau i iechyd a llesiant
- gwella cydlyniant cymunedol
- darparu arloesedd ac entrepreneuriaeth a

[1] Llywodraeth Cymru (2018) Nodyn Canllawiau Cynllun Rheoli Cynaliadwy (t.3)

- darparu cyfleoedd gwirfoddoli a chyfleoedd addysg i ysgolion.

3.4 Dyluniwyd y cynllun i gyfrannu tuag at weithredu Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ac roedd yn cyd-fynd â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

3.5 Mae'n ofynnol i'r cynllun gyfrannu at themâu trawsbynciol yr UE, sef datblygu cynaliadwy, cydraddoldeb a phrif ffrydio rhywedd, a threchu tlodi ac allgáu cymdeithasol. Mae'n ofynnol i'r cynllun hefyd gyfrannu at amcanion trawsbynciol y Rhaglen Datblygu Gwledig, sef addasu i newid yn yr hinsawdd a lliniaru ei effeithiau ac arloesi.

3.6 Mae'r SMS yn rhoi cryn bwys ar egwyddorion cydweithio ac ymgysylltu, a disgwyliwyd y byddai camau'n cael eu cymryd ar lefel y dirwedd (fel y dalgylch), yn hytrach nag ar lefel ffermydd unigol.

3.7 Y bwriad hefyd oedd bod yr SMS yn cefnogi ac yn hwyluso cydgysylltu â chynlluniau eraill er mwyn cymryd y camau sydd eu hangen i wella gallu busnesau fferm a gwledig a chymunedau gwledig i wrthsefyll effeithiau newis yn yr hinsawdd.

**Dyluniad y cynllun**

3.8 Cynllun cyllid grant cystadleuol yw'r SMS sydd ar gael i unigolion a sefydliadau sy'n cydweithio fel grwpiau i wella adnoddau naturiol Cymru.

3.9 Dyrannwyd cyllideb arfaethedig o £23.3 miliwn i'r cynllun fel rhan o'r Rhaglen Datblygu Gwledig a chynhaliwyd y cylch cyllido cyntaf yn ystod 2016. Targedwyd y cynllun yn wreiddiol i ariannu cyfanswm o 30 o brosiectau a byddai unrhyw brosiect unigol yn gallu gwneud cais am grant hyd at uchafswm o £5 miliwn. Roedd y cynllun yn darparu cyllid ar gyfradd grant o hyd at 100 y cant. Y trothwy grant lleiaf a bennwyd ar gyfer pob prosiect oedd £10,000. Roedd disgwyl i brosiectau beidio â bod yn hwy na thair blynedd o fewn cyfnod y rhaglen, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny.

3.10 Cyhoeddwyd canllawiau gan Lywodraeth Cymru[2] i ddarpar ymgeiswyr am grantiau yn nodi y dylai prosiectau fynd i'r afael â'r blaenoriaethau polisi

[2] Cynllun Rheoli Cynaliadwy Llywodraeth Cymru: Manyleb ar gyfer Gwasanaeth Cymorth y Cynllun Rheoli Cynaliadwy

adnoddau naturiol a nodir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ogystal â chyfleoedd a heriau lleol.

3.11 Mae'r canllawiau hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd dulliau cydweithredol yn hytrach nag ymgeiswyr unigol am gyllid, a disgwyliwyd y gellid defnyddio cyllid y cynllun i helpu i ddatblygu a chydlynu grwpiau cydweithredol.

3.12 Roedd ymgeiswyr cymwys yn cynnwys busnesau bach a chanolig (BBaChau), busnesau mawr, sefydliadau addysg neu ymchwil, ffermwyr, coedwigwyr, cymunedau a grwpiau gwirfoddol sy'n gweithredu'n bennaf mewn ardal wledig ac sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth, coedwigaeth neu weithgareddau rheoli tir eraill.

3.13 Roedd disgwyl i weithgareddau cymwys gynnwys:

- datblygu a chydlynu grwpiau cydweithredol a rheoli prosiectau
- camau cydweithredol a fyddai'n arwain at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy
- cyfathrebu a lledaenu dulliau prosiect, gwersi a chanlyniadau
- ymchwil, cyngor technegol, ac astudiaethau dichonoldeb
- gweithgareddau monitro a gwerthuso i ddangos y canlyniadau a gyflawnwyd.

3.14 Nodwyd gweithgareddau anghymwys fel taliadau uniongyrchol i dirfeddianwyr, ffermwyr neu goedwigwyr am waith cyfalaf a wneir ar eu tir eu hunain neu am weithgareddau rheoli tir sy'n mynd rhagddynt. Roeddent hefyd yn cynnwys buddsoddi yng ngwaith cynhyrchu cychwynnol nwyddau amaethyddol neu bren.

**Y broses ymgeisio**

3.15 Dewiswyd y prosiectau i'w hariannu mewn dau gam gwahanol. Roedd disgwyl i ymgeiswyr gyflwyno Datganiad o Ddiddordeb ac yna gwahoddwyd y rhai llwyddiannus i gyflwyno cais llawn am gyllid. Er mwyn symud ymlaen i'r cam cais llawn, roedd disgwyl i'r rhai a gyflwynodd Ddatganiad o Ddiddordeb ddangos sut y byddai eu prosiect arfaethedig yn cyfrannu at

nodau ac amcanion yr SMS, ac yn benodol sut roeddent yn bodloni dau faen prawf, sef:

- camau gweithredu sy'n flaenoriaeth ar gyfer gweithredu i gefnogi Polisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru
- egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR)

3.16 Roedd yn ofynnol i ymgeiswyr a gyrhaeddodd yr ail gam ddatblygu cynllun prosiect a dangos:

- yr angen am y gweithgarwch: bod angen yr allbynnau, a byddant yn cael eu cyflawni o gymharu â blaenoriaethau strategol y Comisiwn Ewropeaidd a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru; byddai'n ychwanegu at yn hytrach nag yn disodli/dyblygu gweithgarwch presennol yn ddiangen; nad yw’n cael ei ariannu eisoes gan ffynhonnell arall.
- yr angen am gyllid: ni fyddai'r prosiect yn mynd rhagddo heb gymorth; ni fyddai'r costau’n ormodol ar gyfer natur y gweithgarwch dan sylw; roedd bwlch yn y cyllid neu fethiant yn y farchnad, lle bo hynny’n gymwys
- y gallu i gyflenwi: hyfywedd y busnes; cydymffurfio â’r gyfraith; hyfywedd ariannol y prosiect a chynaliadwyedd, gan gynnwys strategaeth ymadael; cymorth ac ymrwymiad pob cydweithredwr; trefniadau rheoli, monitro a gwerthuso’r prosiect.

3.17 Roedd yn ofynnol hefyd i ymgeiswyr llawn yn yr ail gam ddangos eu bod yn mynd i'r afael â gofynion ychwanegol, gan gynnwys:

- sicrhau caniatâd cynllunio amlinellol, lle bo angen
- sicrhau pob cydsyniad, trwydded a chaniatâd arall yn ôl yr angen
- hyfywedd economaidd y prosiect a’r sefydliad, gyda'r gofyniad i sefydliadau newydd ddarparu manylion am eu cyfarwyddwyr
- cydymffurfio ag amrywiol ddeddfwriaethau gan gynnwys deddfwriaeth ar gyfle cyfartal, yr amgylchedd, iechyd a diogelwch, lles anifeiliaid a diogelwch

- recriwtio staff allweddol drwy broses agored a theg
- galluoedd a sgiliau technegol a rheoli.

3.18 Y bwriad oedd dyfarnu cyllid dros oes y cynllun, drwy gylchoedd ymgeisio cyfnodol. Roedd disgwyl i gyfnodau ar gyfer cyflwyno Datganiadau o Ddiddordeb agor bob tua naw mis a bwriadwyd i bob cyfnod fod ar agor am rhwng dau a thri mis calendr.

3.19 Gweinyddwyd pum cyfnod gwneud cais am gyllid gan Lywodraeth Cymru. Mae Tabl 3.1 yn nodi'r llinell amser ar gyfer pob cyfnod ymgeisio am gyllid a'r llinell amser ar gyfer cyflawni a ragwelwyd ar gyfer prosiectau a ariannwyd ym mhob cyfnod cyllido.

**Tabl 3.1: Llinell amser cyfnodau gwneud cais am gyllid yr SMS**

| | Cyfnod 1 | Cyfnod 2 | Cyfnod 3 | Cyfnod 4 | Cyfnod 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Y cyfnod gwneud cais yn agor** | Chwefror 2016 | Hydref 2016 | Gorffennaf 2017 | Gorffennaf 2018 | Mai 2019 |
| **Y cyfnod gwneud cais yn cau** | Mai 2015 | Tachwedd 2016 | Medi 2017 | Medi 2018 | Awst 2019 |
| **Prosiectau'n dechrau** | Gorffennaf 2017 i Fawrth 2018 | Mehefin 2018 i Orffennaf 2019 | Ionawr 2019 i Medi 2019 | Awst 2020 i Chwefror 2021 | Mwyafrif y prosiectau yn cael eu harfarnu ar hyn o bryd. |
| **Prosiectau wedi'u cwblhau** | Mawrth 2020-Mawrth 2021[3] | Mawrth 2021-Mehefin 2022[4] | Ionawr 2022 i Mawrth 2023 | Mawrth 2023-Mehefin 2023 | Mehefin 2023 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

**Prosiectau a gymeradwywyd**

3.20 Cyflwynwyd cyfanswm o 226 o Ddatganiadau o Ddiddordeb gan ymgeiswyr ar draws y pum cyfnod gwneud cais am gyllid gwerth cyfanswm o £97 miliwn, bron i bedair gwaith y cyllid grant sydd ar gael. Mae'r nifer sylweddol o geisiadau a ddaeth i law ym mhob cyfnod ymgeisio yn awgrymu y bu lefelau da o ymwybyddiaeth a diddordeb parhaus yn y cynllun, a bod ymdrechion hyrwyddo wedi bod yn effeithiol.

[3] Mae ambell eithriad i'r dyddiadau yma
[4] Mae ambell eithriad i'r dyddiadau yma

3.21 Dewiswyd cyfanswm o 52 o ymgeiswyr i symud ymlaen i'r cam cais llawn, fel y dangosir yn Nhabl 3.2, er nad yw dau o'r rhain yn symud ymlaen ymhellach. O blith y prosiectau a gymeradwywyd yn y cam Datgan Diddordeb, roedd 46 o brosiectau wedi cael eu cymeradwyo'n llawn ac roedd y pedwar oiedd yn weddill, yn cael eu harfarnu.

**Tabl 3.2: Ceisiadau a phrosiectau a gymeradwywyd fesul cyfnod gwneud cais am gyllid**

| | Cyfnod 1 | Cyfnod 2 | Cyfnod 3 | Cyfnod 4 | Cyfnod 5 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y Grant a Ymrwymwyd ar y cam Datgan Diddordeb** | £6,256,510 | £6,445,743 | £4,012,123 | £4,838,036 | £2,995,225 | £24,547,637 |
| **Nifer y Datganiadau o Ddiddordeb a Gyflwynwyd** | 63 | 38 | 26 | 54 | 45 | 226 |
| **Prosiectau llwyddiannus ar y cam Datgan Diddordeb** | 11 | 13 | 12 | 9 | 8 | 52 |
| **Prosiectau Byw (Cymeradwyaeth lawn i'r prosiect)** | 11 | 13 | 12 | 8 | 5 | 46 |
| **Prosiectau sy'n cael eu harfarnu** | 0 | 0 | 0 | 1 | 3 | 4 |
| **Prosiectau sy'n datblygu cais llawn** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Prosiect nad ydynt yn mynd ymhellach** | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 1 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (Ebrill 2021)

**Cyllid a gwariant**

3.22 Erbyn Ebrill 2021, roedd bron i £22 miliwn o gyllid grant wedi'i ymrwymo ar draws y cynllun yn erbyn y gyllideb gyffredinol o bron £25 miliwn, ac yn gyffredinol roedd gwerth y cyllid a ymrwymwyd ym mhob cyfnod cyllido yn gostwng dros amser. Yn seiliedig ar ddata ar gyfer 52 o brosiectau, roedd gwerth y grant y gwnaed cais amdano gan brosiectau unigol yn amrywio o £70,000 i £934,600, gyda gwerth cyfartalog y grant a ymrwymwyd fesul prosiect yn £478,572.

**Targedau**

3.23 Disgwylir i'r SMS gyfrannu at ddau ddangosydd penodol:

- cyfanswm y gwariant, sy'n ddangosydd ar lefel y Rhaglen Datblygu Gwledig, a
- nifer y gweithrediadau cydweithredu a gefnogir, sy'n ymwneud yn benodol â Mesur 16, Blaenoriaeth 4 y Cynllun Datblygu Gwledig.

3.24 Mae gan yr SMS hefyd 18 o ddangosyddion ar lefel achos i'w cyflawni. Disgwylir i brosiectau unigol gyflawni o leiaf ddau o'r dangosyddion lefel achos hyn a disgwylid iddynt ddewis targed priodol ar gyfer y dangosyddion a ddewiswyd. Nodir dangosyddion lefel achos yn Nhabl 3.3.

**Tabl 3.3: Dangosyddion lefel achos yr SMS**

| | |
|---|---|
| **1** | Y boblogaeth sy'n elwa o well gwasanaethau/seilwaith |
| **2** | Nifer y swyddi a grëwyd |
| **3** | Nifer y swyddi a ddiogelwyd |
| **4** | Nifer y cyfranogwyr sy'n cael hyfforddiant |
| **5** | Nifer y diwrnodau hyfforddi |
| **6** | Cyfanswm y gwariant cyhoeddus ar hyfforddiant / sgiliau |
| **7** | Nifer yr unigolion sy'n ennill cymhwyster |
| **8** | Nifer y marchnadoedd newydd y cafwyd mynediad iddynt |
| **9** | Nifer y mentrau a gynorthwywyd |
| **10** | Nifer y microfusnesau a'r busnesau bach a chanolig a gefnogwyd |
| **11** | Nifer y rhwydweithiau a sefydlwyd |
| **12** | Nifer yr astudiaethau dichonoldeb |
| **13** | Nifer y rhanddeiliaid yr ymgysylltwyd â hwy |
| **14** | Nifer y gweithgareddau peilot a gyflawnwyd/a gefnogwyd |
| **15** | Nifer y camau i ddefnyddio adnoddau naturiol er budd iechyd |
| **16** | Mynediad wedi'i reoli i gefn gwlad neu'r arfordir |
| **17** | Arwynebedd (ha) y coetir a gynhaliwyd |
| **18** | Arwynebedd (ha) y cynefin mawndir a ailwlychwyd |

3.25 Mae dadansoddiad o ddata a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau a gymeradwywyd yn llawn yn dangos bod pob un yn anelu at ddarparu atebion yn seiliedig ar natur a mabwysiadu dull yn seiliedig ar le, sydd ill dau yn flaenoriaethau cenedlaethol yn y Polisi Adnoddau Naturiol.

3.26 Mae dadansoddiad o ddata a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 21 o brosiectau hyd yma yn dangos eu bod yn bwriadu cyflawni allbynnau cyfunol o ran y dangosyddion lefel achos fel y nodir yn Nhabl 3.4. Yn

ogystal â'r dangosyddion hyn, mae rhai prosiectau hefyd yn bwriadu cyflawni dangosyddion eraill megis arwynebedd yr ucheldir a adferwyd.

**Tabl 3.4 Cynnydd yn erbyn dangosyddion lefel achos cyfunol y prosiectau a ariannwyd hyd yma**

| Dangosydd lefel achos | Targed | Cynnydd hyd yma |
|---|---|---|
| Arwynebedd y cynefin mawndir a ailwlychwyd | 86ha | 19.7ha |
| Arwynebedd yr ucheldira adferwyd i wella cyflwr cadw carbon | 46ha | 46ha |
| Arwynebedd y coetir a gynhaliwyd | 4720ha | 111.6ha o goetir a reolir a 13.91ha o blannu newydd |
| Nifer y mentrau a gynorthwywyd | 357 | 134 |
| Mynediad wedi'i reoli i gefn gwlad neu'r arfordir | 125km | 12km |
| Nifer y camau i ddefnyddio adnoddau naturiol er budd iechyd | 1020 | 602 |
| Nifer yr astudiaethau dichonoldeb | 37 | 31 |
| Nifer yr unigolion sy'n ennill cymhwyster | 114 | 108 |
| Nifer y swyddi a grëwyd | 32 | 29 |
| Nifer y swyddi a ddiogelwyd | 14 | 14 |
| Nifer y microfusnesau a'r busnesau bach a chanolig a gefnogwyd | 327 | 19 |
| Nifer y rhwydweithiau a sefydlwyd | 72 | 27 |
| Nifer y cyfranogwyr sy'n cael hyfforddiant | 1166 | 231 |
| Nifer y gweithgareddau peilot a gyflawnwyd/a gefnogwyd | 87 | 181 |
| Nifer y rhanddeiliaid yr ymgysylltwyd â hwy | 7000 | 2337 |
| Nifer y diwrnodau hyfforddi | 540 | 181 |
| Cyfanswm y gwariant cyhoeddus ar hyfforddiant / sgiliau | £176,909 | £122,600 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (Ebrill 2021)

**Trefniadau llywodraethu a rheoli'r cynllun**

3.27 Y bwriad oedd i'r SMS gael ei arwain a'i reoli gan dîm bach o hyd at bedwar unigolyn o Adran yr Amgylchedd a Materion Gwledig o fewn Grŵp Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol[5] Llywodraeth Cymru. Cafodd y tîm, dan arweiniad Uwch Gynghorydd Gweithredu, y dasg o reoli cam Datgan

[5] Tirwedd, natur a choedwigaeth yw'r enw arno nawr

Diddordeb y broses ymgeisio, gan gynnwys hyrwyddo'r cynllun, asesu ceisiadau, darparu adborth i ymgeiswyr aflwyddiannus a monitro'r broses o gyflawni.

3.28 Roedd tîm SMS Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am hyrwyddo a lledaenu gwybodaeth am y cynllun, drwy weithdai ac ar lefel unigol.

3.29 Y bwriad oedd y byddai pob Datganiad o Ddiddordeb yn cael ei asesu gan dîm yr SMS yn Llywodraeth Cymru. Mae'r broses wedi golygu bod aelodau unigol o'r tîm yn sgorio ceisiadau yn erbyn meini prawf dethol cyhoeddedig a'u rhestru yn nhrefn teilyngdod drwy broses gymedroli. Cynhaliwyd ail adolygiad gan arweinydd polisi Llywodraeth Cymru a oedd yn gyfrifol am y maes gwaith a oedd yn gysylltiedig â phob Datganiad o Ddiddordeb, i sicrhau eu cefnogaeth i'r cynigion. Cynhaliwyd adolygiad pellach gan gynrychiolydd annibynnol o Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Pwrpas yr adolygiad hwn oedd asesu dichonoldeb y cais o safbwynt rheoliadol ac adolygu'r angen am ymyrraeth. Yna gwahoddwyd y Datganiadau o Ddiddordeb â'r sgorau uchaf, a'r adolygiadau ategol, i gyflwyno cais llawn.

3.30 Ar ôl cymeradwyo'r ceisiadau, mae tîm SMS Llywodraeth Cymru yn parhau i reoli'r cynllun o ran cysylltu â phrosiectau yn ogystal â goruchwylio gofynion monitro ac adrodd. Mae hefyd yn parhau i ddarparu cefnogaeth ymarferol i gynorthwyo gyda datblygu prosiectau, gan gynnwys cyfarfod cychwynnol hanner diwrnod gyda phob prosiect. Fel gyda holl swyddogaethau gweinyddol y Rhaglen Datblygu Gwledig, Uned Reoli'r Cynllun oedd yn gyfrifol am reolaeth ariannol yr SMS i ddechrau cyn trosglwyddo'r awenau i'r Tîm Taliadau Gwledig o fewn Llywodraeth Cymru.

*Gwasanaeth Cymorth*

3.31 Ran o'r ffordd drwy'r cynllun, sefydlwyd gwasanaeth cymorth i roi arweiniad a chyngor i ffermwyr, coedwigwyr a rheolwyr tir eraill i ddatblygu syniadau prosiect newydd a ffurfio partneriaethau neu grwpiau newydd er mwyn cyflwyno Datganiad o Ddiddordeb i'r SMS. Mae'r gwasanaeth hefyd yn darparu cymorth i brosiectau a wahoddir i ail gam y broses ymgeisio i'w helpu i ddatblygu cynlluniau prosiect llawn.

3.32 Darperir y gwasanaeth hwn fel rhan o'r gwasanaeth Cyswllt Ffermio gan Menter a Busnes. Darperir y gwasanaeth gan 15 o hwyluswyr sy'n gweithio'n uniongyrchol â grwpiau o ymgeiswyr i ddatblygu eu cais ar gyfer prosiect SMS. Roedd yn ofynnol i'r hwyluswyr wneud cais am y rolau hyn drwy broses ymgeisio, a oedd hefyd yn cynnwys cyfweliad. Cafodd yr hwyluswyr hyfforddiant cychwynnol ar ôl eu penodi ac mae'n ofynnol iddynt fynychu cyfarfodydd cynnydd rheolaidd a gynhelir gan Menter a Busnes.

3.33 Dyrannwyd hyd at 30 diwrnod i hwyluswyr i gefnogi ymgeiswyr yn ystod y cam Datgan Diddordeb a 30 diwrnod arall i gefnogi ymgeiswyr y bu eu Datganiad o Ddiddordeb yn llwyddiannus i ddatblygu eu ceisiadau llawn. Mae hwyluswyr wedi bod ar gael i gefnogi ymgeiswyr o gyfnod 4 ymlaen. Mae'r rhan fwyaf o'r hwyluswyr wedi hyrwyddo prosiect yn eu hardal leol yn ogystal â gweithio gyda phartneriaethau eraill i ddatblygu eu prosiectau.

*Grwpiau Ymarferwyr*

3.34 Mae dau Grŵp Ymarferwyr SMS wedi'u sefydlu, wedi'u hysgogi gan sefydliadau sy'n cael cyllid grant a'u cefnogi gan Lywodraeth Cymru. Mae'r ddau grŵp yn cwmpasu canol a gogledd Cymru. Yn ogystal, mae Grŵp Gweithredu ar Fawndiroedd hefyd yn bodoli ac er nad yw hyn yn uniongyrchol gysylltiedig â'r SMS, mae llawer o brosiectau'n gysylltiedig ag ef.

**Adroddiadau gan brosiectau**

3.35 Disgwylir i brosiectau a ariennir gyflwyno adroddiadau cynnydd rheolaidd i Lywodraeth Cymru i gefnogi pob hawliad ariannol (y gellir ei wneud yn fisol, neu'n llai aml hyd at un hawliad blynyddol) gan ddefnyddio templed adrodd safonol WEFO sy'n gofyn am wybodaeth am agweddau fel:

- adrodd ar gynnydd gan gynnwys gweithgareddau a chyflawniadau hyd yma, y canlyniadau a gyflawnwyd, ac unrhyw heriau neu oedi annisgwyl
- sut y rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r prosiect
- sut y mae'r prosiect yn bodloni unrhyw amodau arbennig a ddisgwylir ganddo fel yr amlinellir yn ei lythyr cymeradwyo

- yr asedau sydd gan y prosiect.

3.36 Mae'n ofynnol hefyd i brosiectau baratoi adroddiad gwerthuso prosiect terfynol annibynnol i Lywodraeth Cymru.

## 4. Rhesymeg polisi a rhesymeg strategol ar gyfer yr SMS

4.1 Mae'r bennod hon yn nodi'r rhesymeg yn ymwneud â chyllido, deddfwriaeth a pholisi ar gyfer y Cynllun Rheoli Cynaliadwy (SMS).

**Cyd-destun Cyllido**

*Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig*

4.2 Ariennir yr SMS drwy Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, strategaeth ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a Chronfa Amaethyddol ar gyfer Datblygiad Gwledig Ewrop[6]. Mae'r cynllun yn cefnogi ystod o weithgareddau sy'n cyfrannu at yr amcanion canlynol:

- meithrin cystadleurwydd mewn amaethyddiaeth
- sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli mewn modd cynaliadwy
- sicrhau datblygiad tiriogaethol cytbwys o ran economïau a chymunedau gwledig gan gynnwys creu a chynnal cyflogaeth.

4.3 Rhaid i weithgaredd a ariennir drwy Raglen Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru gyd-fynd ag un neu fwy o chwe blaenoriaeth datblygu gwledig. Ariennir yr SMS drwy **Flaenoriaeth 4** (Adfer, cadw a gwella ecosystemau sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth a choedwigaeth) lle mae cyllid ar gael ar gyfer mesurau tir amaethyddol a mesurau tir coedwigaeth. Fel rhan o ofynion y Comisiwn Ewropeaidd, mae gweithgaredd yn cael ei fapio i Fesurau penodol sy'n diffinio'r math o weithgaredd i'w gyflawni.

4.4 Cyflwynir yr SMS o dan **Is-fesur 16.5** (Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio) o'r flaenoriaeth hon y bwriedir iddi gefnogi camau gweithredu ar y cyd sy'n addasu i newid yn yr hinsawdd neu'n lliniaru ei effeithiau, a dulliau ar y cyd o gyflawni prosiectau amgylcheddol ac arferion amgylcheddol parhaus.

---

[6] Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 ar gyfer Cymru

4.5 Yn ogystal â chael ei ariannu o dan Flaenoriaeth 4 Cynllun Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru disgwylir hefyd i'r SMS gyfrannu at dair blaenoriaeth arall, sef:

- **Blaenoriaeth 2**: Gwella hyfywedd ffermydd a chystadleurwydd pob math o amaethyddiaeth ym mhob rhanbarth a hyrwyddo technolegau fferm arloesol a rheoli coedwigoedd yn gynaliadwy
- **Blaenoriaeth 5:** Hyrwyddo'r defnydd effeithlon o adnoddau a chefnogi symudiad tuag at economi carbon isel sy'n gallu gwrthsefyll yr hinsawdd yn y sector amaeth, y sector bwyd a'r sector coedwigaeth
- **Blaenoriaeth 6**: Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, lleihau tlodi a datblygu economaidd mewn ardaloedd gwledig.

**Cefndir**

4.6 Yn yr adroddiad State of Nature a gyhoeddwyd ym mis Mai 2013, gan gonsortiwm o 25 o Sefydliadau Anllywodraethol amgylcheddol, roedd y neges yn glir - mae'n argyfwng ar fywyd gwyllt yng Nghymru. Amlygodd yr adroddiad y bu gostyngiad o 60 y cant yn y rhywogaethau a astudiwyd dros y 50 mlynedd diwethaf, a bod 10 yn wynebu difodiant.

4.7 Yn 2014 darparodd Llywodraeth Cymru £5 miliwn i ariannu'r Gronfa Natur, a fyddai'n parhau dros 2015/16. I ddechrau, cynhyrchwyd 460 o syniadau, neu Ddatganiadau o Ddiddordeb, gan gyrff anllywodraethol amgylcheddol, rheolwyr tir, ffermwyr, rheolwyr coetir, BBaChau ac awdurdodau lleol.

4.8 Buddsoddwyd y Gronfa Natur, a oedd yn para blwyddyn, ar draws saith Ardal Weithredu ddaearyddol Byd Natur ac roedd yn canolbwyntio ar gamau gweithredu ar draws pum maes blaenoriaeth:

- gwella dalgylchoedd afonydd
- ecosystemau morol
- amgylchedd lleol
- gwireddu potensial ucheldiroedd
- annog arloesi.

4.9 Cefnogwyd cyfanswm o 20 o brosiectau drwy'r Gronfa Natur. Mewn sawl ffordd adeiladodd yr SMS ar y gwersi a ddysgwyd o'r Gronfa Natur, yn enwedig yr heriau o ran creu partneriaethau effeithiol.

**Fframwaith Deddfwriaethol a Pholisi**

*Cynllun pum mlynedd Llywodraeth Cymru, Symud Cymru Ymlaen*

4.10 Yn 2016 cyhoeddodd y Prif Weinidog ar y pryd flaenoriaethau ei Lywodraeth[7]. Yn berthnasol i'r SMS roedd:

- **Cymunedau gwledig llwyddiannus, cynaliadwy**: gweithio gyda phartneriaid i sicrhau dyfodol llewyrchus i amaethyddiaeth yng Nghymru
- **Amgylchedd:** symud ymlaen tuag at ein nod o weld gostyngiad o 80 y cant o leiaf yn ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr erbyn 2050, buddsoddi yn y sgiliau angenrheidiol ar gyfer yr economi werdd, hyrwyddo twf gwyrdd ac arloesi, a pharhau i fuddsoddi mewn gwaith amddiffyn rhag llifogydd a chymryd camau pellach i reoli dŵr yn well yn ein hamgylchedd.

*Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016*

4.11 Mae'r SMS yn rhan o fframwaith deddfwriaethol ehangach, ac yn arbennig gofynion **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016**[8]**.** Mae Rhan 1 o'r Ddeddf yn nodi'r fframwaith newydd ar gyfer Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR) sy'n cynnwys:

- **diffiniad o SMNR**: Mae'r SMNR yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy ddefnyddio dull ecosystem o reoli adnoddau naturiol. Mae ecosystemau, sy'n cynnwys planhigion, anifeiliaid, aer, dŵr, mwynau a phriddoedd a'r rhyngweithio sy'n digwydd rhyngddynt, yn darparu aer glân, dŵr, bwyd, tanwydd, a chyfleoedd i fwynhau'r awyr agored a chefnogi ein llesiant

[7] Llywodraeth Cymru (2016) Symud Cymru Ymlaen
[8] Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

- **Polisi Adnoddau Naturiol Cymru[9]:** Mae'r Polisi Adnoddau Naturiol yn nodi pedwar prif gyfle:
    - cynorthwyo cymunedau llwyddiannus, cynaliadwy
    - hyrwyddo twf gwyrdd ac arloesi i greu swyddi cynaliadwy
    - cefnogi economi sy'n defnyddio adnoddau yn fwy effeithlon
    - cynnal cymunedau iach, gweithgar a chysylltiedig.

Mae'r Cynllun Adnoddau Naturiol hefyd yn nodi tair blaenoriaeth genedlaethol i fynd i'r afael â'r heriau a gwireddu'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig ag adnoddau naturiol:

- dod o hyd i atebion seiliedig ar natur: mae atebion sy'n seiliedig ar natur yn ymwneud â defnyddio natur a phrosesau naturiol i fynd i'r afael â heriau mawr, megis llifogydd, llygredd aer neu faterion iechyd sy'n gysylltiedig ag anweithgarwch corfforol. Maent yn cynnwys ystod eang o ddulliau i ddatblygu cadernid ecosystemau a gwella bioamrywiaeth; gwella seilwaith, tir a dulliau rheoli dŵr; cefnogi addasu a lliniaru newid yn yr hinsawdd a chefnogi ein hiechyd a'n llesiant. Mae defnyddio atebion bioamrywiol sy'n seiliedig ar natur hefyd yn helpu i ddatblygu gwytnwch ein hadnoddau naturiol a'n hecosystemau - atebion lle mae pawb ar ei ennill
- cynyddu ynni adnewyddadwy a dulliau o ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon: gall lleihau'r pwysau ar adnoddau naturiol Cymru hefyd ddarparu swyddi newydd a chyfleoedd marchnata. Mae rheoli adnoddau naturiol yn ddoeth yn alluogwr allweddol sy'n ysgogi cystadleurwydd i fusnesau llwyddiannus. Ar hyn o bryd rydym yn defnyddio mwy o adnoddau naturiol nag y gellir eu hailgyflenwi, gan greu risgiau heb eu rheoli mewn cadwyni cyflenwi sy'n bygwth sefydlogrwydd busnesau. Mewn economi gylchol caiff gwerth cynhyrchion a deunyddiau ei gynnal cyhyd ag y bo modd

[9] Llywodraeth Cymru (2017) Polisi Adnoddau Naturiol

    - mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar le: mae hyn yn ymwneud â gweithio gyda chymunedau i bennu blaenoriaethau a chyfleoedd lleol ar gyfer adnoddau naturiol, gan sicrhau bod pobl leol yn elwa'n llawn. Bwriad Datganiadau Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru yw cefnogi dulliau gweithredu a gwaith sy'n seiliedig ar le.

- **set allweddol o egwyddorion sy'n gysylltiedig ag SMNR**:
    - rheoli mewn modd ymaddasol, drwy gynllunio, monitro, adolygu a, phan fo hynny'n briodol, newid gweithredoedd
    - ystyried y raddfa ofodol briodol ar gyfer gweithredu
    - hyrwyddo cydweithio a chydweithredu, a chyfranogi ynddynt
    - gwneud trefniadau priodol i'r cyhoedd gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau
    - ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol a chasglu tystiolaeth mewn perthynas â materion y ceir ansicrwydd yn eu cylch
    - ystyried manteision a gwerth cynhenid adnoddau naturiol ac ecosystemau
    - ystyried effeithiau tymor byr, tymor canolig a hirdymor gweithredoedd
    - cymryd camau i atal niwed arwyddocaol i ecosystemau
    - ystyried cadernid ecosystemau ac yn benodol, yr amrywiaeth rhwng ecosystemau ac oddi fewn iddynt; y cysylltiadau rhwng ecosystemau ac oddi fewn iddynt; graddfa ecosystemau; cyflwr ecosystemau a gallu ecosystemau i addasu.

- **Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol** Roedd hyn yn un o ofynion Deddf yr Amgylchedd a chyhoeddwyd yr adroddiad gan CNC yn 2016. Mae'n darparu trosolwg manwl o adnoddau naturiol Cymru, gan gynnwys anifeiliaid, planhigion ac organebau eraill, ansawdd aer, adnoddau dŵr, priddoedd a mwynau ynghyd â mynyddoedd,

glaswelltiroedd, coetiroedd ac amgylcheddau trefol, dŵr croyw a morol. Disgwylir i ail adroddiad gael ei gyhoeddi yn 2020[10].

- **Datganiadau Ardal**: bwriad y rhain oedd nodi'r camau sy'n ofynnol i gyflawni'r Polisi Adnoddau Naturiol ar lefel ranbarthol. Cyhoeddwyd y Datganiadau Ardal gan CNC yn 2020[11] ac maent yn darparu trosolwg cychwynnol o flaenoriaethau amgylcheddol rhanbarthol.

4.12 Cyflwynodd Deddf yr Amgylchedd hefyd ddyletswydd ychwanegol yn ymwneud â bioamrywiaeth a chadernid ecosystemau (dyletswydd adran 6, neu a6) sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus 'geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau'[12]. Er mwyn cydymffurfio â dyletswydd a6 rhaid i awdurdodau cyhoeddus ymgorffori'r ystyriaeth o fioamrywiaeth ac ecosystemau ar gam cynnar ac yn y broses o gynllunio busnes, gan gynnwys mewn unrhyw bolisïau, cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau, yn ogystal â'u gweithgareddau o ddydd i ddydd. O dan adran 6(7) o'r Ddeddf rhaid i bob awdurdod cyhoeddus, cyn diwedd 2019 a chyn diwedd pob trydedd flwyddyn ar ôl 2019, gyhoeddi adroddiad ar yr hyn y maent wedi'i wneud i gydymffurfio â dyletswydd a6. Mae gweithredu'r SMS yn dangos ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflawni'r ddyletswydd hon a'r angen i fynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth.

*Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*

4.13 Rhaid i'r SMS hefyd fodloni gofynion **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (Deddf Llesiant) 2015**[13] sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r sector cyhoeddus 'wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy', h.y. sicrhau 'bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau’r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'[14].

---

[10] Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol 2016
[11] Cyfoeth Naturiol Cymru / Datganiadau Ardal (naturalresources.wales)
[12] Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (section 6)
[13] Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 (contents)
[14] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 - Yr hanfodion (t3; t7)

4.14 Yn y Ddeddf mae saith nod a phum ffordd o weithio y mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus geisio cadw atynt. Y saith Nod Llesiant, y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus weithio arnynt, yw:

- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru Iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

4.15 Mae'r pum ffordd o weithio yn arbennig o berthnasol i'r gwerthusiad hwn o'r SMS, gan eu bod yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried:

- anghenion tymor hir
- dulliau ataliol
- integreiddio rhwng cyrff cyhoeddus
- cydweithio a rhannu adnoddau
- cynnwys pobl.

4.16 Mae'r SMS yn gynllun a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru sy'n rhoi egwyddorion SMNR wrth ei wraidd. Dylai hyn, drwy ddiffiniad, gyfateb yn uniongyrchol â chanlyniadau sy'n cyflawni nodau'r Ddeddf Llesiant ac yn cyfrannu at reoli adnoddau naturiol, er budd cenedlaethau'r dyfodol.

**Datblygiadau eraill**

4.17 Mae'n werth tynnu sylw at y syniadaeth sy'n dod i'r amlwg ynghylch Taliadau am Wasanaethau Ecosystem (TWE), sy'n cael eu hystyried gan Lywodraeth Cymru a CNC. Bydd rhai o brosiectau'r SMS yn cyfrannu at ddeall y ffordd orau o ddatblygu dulliau TWE sy'n rhan o reolaeth amgylcheddol. Bydd hyn yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun cyllido amaethyddiaeth a datblygu gwledig ar ôl Brexit.

4.18 Mae'n ofynnol i'r SMS weithredu o fewn hinsawdd gynyddol ansicr yng ngoleuni datblygiadau diweddar yn ymwneud â'r brigiad o achosion o'r coronafeirws Covid-19 yn ogystal â datblygiadau eraill, yn benodol effaith debygol Brexit ar amaethyddiaeth, yn enwedig ffermio ar yr ucheldir. Profir hyblygrwydd prosiectau SMS a'u gallu i reoli mewn ffordd ymaddasol wrth i Gymru adfer o'r argyfwng.

**Sylwadau i gloi**

4.19 Mae'r SMS yn amlwg yn gonglfaen pwysig yn y broses o ddatblygu dull Llywodraeth Cymru o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae'n adeiladu ar Gronfa Natur 2015 Llywodraeth Cymru ond mae bellach yn cyfateb yn agosach ag amcanion yr SMNR, y blaenoriaethau a nodir ym Mholisi Adnoddau Naturiol Cymru a gofynion deddfwriaethol eraill.

4.20 Dyluniwyd yr SMS yn benodol i ymgorffori'r ffyrdd newydd o weithio sydd wedi'u cynnwys yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'n anelu'n uniongyrchol at fynd i'r afael â'r cyfyngiadau a ddeilliodd o gynlluniau amaeth-amgylchedd blaenorol ac ystyried cyllid a gweithredu ar lefel tirwedd neu ddalgylch i lawr at lefel fferm ac o'r herwydd bydd diddordeb mawr yng nghanlyniadau'r amrywiol brosiectau y mae wedi'u hariannu. Dyluniwyd yr SMS hefyd i adfywio gwaith partneriaethau sectoraidd presennol a phartneriaethau presennol sy'n seiliedig ar le, gan roi cyfle iddynt ehangu eu gwaith a chryfhau trefniadau gweithio mewn partneriaeth gydweithredol.

# 5. Model Rhesymeg y Ddamcaniaeth Newid ar gyfer yr SMS

5.1 Mae'r bennod hon yn ystyried y materion yr oedd llunwyr polisïau yn disgwyl i'r rhaglen fynd i'r afael â nhw yn ogystal â'r allbynnau a'r canlyniadau y gobeithiwyd y byddai'r SMS yn eu cyflawni. Mae'n archwilio'r adnoddau a'r mewnbynnau a roddwyd ar waith ar gyfer y rhaglen a sut y disgwyliwyd i'r rhain gyflawni canlyniadau tymor byr a thymor hir. Mae'r bennod hon yn cyflwyno model rhesymeg y ddamcaniaeth newid ar gyfer yr SMS, sy'n seiliedig ar yr adolygiad o ddogfennau a thystiolaeth o gyfweliadau â rhanddeiliaid. Mae'r dull Damcaniaeth Newid hefyd yn archwilio'r rhagdybiaethau sy'n sail i'r rhaglen a ffactorau allanol a allai fod wedi effeithio ar ei pherfformiad.

**Damcaniaeth Newid**

5.2 Offeryn methodolegol yw Damcaniaeth Newid a ddatblygir ar ddechrau gwerthusiad i ddarganfod beth y mae rhanddeiliaid yn ei gredu yw pwrpas rhaglen, a sut y maent yn credu y bydd y rhaglen yn cyflawni ei chanlyniadau. Gall model rhesymeg y Ddamcaniaeth Newid sy'n deillio o hynny ddangos y canlyniadau a ddisgwylir o'r rhaglen, a thrwy hynny alluogi rywun i fyfyrio ynghylch a yw'r hyn a gyflawnir yn gweithio yn unol â'r bwriad.

5.3 Cyn amlinellu model rhesymeg y ddamcaniaeth newid mae'n bwysig ystyried yr ysgogiadau ar gyfer newid y disgwylir iddynt arwain at y canlyniadau disgwyliedig. Y rhagdybiaethau allweddol sy'n sail i'r ddamcaniaeth newid ar gyfer y model rhesymeg SMS yw:

- byddai diddordeb mawr gan grwpiau o dirfeddianwyr a sefydliadau mewn gwneud cais am gyllid a allai gefnogi cyflawni prosiectau amgylcheddol cydweithredol. Byddai proses ymgeisio syml a hawdd ei deall yn sicrhau y byddai grwpiau cymunedol, tirfeddianwyr a ffermwyr unigol yn cael eu hannog i wneud cais am gyllid. Byddai mabwysiadu proses ymgeisio gystadleuol a gefnogir gan broses asesu drylwyr yn arwain at ddewis y cynigion cryfaf i'w cyflawni, a thrwy hynny gynyddu effaith bosibl y cynllun i'r eithaf.

- yn y pen draw, bydd ariannu nifer fawr o brosiectau gwahanol, cymharol fach sydd â'r nod o wneud gwelliannau amgylcheddol, yn arwain at well ecosystemau ac yn helpu i atal dirywiad bioamrywiaeth, a thrwy hynny gyfrannu at amrywiol bolisïau ac amcanion Llywodraeth Cymru. Er y bydd yn amhosibl i brosiectau ddangos tystiolaeth o'r effaith hon yn ystod y cyfnod y cânt eu hariannu, tybir bod y newidiadau a'r gweithgareddau a roddir ar waith gan brosiectau unigol yn effeithiol o ran cyfrannu'n gadarnhaol at eu hadnoddau naturiol a'u hecosystemau
- mae cynllun cyllido grant hyblyg, llai rhagnodol (h.y. y gellid ei ddisgrifio fel un sy'n mabwysiadu dull gweithredu o'r gwaelod i fyny yn hytrach nag o'r brig i lawr) sy'n caniatáu i bartneriaethau lleol nodi eu blaenoriaethau a'u datrysiadau eu hunain yn fwy tebygol o sicrhau canlyniadau cynaliadwy.
- un o amodau'r cyllid SMS yw ei bod yn ofynnol i brosiectau ymgysylltu'n ystyrlon ag aelodau o'r gymuned a sefydliadau lleol i nodi a gweithredu cyfleoedd ychwanegol a allai ddeillio o'r ymyrraeth amgylcheddol. Dyluniwyd yr SMS i annog prosiectau a ariennir i nodi a gweithredu cyfleoedd cymdeithasol, llesiant ac economaidd. Mae'n ofynnol i brosiectau nodi dangosyddion priodol sy'n adlewyrchu'r gwaith hwn, ac adrodd ar y dangosyddion hynny, gan gynnwys dangosyddion fel defnydd cymunedol o asedau, aelodau o'r gymuned yn cael eu hyfforddi gan y prosiect ac aelodau o'r gymuned yn gwirfoddoli gyda'r prosiect
- bydd ymyriadau sy'n cael eu hariannu i gofleidio a mabwysiadu'r naw egwyddor SMNR yn fwy llwyddiannus o ran cyfrannu at bolisïau ac amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer yr amgylchedd, adnoddau naturiol ac ecosystemau. Drwy fabwysiadu meini prawf cyllido sy'n asesu i ba raddau y gall ceisiadau ddangos eu bod yn cadw at egwyddorion SMNR, mae'r SMS wedi'i strwythuro i sicrhau bod prosiectau a ariennir yn mabwysiadu ffyrdd cynaliadwy o reoli adnoddau naturiol.

- mae ymyriadau sy'n mabwysiadu dull ecosystem gyfannol yn fwy effeithiol o ran lliniaru dirywiad cronig mewn bioamrywiaeth na dull penodol yn ymwneud â rhywogaeth neu gynefin. Mae'n ofynnol i ymgeiswyr ddangos y byddent yn mabwysiadu agwedd gyfannol tuag at eu prosiect fel rhan o broses ymgeisio'r SMS
- mae ariannu ymyriadau tirwedd cydweithredol, yn seiliedig ar le neu ddalgylch yn cynhyrchu mwy o fanteision a chanlyniadau na phe bai partneriaid neu dirfeddianwyr yn cael eu hariannu'n unigol, ar lefel fferm sengl dyweder. Mae'r SMS yn seiliedig ar y rhagdybiaeth y bydd cyllido dull partneriaeth cydgysylltiedig yn sicrhau ystod ehangach o ganlyniadau ar raddfa fwy na phe bai aelodau'n gweithredu ar eu pen eu hunain ac roedd hwn yn faen prawf a aseswyd yn ystod y broses ymgeisio.
- mae sicrhau cyllid ar gael i bartneriaethau sefydliadau a pherchnogion tir yn rhoi cyfle i bartneriaethau newydd ddatblygu ac i'r rhai presennol ehangu a chryfhau dros y cyfnod cyflawni. Rhagdybiaeth sylfaenol yw bod partneriaethau, drwy wneud hyn, mewn gwell sefyllfa i barhau ar ôl i'r cyllid ddod i ben ac i sicrhau ffynonellau cymorth eraill yn y dyfodol. Yn unol â hyn mae'r rhagdybiaeth bod gweithio mewn partneriaeth yn fwy tebygol o gael ei gynnal yn yr hirdymor, a thrwy hynny sicrhau bod canlyniadau'r SMS hefyd yn cael eu cynnal.

5.4 Mae Ffigur 5.1 isod yn nodi'r model rhesymeg ar gyfer yr SMS i ddangos y Ddamcaniaeth Newid trosfwaol a'r hyn y mae disgwyl iddi ei gyflawni. Mae'n nodi'r canlyniadau y bwriadwyd eu cyflawni a'r gweithgareddau a fyddai'n cynhyrchu'r canlyniadau hynny. Mae hefyd yn nodi'r mewnbynnau y bwriadwyd eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau newid.

## Ffigur 5.1: Model Rhesymeg Damcaniaeth Newid ar gyfer yr SMS

| *Mewnbwn* | *Nodau* | *Gweithgareddau* | *Allbynnau* | *Canlyniadau tymor byr-canolig* | *Canlyniadau tymor hir* |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyllid y Cynllun Datblygu Gwledig a LIC (£ 30m)<br><br>Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)<br><br>Cyllid ar gyfer hyd at 60 o brosiectau dros gyfnod o 3 blynedd<br><br>Tîm gweithredu SMS LIC<br><br>Tîm Taliadau Gwledig LIC | Hybu lefelau bioamrywiaeth Cymru<br><br>Profi mecanwaith cyllido cydweithredol a thirwedd arloesol, i lywio cynlluniau cyllido'r dyfodol<br><br>Cyflawni cynllun cyllido grant cyfannol a hyblyg, sy'n diwallu anghenion lleol<br><br>Ariannu prosiectau cydweithredol ar raddfa tirwedd i wella adnoddau naturiol mewn ffordd sy'n sicrhau buddion i fusnesau fferm a gwledig a chymunedau gwledig | Datblygu canllawiau cynllun a cheisiadau grant<br><br>Gwasanaeth cymorth annibynnol i ymgeiswyr<br><br>Pum rownd cyllido grant cystadleuol cyfnodol, i gynnwys Datganiad o Ddiddordeb a cham ymgeisio llawn<br><br>Asesu a chymeradwyo Datganiad o Ddiddordeb sydd â'r sgôr uchaf<br><br>Grŵp ymarferwyr SMS<br><br>Monitro ac adrodd yn rheolaidd | Nifer y Datganiadau o Ddiddordeb a gyflwynwyd ar draws pum rownd ariannu<br><br>Nifer yr ymgeiswyr Datganiad o Ddiddordeb a ddewiswyd i symud ymlaen i'r cais llawn<br><br>Nifer y prosiectau a ariannwyd<br><br>Amrywiaeth sectoraidd a daearyddol o brosiectau a ariennir<br><br>Gwerth cyllido grant wedi'i ymrwymo<br><br>Prosiectau a ariennir yn cyflawni yn erbyn eu DPA | Prosiectau a ariennir yn cael eu harwain gan ystod eang o sefydliadau a grwpiau arweiniol<br><br>Prosiectau wedi'u hariannu sy'n mabwysiadu egwyddorion SMNR<br><br>Partneriaethau prosiect yn cryfhau ac yn ehangu dros y cyfnod cyflawni<br><br>Prosiectau a ariennir sy'n adrodd ar lefelau bioamrywiaeth gwell<br><br>Prosiectau a ariennir yn adrodd ar fuddion cymdeithasol ac economaidd<br><br>Arfer SMS effeithiol wedi'i nodi a'i ddangos trwy werthuso cadarn | Gwelliannau ar lefel bioamrywiaeth yn cael eu cynnal ar ôl cyllid<br><br>Cydweithrediad partneriaeth prosiect yn cael ei gynnal ar ôl y cyfnod cyllido<br><br>Partneriaethau prosiect sy'n sicrhau ffynonellau cyllid eraill ar ôl SMS a / neu'n dod yn hunangynhaliol<br><br>Arfer SMS effeithiol yn llywio dulliau cyllido yn y dyfodol |

**_Allanolion_**

- *Brexit yn creu ansicrwydd ar gyfer prosiectau a ariennir ac yn arwain at lai o adnoddau staff LIC*
- *Covid-19 yn codi materion mewn perthynas â chronfeydd cynllun heb eu hymrwymo ac effaith bosibl ar waith sylfaen prosiect, gan arwain at oedi*

# 6. Dylunio a datblygu'r SMS

6.1 Mae'r bennod hon yn cyflwyno'r adborth a gasglwyd gan swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig â dylunio a datblygu'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy (SMS), ar sut y bwriadwyd i'r cynllun weithredu a'r canlyniadau a ddisgwyliwyd.

**Sut y bwriadwyd i'r SMS weithredu**

*Ysgogiadau i greu'r SMS a materion allweddol y bwriadwyd i'r cynllun fynd i'r afael â nhw*

6.2 Roedd llunwyr polisïau yn cytuno'n unfrydol bod angen sefydlu mecanwaith cyllido arloesol a fyddai'n annog ffordd gynaliadwy, newydd o reoli adnoddau naturiol. Un o egwyddorion sylfaenol y dull gweithredu hwn oedd **cydweithio** rhwng unigolion, grwpiau a sefydliadau. Un rhagdybiaeth allweddol a wnaed wrth ddylunio'r SMS oedd y byddai dull cydweithredol rhwng sefydliadau, grwpiau a pherchnogion tir yn arwain at fwy o enillion a chanlyniadau na phe bai'r partneriaid hyn yn gweithredu ar wahân. Yr ail ragdybiaeth allweddol oedd y byddai gweithgareddau a ariannwyd yn y modd hwn yn fwy tebygol o gael eu cynnal yn yr hirdymor, ar ôl i'r cyllid ddod i ben. Roedd llunwyr polisïau'n cydnabod y byddai angen tystiolaeth werthuso gadarn i ddangos bod y dull arloesol hwn wedi ysgogi ffordd gynaliadwy o weithio cyn y gellid ei ddefnyddio fel sail i ddulliau cyllido yn y dyfodol.

6.3 Problem sylfaenol y cynlluniwyd yr SMS i'w datrys oedd lliniaru dirywiad cronig mewn bioamrywiaeth ledled Cymru, fel y gwelwyd yn yr Adroddiad Sefyllfa Natur a gyhoeddwyd yn 2013. Yn hyn o beth, cynlluniwyd yr SMS i gefnogi prosiectau a fyddai'n mabwysiadu dull gweithredu ehangach a mwy **cyfannol yn ymwneud â'r ecosystem** yn hytrach na'r rhai a oedd yn hanesyddol yn cefnogi gwarchod rhywogaethau neu gynefinoedd penodol. Pwysleisiodd llunwyr polisïau pa mor bwysig ydoedd i'r SMS gefnogi ymyriadau mwy o faint ar **raddfa'r dirwedd** a'r gwerth ychwanegol parhaus a allai ddeillio o'r dull hwn.

6.4 Cyfeiriodd llunwyr polisïau at y datblygiadau deddfwriaethol allweddol a ganlyn a pholisi adnoddau naturiol Llywodraeth Cymru fel y prif ysgogwyr a lywiodd ddyluniad yr SMS:

- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016: roedd disgwyl y byddai'r SMS yn helpu i gyfrannu at nodau ac uchelgeisiau'r Ddeddf hon ac y byddai'n ffurfio dull cyflawni allweddol er mwyn bodloni naw egwyddor yr SMNR
- Polisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru: roedd disgwyl i'r cynllun helpu i gyfrannu at gyflawni'r tair blaenoriaeth a nodir yn y ddogfen hon
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: amlygodd llunwyr polisïau y pum ffordd o weithio fel rhai perthnasol a defnyddiol wrth annog dull newydd, fel yr un sy'n cael ei brofi drwy'r SMS.

6.5 Roedd llunwyr polisïau hefyd yn cydnabod, er bod yr SMS wedi'i gynllunio i helpu i gyflawni amcanion polisi allweddol Llywodraeth Cymru, ei fod hefyd wedi'i deilwra i fodloni amcanion a blaenoriaethau fframwaith y Cynllun Datblygu Gwledig er mwyn ariannu'r broses gyflawni. Er bod y Cynllun Datblygu Gwledig wedi canolbwyntio gryn dipyn ar gefnogi adnoddau naturiol a lliniaru newid yn yr hinsawdd, roedd angen gweithgareddau wedi'u hariannu arno hefyd er mwyn cyflawni amcanion economaidd-gymdeithasol, y cynlluniwyd yr SMS i'w hystyried.

6.6 Roedd llunwyr polisïau hefyd yn cydnabod y bwriadwyd defnyddio Datganiadau Ardal i lywio'r broses o gyflwyno'r SMS pan gawsant eu cyhoeddi yn 2020. Er bod disgwyl i Ddatganiadau Ardal ddiffinio blaenoriaethau lleol mewn modd defnyddiol, roedd yn rhaid i brosiectau ddibynnu ar eu gwybodaeth eu hunain i ddiffinio materion lleol cyn eu cyhoeddi.

*Amcanion strategol allweddol*

6.7 Nododd llunwyr polisïau ddau amcan cyffredinol ar gyfer yr SMS, a grynhowyd gan un cyfrannwr fel 'prosiect cydweithredol yn ymwneud â thirwedd er mwyn hybu bioamrywiaeth'.

6.8 Amcan clir a chyson a nodwyd gan lunwyr polisïau oedd mai bwriad yr SMS oedd ysgogi a chefnogi dull mwy cynaliadwy o reoli adnoddau naturiol i fynd i'r afael â'r dirywiad cronig mewn bioamrywiaeth. Nod yr SMS oedd mynd i'r afael â materion ehangach yn ymwneud ag ecosystemau, yr amgylchedd a newid yn yr hinsawdd drwy sefydlu dull integredig a chyfannol o reoli'r amgylchedd a'r dirwedd, sy'n gysylltiedig ag egwyddorion SMNR.

6.9 Yr ail amcan a nodwyd gan lunwyr polisïau oedd mai bwriad yr SMS oedd sefydlu dull arloesol a gwahanol o ariannu prosiectau i gyflawni eu hamcanion. Yn hyn o beth dadleuwyd bod y broses yr un mor bwysig, os nad yn bwysicach, na'r gwelliannau uniongyrchol i'r dirwedd a gyflawnwyd gan brosiectau, gan ei bod yn cynrychioli ffordd wahanol o weithio. Pwysleisiodd llunwyr polisïau bwysigrwydd sicrhau bod canllawiau'r cynllun a'r meini prawf cyllido yn rhoi pwyslais cyfartal ar 'sut' (yn ogystal â 'beth') gan y credwyd bod gan ddull gweithredu sy'n mabwysiadu egwyddorion yr SMNR well siawns o barhau ar ôl i'r cyllid ddod i ben. Disgrifiodd llunwyr polisïau yr SMS fel 'cyllid cychwynnol' i roi hwb i ffordd wahanol o reoli tir.

*Tystiolaeth o ddulliau a allai fod yn effeithiol / rhagdybiaethau a wnaed*

6.10 Bwriad yr SMS oedd adeiladu ar elfennau o ddulliau gweithredu llwyddiannus a fabwysiadwyd mewn cynlluniau amaeth-amgylchedd blaenorol gan ddefnyddio unrhyw wersi a ddysgwyd o'r darpariaethau hyn. Er gwaethaf hyn, cydnabuwyd gan lawer nad oedd fawr o dystiolaeth gadarn ar gael i ddangos y byddai'r dull cydweithredol arfaethedig yn gweithio, a bod angen tystiolaeth werthuso gadarn i fynd i'r afael â hyn.

6.11 Ystyriwyd bod cynlluniau grantiau gwledig presennol wedi mabwysiadu dull rhagnodol o ariannu ffermwyr a pherchnogion tir i wneud gwaith ar eu tir. Yn wahanol i'r SMS, roedd llunwyr polisïau yn pryderu nad oedd y cynlluniau hyn bob amser yn annog dulliau cynaliadwy tymor hwy. Mewn gwrthgyferbyniad â hyn, bwriadwyd i'r SMS fod yn hyblyg yn yr ystyr y byddai'n rhoi cyfle i ffermwyr, tirfeddianwyr a grwpiau a sefydliadau eraill ddatblygu a mabwysiadu eu syniadau prosiect eu hunain, yn aml gan adeiladu ar gytundebau fferm a'u defnyddio, a gweithio dros dirwedd neu

ddalgylch er mwyn mynd i'r afael ag anghenion ac amgylchiadau lleol. Yn hyn o beth bwriad yr SMS oedd grymuso cymunedau gwledig a byddai angen mwy o ymddiriedaeth mewn sefydliadau cyflawni na'r trefniadau cyllido presennol.

6.12 Mynegwyd barn gymysg ynghylch i ba raddau yr oedd y cynllun Glastir wedi bod yn sail i'r SMS. Dadleuodd rhai fod Glastir wedi bod yn rhagflaenydd pwysig i'r SMS, megis prosiectau a oedd yn gweithio gyda phorwyr a chominwyr mewn dull cydweithredol, drwy sefydlu sefydliadau ffurfiol, i ddarparu datrysiadau tirwedd. Awgrymodd eraill fod y dull y bwriadwyd i'r SMS ei fabwysiadu mewn 'gwrthgyferbyniad llwyr' â Glastir, y credwyd ei fod yn mabwysiadu dull cyllido mwy rhagnodol. Er y gallai fod gan Glastir amcanion tebyg, roedd llunwyr polisïau'n cytuno nad oedd wedi cyflawni'r manteision amgylcheddol a ddisgwyliwyd oherwydd ei ffocws ar unedau fferm unigol a'i ddull rhagnodol o gyllido. Nododd llunwyr polisïau yn gyson fod dull gweithredu'r SMS yn seiliedig ar y rhagdybiaeth y byddai prosiectau a ddyluniwyd yn lleol yn fwy tebygol o gael eu cynnal yn yr hirdymor. Nod yr SMS hefyd oedd 'llenwi'r bylchau' a chysylltu ardaloedd lle roedd partneriaethau wedi nodi angen a lle y gellid cyflawni canlyniadau amgylcheddol ar draws ardal ehangach, wedi'i thargedu. Byddai 'calon ac enaid y rhai sy'n gweithio ar y tir' wrth wraidd prosiectau sy'n cael eu harwain gan dirfeddianwyr, ffermwyr a choedwigwyr.

6.13 Nododd rhai llunwyr polisïau fod yr SMS yn defnyddio elfennau o arfer da a fabwysiadwyd yn y cynllun peilot a'i rhagflaenodd, sef y Gronfa Natur, ond tynnwyd sylw at wahaniaethau allweddol o ran graddfa, amserlen a strwythur gyda'r gronfa hon. Adroddwyd nad oedd y Gronfa Natur, a ariannwyd drwy gronfeydd domestig Llywodraeth Cymru, wedi profi'r un lefel o gyfyngiadau cyllido â'r SMS. Teimlai llunwyr polisïau fod y Gronfa Natur wedi dangos y gellid sicrhau mwy o ychwanegedd drwy fabwysiadu dull cydweithredol yn seiliedig ar le, o'i gymharu â pherchnogion tir yn gweithio ar eu pen eu hunain.

6.14 Nododd llunwyr polisïau eraill fod Mesur 16 wedi'i ddylunio i fod yn ddull tebyg i'r un a fabwysiadwyd ar draws y cynllun LEADER, yn yr ystyr ei fod

wedi rhoi pwyslais ar gydweithio ar draws cymunedau. Fodd bynnag, roedd Mesur 16 hefyd ar gael i ymgeiswyr nad oeddent yn awdurdodau lleol.

*Yr hyn y bwriadwyd i'r SMS ei gefnogi*

6.15 Rhagwelwyd yn gyffredinol y byddai ystod amrywiol o brosiectau yn cael eu cyflwyno gan ymgeiswyr, o ystyried hyblygrwydd canllawiau'r cynllun mewn perthynas â'r ystod eang o weithgareddau y gallai eu hariannu. Y gobaith oedd y byddai'r prosiectau hyn yn cynnig trawstoriad daearyddol da a chwmpas sectoraidd. Gobeithiwyd hefyd y byddai ystod eang o bartneriaid 'arweiniol' yn cymryd rhan gan gynnwys Sefydliadau Anllywodraethol, grwpiau ffermwyr, grwpiau gwirfoddol neu gymunedol yn ogystal â chymysgedd o'r partneriaid hyn. Roedd rhai yn gobeithio y byddai'r prosiectau a ariannwyd yn cynnwys nifer fach o 'brosiectau arloesol' a fyddai'n drawsnewidiol ac yn esiampl i eraill. Ymgysylltodd llunwyr polisïau yn sylweddol â rhanddeiliaid a'u nod oedd creu cynllun a oedd yn gweithredu proses ymgeisio syml a hawdd ei deall, er mwyn i dirfeddianwyr a ffermwyr unigol deimlo y gallent wneud cais am gyllid.

6.16 Un o'r pryderon allweddol cychwynnol wrth ddylunio'r cynllun oedd sut i sicrhau y byddai ystod eang o sefydliadau yn cyflwyno ceisiadau am gyllid, gan osgoi cynllun a fyddai'n llawn o'r 'un hen wynebau fel y cyrff anllywodraethol' sy'n tueddu i fod â mwy o gapasiti i ysgrifennu cynigion a mwy o arbenigedd, ac yr ystyriwyd bod ganddynt gynigion ar eu hanner yn barod i'w cyflwyno. Er mwyn mynd i'r afael â'r pryder hwn, pwysleisiodd llunwyr polisïau bwysigrwydd datblygu canllawiau ar gyfer y cynllun a fyddai'n rhoi pwys ar yr angen i ymgeiswyr ddangos eu bod yn cydweithio'n ystyrlon ag ystod ehangach o sefydliadau ac unigolion a chael eu hymrwymiad, ac nid dim ond ymgysylltu'n ysgafn â hwy. Roedd canllawiau'r cynllun hefyd yn gofyn i brosiectau ddangos sut y byddent yn ymateb i gyfleoedd a heriau lleol er mwyn sicrhau eu bod yn cysylltu â chynlluniau gweithredu lleol awdurdodau lleol ac unrhyw ddatblygiadau lleol dan arweiniad y gymuned yn yr ardal, er enghraifft.

**Canlyniadau ac effeithiau**

*Sut olwg fyddai ar lwyddiant?*

6.17 Un o ddangosyddion llwyddiant cychwynnol yr SMS, a godwyd gan ambell luniwr polisïau, oedd lefel iach o ddiddordeb yn y cynllun ac ymwybyddiaeth ohono ar draws ystod eang o ddarpar ymgeiswyr. Roedd llunwyr polisïau'n credu bod hyn eisoes wedi digwydd, o ystyried y nifer sylweddol o Ddatganiadau o Ddiddordeb a gyflwynwyd ym mhob un o'r cyfnodau cyllido hyd yma. Byddai llwyddiant yn golygu bod amrywiaeth eang o brosiectau yn cael eu cyflwyno gan ystod eang o wahanol grwpiau, ac nid dim ond sefydliadau mwy a allai ystyried yr SMS yn ffordd o gyflawni eu hamcanion strategol. Awgrymodd llunwyr polisïau fod tueddiad i gynigion a ddaeth i law yn ystod y cylchoedd cyllido cychwynnol fod yn rhai gan sefydliadau mwy yn bennaf, yn hytrach na mentrau a arweinir gan y gymuned, ond aethpwyd i'r afael â hyn dros amser.

6.18 Ystyriwyd mai un o ddangosyddion eraill llwyddiant cychwynnol oedd bod ceisiadau o ansawdd uchel a oedd â'r potensial i gyflawni amcanion y cynllun yn cael eu cyflwyno. Awgrymodd llunwyr polisïau fod ansawdd Datganiadau o Ddiddordeb wedi gwella ym mhob cylch cyllido, yn anad dim oherwydd bod ymgeiswyr wedi ailgyflwyno ceisiadau yn sgil adborth gan Lywodraeth Cymru ar ymdrechion aflwyddiannus, ond hefyd oherwydd bod y ddealltwriaeth ehangach o'r hyn yr oedd y cynllun yn ceisio ei gyflawni wedi gwella dros amser oherwydd ymdrechion cyfathrebu Llywodraeth Cymru. Y canlyniad oedd y byddai'r Datganiadau o Ddiddordeb a oedd yn bodloni meini prawf y cynllun orau yn cael eu cymeradwyo i symud ymlaen i'r cam cais llawn.

6.19 Roedd dealltwriaeth gyffredin ymysg llunwyr polisïau y byddai prosiectau a ariannwyd drwy'r SMS yn cyflawni gwelliannau ac allbynnau'n ymwneud â thirwedd a'r amgylchedd. Cydnabuwyd yn gyffredinol y byddai'n gymharol syml i'r cynllun adrodd ar y gweithgareddau hyn, ond y gallai fod yn heriol cydgrynhoi allbynnau gan y byddent yn cael eu pennu a'u diffinio gan brosiectau unigol. Ystyriwyd hefyd ei bod yn hanfodol bod prosiectau a ariannwyd yn ymgorffori egwyddorion SMNR yn llawn yn eu ffordd o weithio

a bod graddfa'r newid yn digwydd ar lefel y dirwedd. At hynny, roedd llunwyr polisïau hefyd yn tybio y byddai atebion o'r gwaelod i fyny a ddatblygwyd gan brosiectau unigol yn fwy tebygol o fynd i'r afael ag anghenion lleol a fyddai, yn eu tro, yn fwy tebygol o arwain at well manteision lleol.

6.20 Yn ogystal, roedd llunwyr polisïau yn disgwyl i'r SMS gyflawni'r allbynnau hynny a oedd yn ddangosyddion a ariannwyd gan y Rhaglen Datblygu Gwledig megis gwariant rhaglenni a nifer y prosiectau a gefnogwyd.

6.21 Roedd gan lunwyr polisïau ddisgwyliadau realistig o ran y canlyniadau'n ymwneud â'r ecosystem a'r amgylchedd y gallai'r SMS eu cyflawni yn ystod cyfnod y cynllun ac roeddent yn cydnabod bod angen cyfnod paratoi hwy ar gyfer llawer o ganlyniadau a bod angen eu cynnal ar ôl i'r cyllid ddod i ben. Er enghraifft, er y gallai prosiect ddangos bod nifer yr adar wedi cynyddu mewn ardal benodol erbyn diwedd cyfnod cyllido'r prosiect, byddai angen cynnal y newid hwn dros gyfnod hwy i ddangos llwyddiant parhaus. Er gwaethaf hyn, un o ragdybiaethau sylfaenol yr SMS yw y bydd gwelliannau i adnoddau naturiol a gyflawnir gan brosiectau a ariannwyd, ar yr amod eu bod yn cael eu cynnal wedi hynny, yn arwain at well amodau ecosystem ac amgylcheddol.

6.22 Pwysleisiodd llunwyr polisïau bwysigrwydd canlyniadau cymdeithasol, llesiant ac economaidd ar gyfer yr SMS o ystyried y meini prawf sy'n nodi y dylai prosiectau a ariennir ddangos eu bod yn ymgysylltu â chymunedau, defnyddwyr ac economïau lleol. Disgwyliwyd y byddai ymgynghori a chydweithio ystyrlon gydag ystod ehangach o sefydliadau a grwpiau cymunedol yn helpu i sicrhau bod gweithgareddau prosiect yn diwallu anghenion lleol ac y byddai aelodau o'r gymuned yn dod yn rhan o brosiectau mewn amryw o ffyrdd. Ymhlith y llwyddiannau a ragwelir byddai gwell cydlyniant cymunedol, gwell ymdeimlad o lesiant, mwy o ddefnydd o gefn gwlad gan unigolion a grwpiau cymunedol, mwy o bobl yn manteisio ar hyfforddiant ynghyd ag ennill cymwysterau a meithrin sgiliau newydd. Roedd disgwyl i brosiectau SMS ddangos y cysylltiad rhwng gwella bioamrywiaeth a chynhyrchu manteision economaidd-gymdeithasol ehangach, a fyddai’n dod yn sgil dull ecosystem mwy cyfannol.

6.23 Roedd un o ganlyniadau pwysig yr SMS a nodwyd gan lunwyr polisïau yn ymwneud â gweithio mewn partneriaeth. Disgwylir i gyllid yr SMS helpu i gryfhau ac ehangu partneriaethau prosiectau dros eu cyfnod cyflawni ac y bydd tystiolaeth o hyn ar gael o ran y ffordd y mae partneriaethau'n cael eu llywodraethu a'u rheoli. Yn y tymor hwy, mae llunwyr polisïau yn disgwyl i brosiectau a ariennir gan yr SMS barhau i gydweithio ar ôl i'r cyllid ddod i ben a sicrhau ffynonellau cyllido eraill yn y dyfodol. Er y cydnabuwyd bod hwn yn amcan uchelgeisiol, y gobaith yw y bydd prosiectau'n dod yn hunangynhaliol yn yr hirdymor ac y bydd tystiolaeth o gydweithio parhaus ar gael dros y cyfnod gwerthuso.


# 7. Canfyddiadau'r gwaith maes: Y broses ymgeisio

7.1 Mae'r bennod hon yn ystyried barn yr ymatebwyr a gymerodd ran yn yr arolwg, y prosiectau a gyfwelwyd a llunwyr polisïau am broses ymgeisio'r SMS - gan gynnwys hyrwyddo'r cynllun yn y lle cyntaf, y cam Datgan Diddordeb a'r cam cais llawn, a'r gefnogaeth a'r adborth a gynigir yn ystod y broses.

**Hyrwyddo'r SMS**

7.2 Roedd yr ymatebwyr i'r arolwg wedi dod i glywed am yr SMS drwy sawl dull fel y dangosir yn Ffigur 7.1, a'r dull y cyfeiriwyd ato amlaf oedd datganiadau i'r wasg neu gyhoeddiadau Llywodraeth Cymru (saith o blith y 27 o ymatebwyr) ac yna ddigwyddiadau neu rwydweithiau gwybodaeth (pum ymatebydd).

**Ffigur 7.1: Dull o glywed am yr SMS**




Ffynhonnell: Arolwg ar y we gan OB3 (27 o ymatebion)

7.3 Roedd y mwyafrif (20 o ymatebwyr) o'r ymatebwyr i'r arolwg o'r farn ei bod wedi bod yn hawdd iawn neu'n weddol hawdd cael gafael ar wybodaeth am yr SMS. Nododd rhai o'r rhain y bu'n 'hawdd dod o hyd i wybodaeth ar wefan llyw.cymru'. Roedd un rhan o bump (chwe ymatebydd) o'r farn y bu'n weddol anodd neu'n anodd iawn dod o hyd i wybodaeth ac roedd rhai o'r

rhain yn cynnig awgrymiadau ar sut y gallai gwybodaeth am yr SMS fod wedi'i hyrwyddo a'i chyfleu'n well, gan gynnwys:


- cyfathrebu cliriach am y newidiadau i'r canllawiau a roddwyd ar waith rhwng un cyfnod cyllido a'r llall
- cyfleu'n gliriach y byddai pob agwedd ar y cais yn cael ei asesu'n annibynnol, ac nad oedd yn bosibl cyfeirio at ateb blaenorol i gwestiwn
- rhannu enghreifftiau o arfer da â darpar gynigwyr

7.4 Roedd canfyddiadau'r gwaith maes ychydig yn wahanol. O gofio bod y prosiectau hyn wedi'u hariannu'n bennaf yn ystod y ddau gyfnod ymgeisio cyntaf, nid yw'n syndod efallai eu bod yn grwpiau sefydledig gyda llawer o aelodau'r partneriaethau a ffurfiwyd wedi gweithio gyda'i gilydd o'r blaen ar brosiectau Cronfa Natur Llywodraeth Cymru. O ganlyniad, roedd saith o'r rhai a gafodd eu cyfweld wedi clywed am yr SMS oherwydd eu bod yn rhan o'r prosiect Cronfa Natur ac felly'n gwybod bod y ffrwd gyllido hon yn yr arfaeth. Soniodd mwyafrif y rhai a gyfwelwyd hefyd eu bod wedi clywed am y cyfle drwy gysylltiadau ehangach â Llywodraeth Cymru neu sianeli neu rwydweithiau cysylltiedig presennol. Dim ond un prosiect a grybwyllodd wefan Llywodraeth Cymru. Soniodd dau brosiect eu bod wedi gweld gwybodaeth am y cynllun ar gylchlythyr a anfonwyd drwy e-bost gan Lywodraeth Cymru. Roedd prosiect arall wedi mynd ar drywydd gwybodaeth mewn erthygl. Yn gyffredinol, roedd prosiectau a gyfwelwyd yn teimlo bod cyfleoedd cyllido SMS wedi'u hysbysebu'n dda.

7.5 Teimlai sawl cyfrannwr fod dull gweithredu SMS yn gadarnhaol, yn enwedig o ran eu hawydd i wahodd ceisiadau gan ystod mor eang â phosibl o ymgeiswyr gan ddweud bod gwir ddymuniad i weld grwpiau a phartneriaethau bach yn gwneud cais am gyllid.

7.6 Mae Ffigur 7.2 yn nodi nifer y partneriaid a oedd yn rhan o bob cais SMS a wnaed gan yr ymatebwyr i'r arolwg. Roedd gan ychydig dros hanner y rhai a holwyd (14 o ymatebwyr) hyd at ddeg partner yn rhan o'u cais SMS ac roedd yr hanner arall (13 o ymatebwyr) fwy nag 11 o bartneriaid.

**Ffigur 7.2: Nifer y partneriaid a oedd yn rhan o bob cais SMS**




Ffynhonnell: Arolwg ar y we gan OB3 (27 o ymatebion)

7.7 Dywedodd dros hanner yr ymatebwyr i'r arolwg (16 o ymatebwyr) fod cydweithio eisoes yn digwydd rhwng o leiaf rai o'r partneriaid cyn iddynt ddatblygu eu cais ar gyfer yr SMS. Nododd deg ymatebydd nad oedd unrhyw gydweithio'n digwydd cyn datblygu eu cais ar gyfer yr SMS[15], ac roedd Datganiad o Ddiddordeb tri o'r rhain yn aflwyddiannus.

7.8 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i'r arolwg pa gamau a gymerwyd ganddynt i ddatblygu partneriaeth er mwyn gwneud cais i'r SMS. Roedd y dulliau mwyaf cyffredin yn cynnwys:


- creu cysylltiadau â ffermwyr, tirfeddianwyr a grwpiau cymunedol
- sefydlu gweithgorau, byrddau prosiect a grwpiau llywio gyda chynrychiolaeth gan randdeiliaid allweddol
- cynnal trafodaethau a chyfarfodydd agored gyda'r cyhoedd i drafod syniadau
- cysylltu ag ystod ehangach o sefydliadau a grwpiau na fyddent wedi meddwl amdanynt fel arall.


[15] Ni wnaeth un ymateb

**Y broses ymgeisio ar gyfer SMS**

7.9 Mynegodd yr ymatebwyr i'r arolwg farn gymysg ynghylch pa mor hawdd oedd cwblhau'r Datganiad o Ddiddordeb a'r cais llawn, fel y dangosir yn Ffigur 7.2. Er bod dwy ran o bump o'r ymatebwyr o'r farn bod y Datganiad o Ddiddordeb yn 'hawdd iawn' neu'n 'weddol hawdd', dim ond traean o'r ymatebwyr a oedd yn credu bod y cais llawn yn hawdd. Roedd bron i hanner yr ymatebwyr i'r arolwg yn teimlo bod y cam Datgan Diddordeb yn anodd ac roedd 59 y cant o'r ymatebwyr o'r farn bod y cais SMS llawn yn anodd ei gwblhau.

**Ffigur 7.3: Pa mor hawdd oedd cwblhau'r Datganiad o Ddiddordeb a'r cais ar gyfer yr SMS**




Ffynhonnell: Arolwg ar y we gan OB3 (27 o ymatebion)

*Y Datganiad o Ddiddordeb*

7.10 Nododd yr ymatebwyr y cryfderau canlynol mewn perthynas â'r broses Datgan Diddordeb:

- roedd yn gyfle i ymgeiswyr ddatblygu syniadau prosiect a'u 'profi' gyda Llywodraeth Cymru, heb orfod buddsoddi amser mewn drafftio cais llawn:

  'mae'n golygu, yn gyffredinol, mai dim ond prosiectau sydd wedi'u hystyried yn ofalus sy'n mynd ymlaen i'r cam nesaf'

- credwyd bod natur drylwyr a chynhwysfawr y cam Datgan Diddordeb wedi arwain at syniadau a chynlluniau prosiect a oedd wedi'u datblygu'n well cyn y cam cais llawn:

  'mae'r Datganiad o Ddiddordeb yn galluogi ymgeiswyr ... i drafod materion yn llawn, cynllunio camau gweithredu'n ofalus ... a gwerthfawrogi ffocws y gefnogaeth a'r effeithiau y gellir eu gwireddu'

7.11 Amlygodd yr ymatebwyr yr heriau canlynol sy'n gysylltiedig â'r broses Datgan Diddordeb:

- nid oeddent yn gwybod faint o fanylion yr oedd eu hangen, gan nad oedd cyfyngiadau ar nifer y geiriau yn y Datganiadau o Ddiddordeb
- roedd y manylion yr oedd eu hangen yn fwy na'r disgwyl, ac yn debycach i gais llawn na phroses gyflym
- gorddefnydd o jargon
- diffyg eglurder o ran y cyngor a gafwyd ynghylch yr hyn y gallai'r prosiect ei ariannu a'r canlyniadau y dylai prosiectau eu cyflawni
- yr amser yr oedd ei angen i ddatblygu a pharatoi'r Datganiad o Ddiddordeb, a oedd yn broblem benodol i sefydliadau llai a gwirfoddolwyr
- materion yn ymwneud â'r ffordd y cyflwynwyd y canllawiau e.e., gallai'r canllawiau fod wedi'u 'cyflwyno'n well, mewn dogfen fwy cryno ond cynhwysfawr, heb is-ddogfennau ychwanegol'.

7.12 Fodd bynnag, er bod y rhan fwyaf o'r prosiectau yn teimlo bod y lefel hon o fanylion yn y cam Datgan Diddordeb yn rhy feichus, roedd wedi gwneud y cam ymgeisio diweddarach yn llawer haws, gan fod y gwaith caled o baratoi eisoes wedi'i wneud. Er bod hyn yn cael ei ystyried yn beth da os oedd cais yn llwyddiannus, roeddent yn teimlo y byddai'n fater gwahanol pe bai'r holl waith hwnnw i baratoi Datganiad o Ddiddordeb yn wastraff.

7.13 Sylwodd y prosiectau hynny a oedd wedi ailgyflwyno Datganiadau o Ddiddordeb ar ôl cael eu gwrthod mewn cyfnod cynharach, sut yr oedd y broses (a'r sgorio) wedi newid rhyw fymryn rhwng cyfnodau cyllido, ac roeddent yn teimlo na thynnwyd digon o sylw at hyn. Roedd un ymatebydd o'r farn bod y broses bellach wedi'i gwella: 'Rwy'n credu eu bod bellach wedi byrhau'r broses a rhoi terfyn arni felly mae'n well - maen nhw wedi mynd i'r afael â'r broblem'.

7.14 Cynigiodd y pum ymgeisydd a fu'n aflwyddiannus gyda'u Datganiadau o Ddiddordeb, ac a gwblhaodd yr arolwg ar y we, sylwadau ar yr adborth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ar eu cais. Roedd tri o'r farn bod yr adborth wedi bod yn dderbyniol yn yr ystyr ei fod yn 'foddhaol', yn 'eithaf manwl' ac yn 'gynhwysfawr a defnyddiol', er bod y canlyniad yn siomedig. Byddai'r ddau arall wedi croesawu ymateb manylach i'w cynnig.

7.15 O blith y pum ymgeisydd a fu'n aflwyddiannus gyda'u Datganiadau o Ddiddordeb ac a gwblhaodd yr arolwg ar y we, cafwyd cydweithio pellach rhwng partneriaid prosiect mewn tri achos. Mewn dau o'r achosion hyn, roedd cyllid o ffynonellau eraill eisoes wedi'i sicrhau - un drwy'r cynllun Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant (ENRaW) a'r llall drwy'r Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig. Roedd y trydydd yn aros i glywed canlyniad ei gais cyllido diweddar (i'r Prosiect Bywyd Ewropeaidd) adeg cwblhau'r arolwg.

*Y cais llawn*

7.16 Roedd yr ymatebwyr o'r farn mai cryfderau proses cais llawn yr SMS oedd:

- ei thrylwyredd gan fod hyn yn helpu i sicrhau bod yr holl bartneriaid yn ymwybodol o'u hymrwymiad

- roedd lefel y manylion yr oedd eu hangen yn sicrhau bod prosiectau wedi'u 'cynllunio'n dda' ac yn 'barod i gael eu rhoi ar waith'
- roedd llawer o'r gwaith wedi'i gwblhau yn ystod y cam Datgan Diddordeb
- strwythur clir y ffurflen gais
- cysondeb o'i gymharu â'r ffurflen Datgan Diddordeb.

7.17 Roedd prif heriau proses cais llawn yr SMS a nodwyd gan yr ymatebwyr i'r arolwg yn cynnwys y canlynol:

- roedd yn feichus o ran yr ymrwymiad amser a faint o waith yr oedd ei angen i gwblhau'r cais
- roedd sefydliadau mwy a chanddynt arbenigedd mewn ysgrifennu ceisiadau priodol a gwybodaeth gyfredol am y cyd-destun polisi mewn sefyllfa well na sefydliadau llai i fodloni'r gofynion ymgeisio:

  'mae angen sefydliad proffesiynol a/neu asiant i ysgrifennu cais sy'n debygol o fod yn llwyddiannus... yn y rhan fwyaf o achosion dim ond gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y maes a fyddai'n gyfarwydd â... pholisi diweddaraf y llywodraeth'
- anawsterau o ran nodi'r hyn y dylai'r cais ganolbwyntio arno a phwysleisio ei fod yn ofynnol ailadrodd gwybodaeth a gyflwynwyd yn y Datganiad o Ddiddordeb (ac ar draws y cais llawn ei hun), yn enwedig o ran amlinellu sut roedd y prosiect yn bodloni blaenoriaethau a chanlyniadau polisi allweddol
- roedd y broses wedi cymryd gormod o amser ac roedd y broses benderfynu yn symud yn aruthrol o araf, a oedd â goblygiadau i forâl a gweithrediad y cynllun. Dywedodd ambell ymatebydd fod oedi o 1-2 flynedd yn golygu bod cyllidebau wedi dyddio erbyn i'r prosiect gael ei gymeradwyo a bod partneriaid wedi colli diddordeb yn ystod yr amser hwnnw: 'o'r adeg y gwnaethom gyflwyno'r Datganiad o Ddiddordeb gwreiddiol yn 2016, cymerodd ddwy flynedd cyn i ni gael cymeradwyaeth'.

7.18 Dadleuodd y prosiectau a gyfwelwyd fod oedi cyn gallu dechrau a derbyn taliadau yn gwrthgyferbynnu ag awydd Llywodraeth Cymru i gael grwpiau a phartneriaethau llai i wneud ceisiadau am gyllid yn uniongyrchol. Soniodd sawl sefydliad sut yr oedd yr oedi a’r cymhlethdodau cyllido yn ei gwneud yn broblem iddynt redeg prosiect SMS heb noddwr prosiect mwy. Roedd sefydliadau llai yn cytuno â hyn: 'cymerodd amser maith i gael clywed beth oedd y canlyniad ac roedd hyn yn ei gwneud hi'n anodd iawn dal i fynd'. Disgrifiodd ymatebydd arall i'r arolwg sut yr oedd cysylltiadau defnyddiol a sefydlwyd rhwng sefydliadau yn ystod y cam ymgeisio bellach yn y fantol: 'yn anffodus, oherwydd yr oedi o 18 mis rydym wedi colli sawl un o'r cysylltiadau hynny'.

7.19 Roedd y broses ailadroddus a fabwysiadwyd ar draws yr SMS wedi bod yn briodol ym marn llawer o'r ymatebwyr ac wedi galluogi'r broses ymgeisio i esblygu a chryfhau ar gyfer pob cyfnod cyllido. Fodd bynnag, roedd rhai yn teimlo bod y broses ymgeisio wedi dod yn llai hyblyg dros amser gyda phrosiectau a ariannwyd drwy'r ffenestri cyllido diweddarach yn cael llai o hyblygrwydd i wneud newidiadau i'w prosiectau.

7.20 Credai sawl cyfrannwr fod gwahanol unigolion yn sgorio gwahanol rannau o'r ffurflen gais gan olygu bod ceisiadau'n anhylaw ac yn ailadroddus er mwyn sicrhau bod yr holl wybodaeth angenrheidiol yn cael ei chynnwys ym mhob adran.

7.21 Cododd yr ymatebwyr hefyd ymwneud CNC â'r broses Datgan Diddordeb a'r broses ymgeisio. Er bod CNC wedi chwarae rhan yn y broses o asesu'r ceisiadau a gyflwynwyd, nid oedd yn aelod o'r panel asesu. Byddai ambell gyfrannwr wedi dymuno gweld CNC yn cyflawni rôl fwy. Teimlwyd bod rôl CNC wedi'i chyfyngu i nodi unrhyw brosiectau 'eithriadol' yn hytrach na siapio a gwella prosiectau neu roi sylwadau ar sut roeddent yn cyd-fynd â gweithgareddau neu brosiectau eraill yr oedd CNC yn ymwybodol ohonynt neu'n gweithio â nhw.


7.22 Roedd barn hefyd, er bod CNC wedi darparu sylwadau a allai ddylanwadu ar benderfyniadau mewn perthynas â llwyddiant neu fethiant cais, y byddai rhywfaint o adborth mwy ffurfiol wrth i brosiectau fynd yn eu blaenau neu

gyfle i CNC gymryd mwy o ran yn natblygiad prosiectau i'r cam cais llawn wedi cael ei groesawu. Teimlai rhai ymatebwyr fod rhai cyfleoedd wedi'u colli i CNC gysylltu'n agosach â phrosiectau lle nad oeddent eisoes yn bartneriaid gweithredol a bod lefel cyfranogiad y CNC mewn prosiectau yn amrywio'n fawr. Roedd eraill yn teimlo y gellid gwneud mwy i sicrhau bod prosiectau hefyd yn ymateb i flaenoriaethau a gweithgareddau presennol CNC.

*Cydweddiad prosiectau a ariannwyd â nodau ac amcanion yr SMS*

7.23 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i'r arolwg i ba raddau yr oedd eu syniadau cychwynnol ar gyfer prosiect yn bodloni tri amcan allweddol yr SMS. Nodir y canfyddiadau yn Ffigur 7.4 ac maent yn awgrymu bod syniadau prosiectau yn fwy tebygol o sicrhau manteision i gymunedau gwledig nag yr oeddent o sicrhau manteision i fusnesau fferm a busnesau gwledig.

**Ffigur 7.4: I ba raddau yr oedd syniadau cychwynnol y prosiect yn bodloni amcanion yr SMS**




Ffynhonnell: Arolwg ar y we gan OB3 (27 o ymatebion)

7.24 Rhoddodd cynrychiolwyr y prosiectau a gyfwelwyd nifer o resymau pam yr oeddent yn credu eu bod wedi bod yn llwyddiannus yn eu ceisiadau gan gynnwys:

- dangos yn glir bod ganddynt ddull cydweithredol
- cydweddu'n glos neu gyd-fynd yn dda ag egwyddorion SMS a'r polisi bioamrywiaeth cyfredol

- enw da a llwyddiant blaenorol y sefydliad arweiniol (neu mewn rhai achosion, yr unigolyn arweiniol) o ran cyflawni prosiectau tebyg, yn fwyaf nodedig o dan y Gronfa Natur
- ymateb yn glir i anghenion y gymuned leol, wedi'i ategu gan dystiolaeth gref a manwl o angen
- 'bod yn uchelgeisiol, heriol, arloesol a pharod i gymryd risg'.

7.25 Yn gyffredinol, roedd y prosiectau a ariannwyd yn teimlo bod eu prosiectau'n cyd-fynd yn dda ag amcanion yr SMS a fframwaith egwyddorion SMNR ac yn teimlo y bu'n gymharol hawdd dangos hyn. Yn gyffredinol, roedd prosiectau'n blaenoriaethu egwyddorion cysylltedd a graddfa ac yn teimlo bod yn rhaid mabwysiadu rhai arferion ar raddfa'r dirwedd ac ar raddfa dalgylch er mwyn cynhyrchu'r effeithiau a fwriadwyd. Cyfeiriodd y prosiectau hefyd at eu hamcanion penodol eu hunain a oedd yn cyd-fynd yn dda ag egwyddorion SMNR megis cynyddu cyflogaeth wledig, gwella gallu'r dirwedd i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd, a chynyddu storio carbon.

7.26 Teimlai'r prosiectau fod gweithio yn y tymor hir ac annog cydweithrediad a chyfranogiad ffermwyr a chymunedau yn ffordd synhwyrol o edrych ar werth ecolegol ac economaidd adnoddau naturiol sy'n gwella o ganlyniad. Teimlai'r prosiectau fod cynaliadwyedd a chadernid ecoleg, cymuned a'r economi wedi'u hymgorffori yn eu dulliau gweithredu yn ogystal â chydgynhyrchu gyda'r tirfeddianwyr.

*Gwasanaeth cymorth gan hwylusydd yr SMS*

7.27 Rhoddwyd gwasanaeth cymorth gan hwylusydd yr SMS ar waith ar gyfer grwpiau cymunedol wedi'u harwain gan ffermwyr neu dirfeddianwyr yn ystod cyfnodau cyllido pedwar a phump. Teimlai'r hwyluswyr mai eu rôl oedd 'gweithio gyda'r rhai na fyddent fel arfer yn gwneud cais - coedwigwyr, tirfeddianwyr, ffermwyr neu'r rhai a oedd yn anghyfarwydd â chydweithio - a cheisio eu hannog i ystyried datblygu syniad a oedd yn edrych yn fwy ar y dirwedd ehangach ac ar y gymuned'.

7.28 Ystyriwyd bod y ffaith bod y gwasanaeth hwyluswyr yn cael ei reoli gan Menter a Busnes yn hanfodol i'w lwyddiant ac roedd y ddeialog reolaidd ac agored rhwng yr hwyluswyr a Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod y prosiectau a gefnogwyd yn gydnaws ag amcanion rhaglen yr SMS ac yn diwallu ei gofynion.

7.29 Disgrifiwyd rôl yr hwylusydd gan y rhai a oedd wedi cyflawni'r rôl fel:

- disgrifio 'manylion' yr SMS a'i bwrpas sylfaenol, gan gynnwys egluro egwyddorion SMNR:

  'rydym yn delio yma â phobl ymarferol iawn - maen nhw'n gweithio ar y tir a gydag anifeiliaid fferm, felly dydyn nhw ddim yn gyfarwydd iawn â pholisi a therminoleg. Dyna lle mae ein harbenigedd ni yn dod i mewn i bethau'.

- annog ac egluro natur gydweithredol y cynllun a'r gofynion cysylltiedig
- esbonio terminoleg
- cefnogi datblygiad grwpiau yn rhagweithiol - er enghraifft: trefnu cyfarfodydd, cadeirio trafodaethau, cymryd nodiadau, cymryd camau gweithredu dilynol
- cadw cymhelliant a llif cyfathrebu rhwng aelodau'r grŵp, yn enwedig o ystyried pa mor araf yw'r broses cymeradwyo ceisiadau
- sicrhau bod syniadau'n ymwneud â phrosiectau'n gwario arian yn lleol ac awgrymu sut i ehangu syniadau cychwynnol prosiectau
- datblygu cynigion cryfach, yn enwedig o ran sicrhau bod ceisiadau'n dangos yn ddigonol eu bod yn cydweithio'n ystyrlon â'u cymuned.

7.30 Canfu hwyluswyr fod eu gwybodaeth leol yn helpu i recriwtio aelodau i'w grwpiau. Roedd meithrin ymddiriedaeth a pherthnasoedd ag aelodau wedyn yn hanfodol wrth symud y grwpiau yn eu blaen. Teimlai'r hwyluswyr eu bod yn chwarae rhan bwysig o ran sicrhau mwy o degwch mewn perthynas â mynediad at gronfeydd yr SMS ac mai eu gallu i gyfryngu â ffermwyr mewn iaith y maent yn ei deall oedd eu cryfder - bod ffermwyr a

thirfeddiannwyr yn gallu uniaethu â nhw, a bod hwylusydd yn gallu gweithredu fel 'brocer annibynnol a gonest... nid oes gennym agenda ac mae pobl yn barod i fod yn agored gyda ni'.

7.31 Nododd yr hwyluswyr rai o'r rhwystrau a'r heriau a wynebwyd ganddynt wrth weithio gyda grwpiau gan gynnwys yr angen i reoli disgwyliadau a sicrhau bod y cysyniad o raddfa'r dirwedd yn cael ei ddeall yn llawn. Un o'r heriau mwyaf a wynebwyd oedd y rheolau cyllido - a sicrhau bod grwpiau'n deall na fyddent yn elwa'n uniongyrchol yn ariannol o'u hymwneud â'r SMS ac na ellid ariannu rhai gweithgareddau. Nid oedd llawer o'r grwpiau a oedd yn cael cymorth hwyluso yn gyfarwydd â pharatoi ceisiadau o'r fath ac felly roedd yn rhaid goresgyn anawsterau'n gysylltiedig â'r iaith a ddefnyddiwyd mewn dogfennaeth a'r ddealltwriaeth a'r wybodaeth gyfyngedig ar lawr gwlad ynghylch y polisïau sy'n sail i'r SMS.

7.32 Roedd cyfanswm o ddeg o ymatebwyr i'r arolwg wedi bod mewn cysylltiad â'r gwasanaeth cymorth hwylusydd SMS. O blith y rhain, roedd pedwar o'r farn y byddent yn bendant (dau) neu o bosibl (dau) wedi cyflwyno Datganiad o Ddiddordeb ac roedd tri o'r farn na fyddent wedi gwneud hynny, pe na baent wedi manteisio ar y cymorth hwn. Roedd y tri arall yn ansicr neu heb ateb y cwestiwn. Roedd dau o blith y deg y bu eu Datganiad o Ddiddordeb yn aflwyddiannus wedi cael cymorth gan hwylusydd.

7.33 Roedd yr adborth a ddarparwyd ar y gwasanaeth cymorth hwylusydd yn gadarnhaol iawn. O blith y naw a ymatebodd:

- roedd pob un o'r naw o'r farn bod sgiliau cyfathrebu a hwyluso'r hwylusydd yn rhagorol
- roedd saith o'r farn bod sgiliau trefnu a gwybodaeth yr hwylusydd yn rhagorol
- roedd chwech o'r farn bod eu gwybodaeth am y pwnc yn rhagorol.

7.34 Tynnodd yr ymatebwyr i'r arolwg sylw at werth y cymorth a ddarparwyd gan yr hwyluswyr yn ystod y cam ymgeisio. Mewn dau o'r achosion hyn, dadleuodd yr ymatebwyr fod eu profiad o wneud cais i'r SMS yr eildro gyda chymorth hwylusydd wedi bod yn llawer haws na'u profiad cyntaf heb gymorth o'r fath:

'cawsom help gan hwylusydd gydag un cais ac roedd hyn o gymorth mawr'.

7.35 Soniodd y rhai a gyfrannodd at y gwaith maes hefyd sut yr oedd yr hwyluswyr wedi chwarae rhan bwysig o ran dod â grwpiau ynghyd i drafod syniadau, cynnig argymhellion ynghylch sut i fynd ati a'u cefnogi gyda'r broses o baratoi'r dogfennau ysgrifenedig.

7.36 Oherwydd natur gystadleuol iawn yr SMS erbyn y pedwerydd a'r pumed cyfnod cyllido, roedd y gyfradd llwyddiant ar gyfer grwpiau a hwyluswyd gan yr SMS yn isel er bod ceisiadau o ansawdd uchel wedi'u cyflwyno. Bu'n anodd rheoli'r disgwyliadau ac roedd y profiad wedi bod yn 'dorcalonnus' i grwpiau llai o ffermwyr a thirfeddianwyr ar ôl y gwaith sylweddol a wnaed i baratoi Datganiadau o Ddiddordeb.

7.37 Fodd bynnag, roedd mwyafrif y ceisiadau llwyddiannus wedi cael eu cefnogi gan hwyluswyr a phriodolwyd hyn i rôl allweddol yr hwylusydd wrth helpu partneriaethau go iawn i ffeindio'u ffordd o amgylch y system ymgeisio. Teimlwyd bod yr hwyluswyr wedi 'sicrhau tegwch' neu wedi cynnig 'democrateiddio'r broses ymgeisio' ar gyfer y mathau hyn o brosiectau er mwyn cystadlu'n deg â sefydliadau mwy ac o bosibl sicrhau mynediad at gyllid. Barnwyd hefyd bod yr hwyluswyr wedi chwarae rhan allweddol o ran datblygu gwell cyfathrebu a gwella perthnasoedd ar draws partneriaethau. Roedd yr hwyluswyr eu hunain yn unfrydol o'r farn na fyddai eu grwpiau wedi gallu cyflwyno ceisiadau heb y cymorth a ddarparwyd ganddynt.

7.38 Nododd yr ymatebwyr i'r arolwg gryfderau gwasanaeth cymorth hwylusydd yr SMS fel a ganlyn:

- eu gallu i droi syniadau yn gais ysgrifenedig
- eu gallu i gynnal diddordeb eu partneriaid
- cael adnodd pwrpasol i baratoi'r cais
- cael adnodd ychwanegol i helpu gyda'r ymchwil
- ansawdd eu cyngor a'u gwybodaeth gadarn am y broses SMS a'r ystyriaethau polisi diweddaraf
- pwysigrwydd y ffaith eu bod yn annibynnol a 'hyd braich oddi wrth y llywodraeth'.

7.39 Yr unig awgrym o'r adborth yn yr arolwg ar gyfer gwella'r gwasanaeth cymorth gan hwyluswyr oedd ymestyn y rôl i gefnogi prosiectau ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo h.y. 'gwasanaeth mentora hyd at ddechrau'r prosiect'. Roedd yr hwyluswyr eu hunain hefyd yn teimlo y gallai'r SMS elwa o roi amser i hwyluswyr drosglwyddo'r awenau i brosiectau a ariannwyd - nes bod prosiect wedi recriwtio a phenodi ei reolwr prosiect ei hun er enghraifft. Gallai unigolion o'r fath elwa o broses sefydlu a throsglwyddo'r awenau dan arweiniad hwylusydd. Roedd enghreifftiau ble roedd hwyluswyr wedi gwneud hynny ar gyfer ambell brosiect SMS ar sail pro bono. Yn yr un modd, awgrymwyd y gallai ymgeiswyr aflwyddiannus hefyd barhau i gael cymorth hwylusydd ar ôl gwneud cais er mwyn caniatáu amser i ddod o hyd i gyfleoedd cyllido eraill a rheoli'r camau nesaf i gyfuno partneriaethau a datblygu syniadau prosiect er mwyn osgoi rhoi'r gorau iddynt yn llwyr.

7.40 Teimlai'r hwyluswyr fod eu grwpiau wedi cael llawer o gyfleoedd yn sgil bod yn rhan o gais SMS. Ehangwyd cysylltiadau a rhwydweithiau a bu hyn o gymorth i sicrhau cefnogaeth ychwanegol i aelodau'r grŵp yn ystod cyfnod o ansicrwydd yn y sector ffermio. Roedd y gwasanaeth cymorth hwyluso wedi bod yn hanfodol o ran:

'dod â chymunedau ynghyd i ffurfio cynllun cydlynol i ddatrys heriau allweddol yr ardal drwy ddefnydd gwell o adnoddau naturiol. Gall y prosiectau hyn sicrhau enillion gwych ar fuddsoddiad i'r cyhoedd os oes hwylusydd effeithiol a chydweledigaeth'.


7.41 Roedd y broses hefyd yn caniatáu i aelodau'r grŵp, a rheolwyr tir yn arbennig, gymryd cam yn ôl ac adolygu materion lleol ar raddfa'r dirwedd ac ystyried cynaliadwyedd eu systemau ac effaith eu gweithredoedd ar ddalgylch ehangach. Roedd y broses hefyd yn rhoi cyflwyniad cadarn i aelodau'r grŵp o nod Llywodraeth Cymru i symud i ddull mwy cyfannol o reoli adnoddau naturiol.


*Cymorth gan dîm SMS Llywodraeth Cymru*

7.42 Fel y dangosir yn Ffigur 7.5, roedd tua dwy ran o dair o'r ymatebwyr i'r arolwg o'r farn bod cymorth gan dîm SMS Llywodraeth Cymru wedi bod yn

ddefnyddiol yn ystod y broses ymgeisio. Roedd cyfran debyg hefyd o'r farn bod y cyngor a gawsant wedi gwneud gwahaniaeth i'w cais.

**Ffigur 7.5: Barn yr ymatebwyr i'r arolwg ar (a) pa mor ddefnyddiol oedd y cymorth gan Lywodraeth Cymru a (b) y gwahaniaeth a wnaeth i'w cais**




Ffynhonnell: Arolwg ar y we gan OB3 (27 o ymatebion)

7.43 Roedd y prif ffyrdd yr oedd yr ymatebwyr o'r farn bod y cyngor a ddarparwyd gan dîm SMS Llywodraeth Cymru wedi gwneud gwahaniaeth i'w cais yn cynnwys:

- eu hannog i fod yn fwy arloesol

- annog yr ymgeisydd i ymgysylltu'n briodol â phartneriaid a rhanddeiliaid
- sicrhau bod gan yr ymgeisydd well dealltwriaeth o'r hyn yr oedd Llywodraeth Cymru eisiau gweld prosiectau'n ei gyflawni
- gwella eu dull arfaethedig o fonitro
- dileu elfennau na fyddent yn cael eu hariannu oherwydd rheoliadau'r UE
- dealltwriaeth o feini prawf a pholisïau allweddol er mwyn dangos yn well ganlyniadau y gellid eu cyflawni
- eu cynghori i ailddrafftio adrannau penodol, gan ddefnyddio terminoleg fwy priodol, er mwyn dangos cydweddiad strategol yn well.

7.44 Ychwanegodd un ymatebydd i'r arolwg fod y cymorth gan swyddogion Llywodraeth Cymru wedi rhoi 'hyder llwyr i ni mewn maes anghyfarwydd iawn. Roedden nhw'n WYCH'.

*Ffyrdd o wella proses ymgeisio'r SMS*

Cynigiodd ambell un awgrymiadau gan ymatebwyr am ffyrdd o wella proses ymgeisio'r SMS. Yn ychwanegol at yr angen i symleiddio a chyflymu'r broses, roedd galw hefyd am:

- broses ymgeisio gyflymach, o'r cam Datgan Diddordeb i'r cais llawn, ac o'r cais llawn i'r gymeradwyaeth derfynol
- sicrhau bod mwy o enghreifftiau o brosiectau arfer da ar gael i ymgeiswyr (er y cydnabuwyd bod hyn bellach ar waith o ystyried bod gwybodaeth am brosiectau llwyddiannus wedi cael ei darparu)
- un pwynt cyswllt, pwrpasol o fewn Llywodraeth Cymru i ddelio ag ymholiadau am geisiadau, ac i wella llif y cyfathrebu
- proses fwy tryloyw ar ôl gwneud cais, yn enwedig o ran gofyn am wybodaeth bellach gyda chynllun cliriach yn nodi 'beth sy'n digwydd nesaf - sut y cânt eu hasesu, tystiolaeth bellach y gallai fod ei hangen, sut y gallem baratoi ymlaen llaw'

- gwasanaeth cymorth hwyluso SMS o'r cychwyn cyntaf.

7.45 Awgrymodd rhai y gallai'r cynllun fod wedi elwa o fwy o hyblygrwydd gyda mwy o bwyslais ar ymweliadau â safleoedd gan staff Llywodraeth Cymru i asesu syniadau prosiectau yn hytrach nag ymarfer gwneud cais ar bapur.

7.46 Roedd y prif fater a godwyd gan y prosiectau a gyfwelwyd yr oedd angen eu gwella hefyd yn ymwneud â'r oedi hir, yn enwedig rhwng canfod bod cais yn llwyddiannus a derbyn y taliad cyntaf. Dywedwyd wrth sawl prosiect am symud ymlaen 'ar eu menter eu hunain', ac er bod rhai wedi gwneud hyn, roeddent yn gyffredinol yn teimlo bod hyn wedi bod yn anfantais iddynt a'i fod, ar brydiau, wedi gwneud bywyd yn anodd iawn:

- 'o'r adeg y gwnaethom gyflwyno'r Datganiad o Ddiddordeb gwreiddiol yn 2016, cymerodd ddwy flynedd cyn i ni gael cymeradwyaeth'
- 'roedd y cyfnodau a'r dyddiadau gwneud cais yn hysbys, ond ni chadwyd at y dyddiadau hyn o gwbl'

7.47 Teimlai un ymatebydd, er bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod prosiectau'n cyd-fynd â Deddf yr Amgylchedd a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, bod ei gwneud yn ofynnol i brosiectau ddangos sut y maent yn cyfrannu at yr holl ofynion amrywiol yn ymwneud ag iechyd, cynhwysiant cymdeithasol a chydraddoldebau mewn perygl o'i wneud yn ymarfer 'ticio blychau' yn hytrach na sicrhau rhaglen ystyrlon yn ei chyfanrwydd.

7.48 Un awgrym ar gyfer dull gweithredu mwy addas yn y dyfodol a fyddai'n cyd-fynd yn well â blaenoriaethau rhanbarthol oedd dyrannu cyllid yn rhanbarthol, gyda phroses ymgeisio yn cael ei hasesu gan banel rhanbarthol a allai gynnwys un o swyddogion Llywodraeth Cymru, cynrychiolydd CNC, aelod o'r ardal o harddwch naturiol eithriadol (AHNE) neu'r parc cenedlaethol lleol (lle bo hynny'n berthnasol) a rhai arbenigwyr (yn ymwneud ag iechyd a llesiant, manteision economaidd, ecoleg etc).


# 8. Canfyddiadau'r gwaith maes: Gweithredu

8.1 Mae'r bennod hon yn darparu adborth mewn perthynas â rheoli'r SMS a'r gofynion ariannol a monitro cysylltiedig. Mae hefyd yn ystyried y dystiolaeth ynghylch dulliau partneriaeth y prosiectau SMS a manteision a heriau cydweithio. Mae'n cynnwys tystiolaeth a gasglwyd o'r arolwg ac o waith maes gyda phrosiectau sydd wedi'u cynnwys hwnt ac yma fel enghreifftiau o astudiaethau achos penodol.

**Profiad cyffredinol o'r SMS**

8.2 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i'r arolwg roi sgôr i'w profiad o'r cynllun SMS o 1 i 5 (gydag un yn wael iawn a 5 yn rhagorol). Mae Ffigur 8.1 yn tynnu sylw at ddarlun cymysg yn yr ystyr bod rhyw ddwy ran o bump (11 o ymatebwyr) wedi graddio eu profiad fel rhagorol neu dda iawn tra bod ychydig yn llai na thraean (wyth ymatebydd) wedi graddio eu profiad yn wael neu'n wael iawn.

**Ffigur 8.1: Profiad cyffredinol o'r cynllun SMS**




Ffynhonnell: Arolwg ar y we gan OB3 (27 o ymatebion)

**Rheoli'r SMS**

8.3 Yn gyffredinol, roedd y prosiectau a gafodd eu cyfweld fel rhan o'r gwaith maes ar gyfer y gwerthusiad hwn yn ganmoliaethus ynghylch tîm SMS Llywodraeth Cymru. Disgrifiwyd y tîm fel 'cefnogol', 'hoffus', 'parod ei gymorth' ac 'anogol'. Dywedodd y prosiectau ei bod yn amlwg bod aelodau o dîm yr SMS yn malio am y sector, roeddent bob amser wrth law i ymateb i ymholiadau ac roeddent yn brwydro'n galed dros ddull gweithredu arbrofol ar gyfer yr SMS.

8.4 Cafwyd peth awgrym gan lunwyr polisïau y gallai'r tîm gweithredu craidd, wrth ddylunio'r SMS, fod wedi elwa o gael mwy o adnoddau, a bod Llywodraeth Cymru wedi tanamcangyfrif y llwyth gwaith sy'n gysylltiedig â rheoli'r cynllun.

8.5 Cododd bron pob prosiect bryderon ynghylch yr agwedd adrodd a rheoli hawliadau ariannol ar yr SMS Mae'r sylwadau a'r materion a godwyd yn ystod y cyfweliadau am yr agwedd hon ar y SMS yn helaeth ac yn fanwl. Roedd gan brosiectau farn gref iawn nad oedd y sefyllfa bresennol yn dderbyniol:

8.6 Yn wir, codwyd pryderon bod y system dalu yn anaddas ar gyfer cynllun mawr a chymhleth fel yr SMS a bod lefel y manylion sy'n ofynnol yn amhriodol ar gyfer gweithgareddau cymhleth, amlasiantaeth fel y rhai a ariennir drwy'r SMS. Codwyd pryderon hefyd gan rai o'r cyrff anllywodraethol mwy a sefydliadau a gafodd eu cyfweld, er eu bod wedi llwyddo i ymdopi â rhai o'r materion yn ymwneud â llif arian, bod rhai cyrff anllywodraethol llai a phrosiectau dan arweiniad partneriaeth fferm wedi dioddef yn sylweddol ac yn cymryd risg ariannol sylweddol a bod gofyn iddynt weithredu o dan ofynion ac oedi o'r fath yn 'beth mawr i'w ofyn':

'mae'r system hawliadau ariannol sy'n cyd-fynd â'r SMS yn destun rhwystredigaeth fawr, ac mae wedi achosi problemau anhygoel i ni'.

8.7 Roedd rhai o'r materion penodol a godwyd mewn perthynas ag uned rheoli'r cynllun, Taliadau Gwledig Cymru yn cynnwys:

- *diffyg cyfathrebu*:

'ni fyddai cwestiynau a gyflwynwyd i'r tîm yn cael eu hateb'

- *dim pwynt cyswllt unigol*:

  'fe wnaethom ddelio â pherson gwahanol ar gyfer pob cais'

- *diffyg eglurder o ran y gofynion*
- *diffyg hyblygrwydd* yn system rheoli ariannol WEFO, gan gynnwys analluu i ddangos pryd mae prosiectau'n rhagori ar y targedau:
- *diffyg ymateb amserol i ymholiadau*:

  'fe wnaethom ddiwygio un rhagolwg ariannol a chymerodd naw mis i gael ateb. Mae'n anodd rheoli llif arian wedyn'


8.8 Hefyd, rhoddodd y prosiectau rai enghreifftiau difrifol iawn o effaith yr oedi gyda thaliadau a'r ansicrwydd ar drefniadau llywodraethu eu sefydliad ac ar gyflawni'r prosiect, yn enwedig gan fod 'prosiectau SMS, yn ôl eu natur, bob amser yn mynd i fod yn dymhorol ac mae oedi wedi cael effaith fawr iawn arnynt' e.e.:

- soniodd dau brosiect fod y taliad am eu blwyddyn gyntaf bellach 12 mis yn hwyr
- symudodd dyddiad cychwyn disgwyliedig un prosiect o fis Ionawr i fis Hydref erbyn iddynt gael 'y golau gwyrdd swyddogol - canlyniad hynny oedd i ni golli tymor cyfan i'w gyflawni'
- dywedwyd wrth brosiect arall y gallai ddechrau ond aeth naw mis arall heibio cyn iddo allu gwneud hawliad. Achosodd hyn broblemau mawr gyda llif arian i'r graddau bod yn rhaid i rywun ddefnyddio ei gynilion ei hun er mwyn goresgyn y rhwystr.

<u>Gofynion monitro</u>

8.9 Roedd dros hanner yr ymatebwyr i'r arolwg (12 o blith 22 o ymatebwyr) o'r farn bod gofynion adrodd SMS Llywodraeth Cymru ar gyfer eu prosiect yn syml iawn neu'n weddol syml, fel y dangosir yn Ffigur 8.2, ond roedd dros draean (wyth o blith 22 o ymatebwyr) yn credu eu bod yn heriol iawn.

**Ffigur 8.2: Barn ar ofynion adrodd prosiectau SMS Llywodraeth Cymru**




Ffynhonnell: Arolwg ar y we gan OB3 (22 o ymatebion)

8.10 Yn gyffredinol, roedd y prosiectau a gyfwelwyd yn cytuno, er bod proses hawliadau Llywodraeth Cymru yn gofyn am ddwyn llawer o wybodaeth ynghyd, roedd y mwyafrif o brosiectau o'r farn bod y gofynion monitro wedi'u cyfleu'n glir. Yn benodol, barnwyd bod y canllawiau a ddarparwyd yn glir ac yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol i gefnogi ffurflenni monitro.

8.11 Roedd y prif newidiadau yr hoffai ymatebwyr eu gweld yn cael eu gwneud i ofynion adrodd SMS yn cynnwys:

- un pwynt cyswllt pwrpasol i ddelio â'u proses hawlio a'u hymholiadau
- ymweliadau gan un o swyddogion Llywodraeth Cymru i arsylwi cynnydd ac i roi cyngor ar faterion adrodd
- cyflwyno un platfform adrodd ar gyfer y cynllun i gwmpasu monitro cynnydd ac adroddiadau ariannol
- cyflwyno canllawiau monitro a gwerthuso o'r dechrau ar gyfer prosiectau

- creu porthol rhaglen digidol lle y gallai prosiectau uwchlwytho tystiolaeth ffotograffig a chynnwys wedi'i recordio'n ddigidol.

8.12 Nododd sawl un o'r prosiectau a ariannwyd ar gam cynnar fod diffyg eglurder i ddechrau o ran y wybodaeth fonitro a allai fod yn ofynnol iddynt ei darparu, a bod Llywodraeth Cymru wedi bod braidd yn hwyr yn cyfleu eu gofynion monitro a gwerthuso mewn perthynas â phrosiectau, gan 'weithio pethau allan wrth fynd yn eu blaenau' o bosibl, ond mae hyn wedi'i ddatrys bellach ac mae'n llawer gwell. Fodd bynnag, nododd rhai prosiectau y byddent yn croesawu rhagor o eglurder a gweithdai ar hyn.

8.13 Soniodd un neu ddau o brosiectau am eu rhwystredigaeth bod y wybodaeth sy'n ofynnol i egluro pam y tangyflawnwyd unrhyw dargedau yn ymddangos fel pe bai'n rhy feichus, er bod system WEFO yn caniatáu ar gyfer adrodd ar dargedau ac allbynnau meintiol. Yn yr un modd, byddai prosiectau'n croesawu'r gallu, yn ychwanegol at y ffurflen hawlio, i adrodd ar y targedau hynny yr oeddent wedi rhagori arnynt.

8.14 Soniodd sawl prosiect eu bod wedi penodi gwerthuswyr allanol yn ddiweddar neu wrthi'n gwneud hynny, neu wedi cynnwys cymorth gwerthuso yn eu cynigion cychwynnol i'w cefnogi i ddatblygu cynlluniau gwerthuso a chasglu eu tystiolaeth o allbynnau a chanlyniadau ehangach, ac felly'n teimlo y byddent yn gallu ymateb i'r gofynion a bennwyd gan Lywodraeth Cymru.

**Trefniadau partneriaeth cydweithredol**

8.15 Roedd gan y mwyafrif o'r prosiectau a gyfwelwyd ddull llywodraethu a rheoli a oedd yn cynnwys grŵp llywio neu Fwrdd a oedd yn cyfarfod yn rheolaidd - bob chwarter o leiaf. Fe wnaeth y prosiectau sylwadau ar yr ystod eang o sefydliadau a chynrychiolwyr ar eu priod grwpiau llywio ac yn gyffredinol roeddent yn teimlo bod trefniadau partneriaeth yn gweithio'n effeithiol gyda chyfarfodydd o'r fath yn cael eu disgrifio'n gyfarfodydd defnyddiol ar gyfer datrys problemau a gweithredu fel 'cyfaill beirniadol'.

8.16 Soniodd rhai prosiectau fod ganddynt Femoranda Cyd-ddealltwriaeth ar waith, ac roedd tri o'r prosiectau a gyfwelwyd wedi defnyddio strwythurau a

oedd eisoes ar waith ar gyfer prosiectau blaenorol. Nid oedd gan eraill weithdrefnau neu strwythurau ffurfiol o'r fath ar waith.

8.17 Roedd tair o'r partneriaethau wedi'u hen sefydlu a chanddynt berthnasoedd wedi'u meithrin dros amser. Barnwyd bod hyn wedi bod yn ddefnyddiol iawn wrth ddelio â rhai o'r materion yn ymwneud â chyllid:

- 'mae gan y bartneriaeth hon hanes hir a llwyddiannus o ddyfeisio a chyflawni prosiectau ac mae sylfaen gref o ymddiriedaeth a chyfathrebu agored yn sail i hyn. Mae'n cymryd amser ac ymdrech i sefydlu arferion gwaith o'r fath ac i bartneriaeth fod yn effeithiol'.

**Astudiaeth achos: partneriaeth a chydweithio**

Prosiect cydweithredol wedi'i arwain gan ffermwyr yw Fferm Ifan. Mae 11 o ffermwyr yn rhan o'r cwmni budd cymunedol, pob un ohonynt yn denantiaid yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Mae'n bartneriaeth sydd wedi'i hen sefydlu ac sydd wedi gweithio ar amrywiol brosiectau yn y gorffennol. Mae'n cyflogi rheolwr prosiect pwrpasol ac yn gweithio'n agos gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, CNC, Canolfan Ecoleg a Hydroleg y DU, Prifysgol Bangor a'r RSPB.

Mae'r bartneriaeth yn cyfarfod yn rheolaidd (bob rhyw ddau fis) ac mae angen cworwm o bump. Ceir grŵp craidd sy'n chwarae mwy o ran yn y trefniadau o ddydd i ddydd gan gynnwys y Cadeirydd, yr Ysgrifennydd a'r Trysorydd. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri sy'n monitro'r gwaith cyfalaf. Mae'r diffyg trefniadau llywodraethu ehangach wedi galluogi'r bartneriaeth i fod yn fwy hyblyg a symud yn gyflymach: 'mae'n hawdd, does dim biwrocratiaeth ar ein hochr ni, mae gennym systemau syml sy'n gweithio'.

Fferm Ifan yw'r prosiect cyntaf o'i fath lle mae'r holl randdeiliaid allweddol yn ffermwyr, ac mae'n dipyn o gamp bod y prosiect wedi llwyddo i gyflawni'r hyn a wnaeth - yn enwedig yng nghyd-destun heriau diweddar yn ymwneud â'r tywydd a Covid 19.

Gan ein bod yn grŵp bach o ffermwyr, mae perchnogaeth o'r cynllun a'r cynlluniau sy'n rhan ohono yn uchel ac mae gwir awydd i gyflawni pethau. Mae rheolwr prosiect ymroddedig a galluog hefyd wedi bod yn hanfodol o ran galluogi cynnydd a pharhau â'r cynlluniau peilot. Mae grŵp Fferm Ifan yn ffodus bod gan ambell aelod allweddol o'r grŵp gefndir mewn polisi a rheoli prosiectau sy'n cael arian cyhoeddus.

8.18 Roedd mwyafrif y prosiectau a ariannwyd ac a gyfwelwyd yn cael eu rheoli gan sefydliad lletya yn y sector cyhoeddus, a barnwyd bod hyn yn darparu sawl budd. Soniodd un neu ddau o brosiectau fod cael sefydliad o'r fath â'r gallu i reoli materion yn ymwneud â llif arian yn hollbwysig. Canmolodd dau brosiect arall sut roedd swyddogion prosiect ymroddedig, yn aml mewn swyddi ar gam cynnar o'u gyrfa, wedi cael eu recriwtio neu eu datblygu o fewn eu prosiectau SMS, a bod yr unigolion hyn wedi gallu manteision ar gyfleoedd AD a datblygu o fewn sefydliad o'r fath a fydd o fudd i'r sector ehangach yn y dyfodol:

'mae'r prosiect wedi darparu cyfle gwych i lanc ifanc lleol yn ei swydd gyntaf. Mae natur y rôl wedi rhoi profiad gwerthfawr iddo o weithio gyda rhanddeiliaid heriol a chyda chontractwyr. Mae wedi rhoi profiad eang iawn iddo'

8.19 Roedd pwyllgor gweithredol neu fynediad at gymorth gweithredol uwch ehangach hefyd yn cael ei ystyried yn fantais i brosiectau sy'n cael eu cynnal gan awdurdod cyhoeddus, yn enwedig pan oedd materion technegol i'w datrys mewn perthynas â chyllid.

8.20 Roedd ambell brosiect a ariannwyd yn brosiectau cydweithredol wedi'u harwain gan gwmni cydweithredol neu sefydliadau bach yn y trydydd sector. Roedd prosiectau fel y rhain a chanddynt berthynas hirsefydlog wedi llwyddo i gyflawni gofynion y prosiect SMS ond wedi ei chael hi'n anodd. Yn y ddau achos roeddent wedi dibynnu'n helaeth ar gefnogaeth gan sefydliadau mwy a oedd yn aelodau o'u partneriaeth ac roeddent yn ddiolchgar iawn am yr arweiniad a'r gefnogaeth honno.

### Hyd a lled y cydweithio o fewn prosiectau SMS

8.21 Y prif werth ychwanegol yr oedd ymatebwyr i'r arolwg yn ystyried ei gyflawni drwy fabwysiadu dull cydweithredol rhwng partneriaid prosiect oedd:

- sicrhau bod gweithgareddau'n cael eu sbarduno gan bobl, syniadau ac anghenion lleol: 'y nhw sy'n adnabod y tir orau, ac mae hyn wedi rhoi llwyfan iddyn nhw i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed a gwneud penderfyniadau am y dirwedd'
- gallu cael mynediad at ystod ehangach o wybodaeth, arbenigedd, profiadau a chapasiti o bob rhan o rwydwaith ehangach o aelodau
- ennyn mwy o ymrwymiad a chefnogaeth gan y rhai sy'n cymryd rhan yn y prosiect a'r rhai sy'n cael eu heffeithio ganddo: 'drwy gydweithio, rydym yn teimlo bod pawb yn rhan ohono'
- cael mewnbwn gan sectorau a sefydliadau na fyddent wedi cymryd rhan fel arall: 'cydweithio rhwng y celfyddydau, iechyd a lles, yr amgylchedd a ffermio' yn ogystal â 'ffermwyr, cadwyni cyflenwi, rheoleiddwyr, datblygwyr polisi, awdurdodau lleol, undebau ffermio a phartneriaethau sefydliadau bywyd gwyllt'
- gwell perthnasoedd a chydlyniant rhwng tirfeddianwyr a chymunedau lleol: 'mae ffermwyr yn teimlo'n rhan o gymuned ehangach... gobeithio y bydd ffermwyr yn cael eu deall yn well... mae pobl wedi beio ffermwyr heb gyfiawnhad lawer yn rhy hir. Cydweithio yw'r unig ffordd i adeiladu perthnasoedd'
- sicrhau y byddai gweithgareddau'n cael eu cyflawni ar 'raddfa'r dirwedd' o ystyried cyfranogiad tirfeddianwyr, busnesau a sefydliadau a bod y rhain yn fwy tebygol o gael eu cynnal na chamau gweithredu unigol
- gwneud yn siŵr nad oedd prosiectau a ariannwyd gan yr SMS yn dyblygu'r ddarpariaeth bresennol: nododd un ymatebydd i'r arolwg fod ymgysylltu â sefydliadau eraill wedi bod yn ddefnyddiol i sicrhau 'nad

oes dyblygu - gallwn ategu yn hytrach nag ailadrodd yr hyn sy'n digwydd yn lleol'.

**Astudiaeth achos: partneriaeth a chydweithio**

Sefydlwyd Partneriaeth Defnydd Tir y Mynyddoedd Duon yn 2015 a chyflawnodd brosiect o dan y Gronfa Natur. Menter drawsffiniol yw'r Bartneriaeth Defnydd Tir sy'n dwyn ynghyd bartneriaeth fawr gan gynnwys: Cymdeithas Porwyr y Mynyddoedd Duon, tirfeddianwyr mawr fel ystâd Glan Usk, cyrff rheoleiddio gan gynnwys Dŵr Cymru, CNC, Natural England ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, yn ogystal â grwpiau a chynrychiolwyr cymunedol.

Mae sefydlu Partneriaeth Defnydd Tir y Mynyddoedd Duon wedi bod yn gam sylweddol ymlaen o ran codi ymwybyddiaeth o'r materion amgylcheddol a hamdden yn yr ardal, ynghyd ag ysgogi trafodaethau am atebion posibl sy'n arwain at ddefnydd tir mwy cynaliadwy.

Mae cyflwyno'r prosiect SMS wedi helpu i gryfhau'r Bartneriaeth Defnydd Tir, drwy feithrin mwy o ymddiriedaeth a chydweithio rhwng y gwahanol randdeiliaid. Rhan allweddol o hyn yw sicrhau bod cyfathrebu'n digwydd rhwng y gwahanol sefydliadau a'r unigolion dan sylw. Cydnabyddir bod rôl Cadeirydd annibynnol y Bartneriaeth hefyd yn ffactor allweddol wrth feithrin tryloywder ac ymddiriedaeth ymhlith rhanddeiliaid.

Fel y dywedodd un aelod o'r bartneriaeth: 'mae'r bartneriaeth wedi cyd-dynnu'n dda iawn o dan gadeiryddiaeth [y Cadeirydd]... mae'r ffordd y mae'r Bartneriaeth wedi rhoi llais cyfartal i bob tirfeddiannwr a phorwr wedi creu argraff fawr arnaf. Yn yr un modd mae rhai o'r tirfeddianwyr mwy...wedi bod yn gefnogol iawn ac wedi cyflwyno...atebion creadigol.'

Un o'r gwersi allweddol o'r prosiect cydweithredol yw'r amser y mae'n ei gymryd i ddatblygu ymddiriedaeth rhwng partneriaid - yn enwedig rhwng porwyr a sefydliadau statudol. Mae hyn yn gofyn am ddull sensitif a thryloyw ac mae Partneriaeth Defnydd Tir y Mynyddoedd Duon yn enghraifft wych o sut y gellir cyflawni hyn.

Profiad y Bartneriaeth Defnydd Tir yw ei bod yn cymryd amser i sefydlu partneriaeth effeithiol, yn enwedig un sy'n ymwneud ag ardal mor fawr a gyda diddordebau mor amrywiol. Roedd y Bartneriaeth yn bodoli cyn iddi sicrhau cyllid yr SMS, ac mae hyn wedi helpu. Serch hynny, mae cydbwyso'r pwysau sy'n gysylltiedig â chyflawni'r prosiect, a chynnal perthnasoedd da rhwng rhanddeiliaid ac, ar yr un pryd, cynllunio ar gyfer y dyfodol, wedi bod yn her.

8.22 Yn gyffredinol, disgrifiodd cynrychiolwyr y prosiectau a gafodd eu cyfweld yn ystod y gwaith maes bartneriaethau a dulliau cydweithredol a oedd yn dangos gwir ymdeimlad o gydweithio, cydgefnogaeth, ac ymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy. Teimlai partneriaethau sefydledig neu'r rhai a oedd wedi wynebu cyfnod paratoi hir (oherwydd eu bod wedi datblygu syniadau yn wreiddiol fel rhan o gynnig arall) fod eu dull cydweithredol yn well o ganlyniad gan ei fod wedi galluogi perthnasoedd agos i ddatblygu rhwng partneriaid ac wedi caniatáu ar gyfer gwaith paratoi a chynllunio digonol - yn enwedig pan oedd llawer iawn o waith gyda pheiriannau ar raddfa fawr i'w wneud.

8.23 Cyfeiriodd y prosiectau at sawl budd yn sgil cydweithio. Croesawyd y gallu i weithio ar raddfa'r dirwedd yn arbennig gan dirfeddianwyr a ffermwyr:

- 'mae'r cydweithrediad rhwng yr 20 tirfeddiannwr wedi bod yn rhagorol ac mae pob un wedi gallu cyfrannu at eu cynlluniau fferm lleol eu hunain fel rhan o'r prosiect'
- 'dyma yw cryfder bod yn grŵp o ffermwyr - gallu gweithio ar raddfa'r dirwedd'
- 'mae yna lawer o ddiddordeb ymysg ffermwyr. Mae'r syniad yn apelio'n fawr atyn nhw. Mae'r agwedd economaidd yn bwysig ond nid dyna'r unig beth sy'n bwysig iddyn nhw. Maen nhw'n croesawu'r cyfle i gymryd camau cadarnhaol, i gydnabod gwerth coetir ac i gael eu cydnabod am wneud rhywbeth cadarnhaol tuag at newid yn yr hinsawdd a'i liniaru.'

8.24 Roedd dod ag ystod eang o sefydliadau a rhanddeiliaid ynghyd hefyd yn golygu bod prosiectau'n gallu cael mynediad at wybodaeth ac arbenigedd lleol ar rywogaethau a strategaethau amgylcheddol na fyddent o reidrwydd yn gallu cael mynediad atynt fel arall: 'heb eraill, ni fyddem gennym gydgyfrifoldeb na'r gallu i gynllunio ar gyfer cynaliadwyedd. Ni allwn ddiogelu'r amgylchedd ar ein pen ein hunain'.

8.25 Roedd CNC yn ymwneud â'r rhan fwyaf o'r prosiectau a gyfwelwyd, yn amrywio o rôl partner llawn neu brif bartner gyda chontract cyfreithiol i fwy o rôl cynghori ar bolisi. Teimlai sawl cyfrannwr fod cyfranogiad CNC wedi bod yn ddefnyddiol i aelodau'r bartneriaeth ehangach a CNC fel ei gilydd ac roedd eu hymgysylltiad wedi helpu i ddylanwadu ar ganlyniadau dymunol y prosiect. O ran un prosiect, roedd cyfranogiad CNC wedi achosi problemau a oedd wedi amharu ar y gallu i gyflawni'r prosiect.

8.26 Teimlai'r rhan fwyaf o brosiectau fod aelodau o'u partneriaeth yn cymryd rhan yn eu gwaith ac yn ymrwymedig:

- 'bwrdd crwn yw'r bartneriaeth i raddau helaeth - rydym yn cwrdd ac yn trafod yr hyn sydd angen ei wneud, gan bwy a phryd. Mae'r Bartneriaeth hefyd yn caniatáu i sefydliadau llai gael llais cyfartal ac mae hyn hefyd yn helpu i ennyn ymddiriedaeth a dull cydweithredol '

**Astudiaeth achos: partneriaeth a chydweithio**

Un o elfennau unigryw'r bartneriaeth Trwy'r Twyni Tywod yw cyfranogiad brwd y ddau gwrs golff sy'n swatio yn y twyni tywod i'r gorllewin o Borthcawl: Clwb Golff y Pîl a Chynffig a Chlwb Golff Brenhinol Porthcawl. Roedd y ddau glwb yn awyddus i weithio gyda'r prosiect. Roeddent yn awyddus i gyflawni Ardystiad GEO, gwobr amgylcheddol glodfawr ar gyfer Cyrsiau Golff[16]. Mae'r clybiau golff wedi gwneud cryn dipyn o waith gan gynnwys:

- creu nodweddion tywod newydd i helpu i adfer natur dywodlyd eu cwrs golff. Mae hyn wedi creu cynefinoedd newydd ac wedi ailbroffilio'r dirwedd i raddau llawer mwy na'r disgwyl

[16] System Rheoli Amgylcheddol ar gyfer Cyrsiau Golff yw Ardystiad GEO sydd, ar ôl ei gweithredu, yn arwain at welliannau amgylcheddol, gan gyfrannu at lwyddiant cyffredinol y prosiect.

- cael gwared ar ddryslwyni a phrysgwydd er mwyn gwella bioamrywiaeth
- ailbroffilio pyllau tywod er mwyn rhoi gwedd fwy naturiol iddynt
- gwella nodweddion ffiniau i gynorthwyo cysylltedd

Mae'r gwaith gwella i'r ddau glwb wedi cael ei groesawu'n frwd gan eu haelodau ac mae hefyd wedi caniatáu i'r ddau glwb fod ymysg y cyntaf yng Nghymru i gael yr Ardystiad GEO.

Roedd cymryd rhan yn y prosiect Trwy'r Twyni Tywod wedi caniatáu i'r ddau glwb golff feddwl yn wahanol am sut roeddent yn rheoli eu cyrsiau a rhoi mynediad iddynt i gyngor arbenigol am ddim na fyddai ar gael iddyn nhw fel rheol. Roedd y cysylltiadau a wnaed â CNC hefyd yn rhoi hyder iddyn nhw bod y gwaith yr oeddent yn ei wneud yn briodol.

8.27 Soniodd y prosiectau am rai o'r heriau yr oeddent wedi'u hwynebu wrth weithio ar y cyd â phartneriaid. Amlygodd sawl prosiect fod gweithgaredd ar raddfa'r dirwedd yn dibynnu ar bob tirfeddiannwr yn y dalgylch yn cymryd rhan ac yn ymrwymo i'r datblygiad. Teimlai ambell brosiect fod yr analluu i gynnwys un neu ddau o dirfeddianwyr yn lleihau effaith eu gweithgaredd neu'n atal cyfleoedd pellach i wneud gwelliannau. Er enghraifft, mewn un prosiect roedd 17 o ffermwyr yn fodlon ymuno â'r cynllun a dau yn anfodlon gwneud hynny, gan gynnwys ffermwr a oedd yn cadw anifeiliaid maes ar fferm fynydd, a arweiniodd at swm sylweddol o elifiant ar ffurf dŵr ffo yn cyrraedd cyrsiau dŵr.

8.28 Tynnwyd sylw hefyd at heriau eraill a oedd yn fwy penodol i'r prosiectau dan sylw:

- soniodd un prosiect y byddai cael undeb amaethwyr yn rhan o'r prosiect wedi helpu i sefydlu perthnasoedd â ffermwyr lleol yn gynharach
- byddai prosiect arall wedi elwa o gontract cyfreithiol gyda CNC
- roedd prosiect arall yn teimlo bod rhywfaint o ddatgysylltiad o fewn y sefydliadau a gynrychiolir ar eu partneriaeth ac nad oedd unigolion o reidrwydd yn gwneud y cysylltiadau angenrheidiol yn eu sefydliadau

eu hunain, gan arwain at ddiffyg parhad, neu orfod aildrafod yr un pethau pan fyddai gwahanol aelodau o staff yn mynychu cyfarfodydd

- roedd un prosiect o'r farn y gallai ei broses gwneud penderfyniadau fod wedi bod yn fwy democrataidd o'r cychwyn cyntaf er bod ganddo broses benderfynu dryloyw ar waith bellach
- roedd ambell brosiect yn teimlo bod rhai partneriaid yn chwarae mwy o ran nag eraill ac yn tynnu sylw at bwysigrwydd parhau i ymgysylltu â'r gymuned drwyddi draw.

8.29 Er gwaethaf y cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â chyflawni prosiectau ar raddfa'r dirwedd, a'r materion gweinyddol a godwyd eisoes yn yr adroddiad hwn, roedd y prosiectau a gyfwelwyd yn gyffredinol yn teimlo bod eu modelau cyflawni yn effeithiol ac yn effeithlon a bod hyder yng ngalluoedd prosiectau i gyflawni yn unol â'r bwriad.

8.30 Soniodd sawl prosiect am effaith oedi ar gyflawni prosiectau - gyda rhai prosiectau'n colli blwyddyn neu dymor cyflawni llawn. Roedd y pandemig Covid-19 a'r llifogydd a welwyd mewn rhai rhannau o Gymru wedi gwaethygu'r materion hyn mewn rhai achosion. Roedd teimlad bod ceisiadau am estyniadau ar gyfer cyllid yn araf i gael eu prosesu ac weithiau roedd diffyg dealltwriaeth o'r sgil-effaith mewn prosiectau amgylcheddol (h.y., nad yw'n bosibl symud cynllun prosiect ymlaen dri mis). Roedd hyfforddiant ac ymgysylltu â'r gymuned neu addysg yn agweddau penodol na allai sawl prosiect eu cyflawni mwyach oherwydd oedi.

**Hyd a lled y cydweithio â phrosiectau SMS eraill**

8.31 Nododd cyfanswm o 13 o blith y 22 o brosiectau a gymerodd ran yn yr arolwg eu bod wedi bod yn gysylltiedig â phrosiectau eraill a ariannwyd gan yr SMS, ond nid oedd hynny'n wir am y naw arall. Prif fanteision cydweithio â phrosiectau eraill a ariannwyd gan yr SMS oedd:

- datblygu cysylltiadau defnyddiol ar gyfer y dyfodol (11 o ymatebwyr)
- cyfle i gael dealltwriaeth o brosiectau eraill (11 o ymatebwyr)

- mynediad at gyngor gwerthfawr gan brosiectau eraill (naw ymatebydd)
- gwell dealltwriaeth o'r hyn y mae'r SMS yn ei ariannu (wyth ymatebydd)
- cael dealltwriaeth o ddulliau rheoli tir eraill (saith ymatebydd).

8.32 Nodwyd mai'r prif wahaniaeth yr oedd cydweithio â phrosiectau SMS eraill wedi'i wneud i'w prosiect eu hunain oedd:

- dysgu am arfer da (e.e., yn ymwneud â methodolegau gwerthuso), dulliau cyflawni arloesol a pheryglon y credwyd eu bod wedi arwain at arbed amser ac adnoddau i'r prosiectau
- sicrhau mynediad at gyfle datblygiad proffesiynol i reolwyr prosiectau
- cyfle i ategu ei gilydd, ymchwilio i synergeddau ac osgoi dyblygu ymdrechion
- sicrhau mynediad at gefnogaeth foesol a chyfle i drafod heriau cyffredin, yn enwedig o ran proses hawlio'r SMS: 'mae wedi bod yn ddefnyddiol siarad â phrosiectau SMS eraill yn yr un sefyllfa [a] rhannu'r boen o geisio gweithio ar brosiectau SMS heb fawr o gymorth gan Lywodraeth Cymru'.

8.33 Mae tystiolaeth gan brosiectau a gyfwelwyd yn awgrymu bod cydweithio â phrosiectau SMS eraill wedi digwydd yn anffurfiol, yn enwedig rhwng y nifer o brosiectau adfer mawndir a ariannwyd yn ystod y cyfnod cyllido cyntaf a'r ail. Rhannodd y prosiectau hyn syniadau gan gydweithio'n agos, ac anfon unigolion i helpu i reoli tân mewn un gyrchfan hyd yn oed. Mae'r prosiectau hyn hefyd wedi edrych ar rannu technegau mewn perthynas ag adfer mawnogydd.

8.34 Cyfeiriodd sawl prosiect a gyfwelwyd at grŵp Ymarferwyr SMS Gogledd Cymru yn benodol, fel un a oedd wedi dod â phrosiectau SMS yn y rhanbarth at ei gilydd. Mae'r grŵp hwn wedi cyfarfod yn rheolaidd dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac wedi darparu cyfleoedd i drafod problemau a phryderon cyffredin, ac i rannu arfer da.

8.35 Roedd rhai prosiectau'n cofio rhwydwaith o brosiectau SMS ledled Cymru a oedd yn cyfarfod fel arfer yng Nghaerdydd neu Abertawe, yn y camau cynnar. Roedd y cyfarfodydd hyn wedi bod yn ddefnyddiol, ac awgrymodd sawl cyfrannwr y byddai mwy o gyfleoedd i rwydweithio, i ymweld â phrosiectau ac i alluogi cymheiriaid i ddarparu cymorth i'r naill a'r llall wedi bod yn ddefnyddiol. Soniodd ambell gyfrannwr bod grŵp Yammer wedi'i sefydlu ar gyfer y prosiectau SMS a oedd, er bod ganddo botensial, wedi bod yn gyfyngedig o ran ei werth gan nad oedd yn cael ei ddefnyddio gan ddigon o bobl.

8.36 Nid oedd sawl prosiect wedi cydweithredu ag unrhyw brosiectau SMS eraill. Teimlai rhai na fu digon o anogaeth i wneud hyn, ac nid oedd eraill wedi mynd ar drywydd hyn oherwydd pwysau amser neu oherwydd nad oeddent yn teimlo bod prosiectau tebyg yn cael eu hariannu drwy'r SMS a oedd yn gwneud yr un gwaith ar yr un raddfa.

8.37 Darparwyd rhai enghreifftiau o brosiectau SMS yn gweithio gyda rhwydwaith ehangach o brosiectau nad oeddent yn cael eu hariannu'n uniongyrchol drwy'r SMS. Er enghraifft, roedd rhai prosiectau SMS ag elfen TWE wedi cydweithio'n agos drwy grŵp rhanddeiliaid TWE i rannu'r hyn a ddysgwyd. Ar hyn o bryd roeddent yn rhan o drafodaethau i ddatblygu system lywodraethu gydweithredol ar gyfer TWE yng Nghymru. Soniodd dau brosiect eu bod hefyd yn rhannu arbenigedd ar ddulliau TWE gyda phrosiectau yng Ngweriniaeth Iwerddon a bod hyn yn fuddiol.

8.38 Roedd ambell brosiect SMS yn ymgysylltu â phrosiectau Glastir a ariannwyd o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig neu roeddent yn gweithredu sawl prosiect Rhaglen Datblygu Gwledig eu hunain ochr yn ochr â'r prosiect SMS ac felly roeddent yn gallu dod â phrofiad cyfunol ac arfer da ynghyd. Cyfeiriodd ambell brosiect at drefniadau cydweithio a oedd ar y gweill gyda phrosiectau lleol eraill yn eu hardal neu eu dalgylch (e.e. prosiectau LEADER lleol) neu gyda choleg AB lleol.

**Cynaliadwyedd trefniadau cydweithredol**

8.39 Roedd pob ymatebydd i'r arolwg heblaw un yn rhagweld y byddai'r cydweithio rhwng partneriaid y prosiect yn parhau ar ôl y cyfnod cyllido. Nid oedd yr un prosiect arall yn gwybod. Roeddent yn rhagweld y byddai cydweithio rhwng partneriaid prosiect yn cael ei gynnal drwy:

- drefniadau gweithio mewn partneriaeth presennol o ystyried awydd partneriaid i barhau i ymwneud â'r prosiect
- parhad gweithgaredd y prosiect y tu hwnt i ddiwedd y cyfnod a ariennir, gan gynnwys drwy fewnbwn gan wirfoddolwyr
- cytundebau partneriaeth ffurfiol, gan gynnwys sefydlu endidau cyfreithiol ar gyfer partneriaid prosiect
- ceisiadau cyllido eraill a chyfleoedd prosiect, gan gynnwys mewn un achos y potensial i gyflwyno'r prosiect SMS ar dirwedd ehangach
- newid mewn meddylfryd ac agweddau: 'ar ôl i chi fod yn rhan o SMS, rydych chi wir yn teimlo ychydig o gywilydd o'r ffordd rydych chi wedi bod yn gweithredu o'r blaen. Nid yw'n ymwneud â chi yn unig, mae'n ymwneud â phawb a gall bywyd fod yn llawer o hwyl drwy wneud pethau gyda'ch gilydd'
- ehangu nifer a chwmpas y partneriaid sy'n ymwneud â gweithgareddau yn y dyfodol.

8.40 Gofynnwyd i brosiectau a ariannwyd a gafodd eu cyfweld yn ystod y gwaith maes pa mor gynaliadwy yn eu barn nhw oedd eu trefniadau cydweithredol ar gyfer y dyfodol (ar ôl i gyllid SMS ddod i ben). Nododd dros hanner y prosiectau a gyfwelwyd awydd cryf i barhau â'u partneriaeth ond yn aml nid oedd ganddynt gynlluniau penodol ar waith eto:

- 'yn y pen draw, rydym am weld y bartneriaeth yn cael ei strwythurau ei hun - ac mae hyn yn dechrau siapio'
- 'nid ydym wedi ffurfio unrhyw gymdeithas swyddogol [nac] wedi gwneud cais am unrhyw gyllid pellach ond mae yna ymdeimlad o gymuned rhyngom'

- 'byddwn yn parhau ar ôl yr SMS. Mae'r aelodau'n sicr o hynny. Rydym yn cael trafodaethau gan edrych i'r dyfodol'

8.41 Roedd pum prosiect arall yn credu'n gryf eu bod yn gynaliadwy y tu hwnt i'r SMS ac y byddai hyn yn cael ei gyflawni oherwydd y sgiliau a'r arbenigedd a ddatblygwyd o fewn prosiectau ac oherwydd bod cynaliadwyedd ariannol wedi'i ymgorffori yn y broses. Er enghraifft, roedd prosiect a oedd yn gweithio gyda busnesau lleol yn sicrhau contractau yn y dyfodol ar gyfer cost gwaith amgylcheddol neu reoli gwaith yn barhaus. Roedd prosiect arall yn ymwneud â choetir yn chwilio am ddull o gynhyrchu incwm drwy bortffolio o gynlluniau gan gynnwys drwy gontractau ar gyfer dodrefn, buddsoddi mewn peiriannau a fyddai'n galluogi gwaith i barhau, ac ysgogi buddsoddiad ychwanegol i'r ardal ar gyfer gweithgareddau gwahanol a phenodol (yn hytrach na chynnal prosiect arall ar raddfa fawr). Disgrifiodd prosiect rheoli mawndir gyfleoedd ar gyfer hyfforddiant ffermio mynydd yn seiliedig ar gynllun peilot yn yr Alban a allai gynnal y prosiect drwy weithgareddau wedi'u harwain gan ffermwyr.

8.42 Soniodd sawl prosiect am ei awydd i wneud cais am gyllid Glastir yn y dyfodol tra bod o leiaf bedwar yn ceisio sicrhau taliad am gontractau gwasanaethau ecolegol (TWE) i gryfhau'r economi a'r amgylchedd gwledig erbyn diwedd y prosiect. Disgrifiodd rhai partneriaethau sut yr oeddent hefyd yn ymchwilio i gyfleoedd cyllido newydd ar hyn o bryd gan y byddai'n anodd parhau heb gyllid parhaus. Roedd prosiectau eraill a gyfwelwyd yn llai sicr o'u cynaliadwyedd yn y tymor hwy:

- 'mae dyfodol y prosiect yn ansicr ar hyn o bryd'.
- 'mae cwestiynau ynghylch dyfodol hirdymor y bartneriaeth'.

# 9. Canfyddiadau'r gwaith maes: Cyflawniadau a chanlyniadau

9.1 Mae'r bennod hon yn ystyried perfformiad yr SMS hyd yn hyn, rhai sylwadau cychwynnol am y canlyniadau cynnar sy'n cael eu cyflawni, a'r gwersi a ddysgwyd hyd yma. Mae'n seiliedig ar farn rhanddeiliaid, a barn arweinwyr prosiectau ac unigolion allweddol eraill a gafodd eu cyfweld sydd wedi ymgysylltu â'r rhaglen SMS.

**Y perfformiad hyd yma**

9.2 Dim ond tri phrosiect a ariennir gan SMS sydd wedi cael eu cwblhau ar hyn o bryd felly mae'n rhy gynnar i adrodd ar berfformiad manwl yn erbyn allbynnau ar draws y rhaglen. Fodd bynnag, nododd y prosiectau a gafodd eu cyfweld yn ystod y cam hwn o'r gwaith ymchwil a oedd bron â chyrraedd diwedd eu cyfnod cyllido fod pethau'n dod yn eu blaen yn dda. Roedd y prosiectau hyn ar y trywydd iawn i gyflawni'r rhan fwyaf o'u hallbynnau neu dargedau amgylcheddol, neu ragori arnynt, megis ffensio, plannu coed, ailosod gwrychoedd, clirio prysgwydd, creu pyllau bas a choridorau ar gyfer bywyd gwyllt, adeiladu ceuffosydd neu leiniau atal tân. Darparwyd rhai enghreifftiau penodol a mesuradwy yn ystod cyfweliadau gan gynnwys:

- rheoli 8 hectar o gynefin grug yn llwyddiannus
- cyrraedd y targed ar gyfer plannu gwrychoedd
- ymgymryd â thros 320 hectar o waith rheoli rhedyn
- ailwlychu ac ailblannu llystyfiant dros 60 hectar o fawndir
- adeiladu 18km o ffensys a 9km o wrychoedd newydd neu adnewyddu hen wrychoedd
- plannu 3 hectar o goed newydd a diogelu 5 hectar arall o goed sydd eisoes yn bodoli
- adfer 100 hectar o goetir (yn erbyn targed o 18 hectar)

**Astudiaeth achos: Manteision ac effeithiau**

Roedd y prosiect Trwy'r Twyni Tywod yn cwmpasu systemau twyni tywod y Warchodfa Natur Genedlaethol ym Merthyr Mawr a Chynffig yn ogystal â thir fferm a chyrsiau golff yr ardal. Ar un adeg roedd y ddwy system twyni digyswllt yn rhan o system lawer mwy a oedd yn ymestyn o aber Ogwr i benrhyn Gŵyr. Dros amser maent wedi tyfu'n wyllt ac wedi datgysylltu a bellach mae tref glan môr Porthcawl yn eu gwahanu.

Un elfen allweddol o'r prosiect oedd gwella ffiniau caeau a ffermydd rhwng y ddwy system twyni i sicrhau coridorau bywyd gwyllt a chaniatáu i rywogaethau deithio rhwng y ddwy ardal. Atgyweiriwyd 66 m o wal gerrig, ac ailosodwyd 250 m o wrychoedd.

Elfen bwysig arall oedd gwella cynefinoedd. Roedd hyn yn cynnwys clirio prysgwydd a chreu cynefinoedd tywod rhydd newydd. O ganlyniad, gwelwyd adfywiad yn niferoedd Tegeirian y Fign Galchog sydd dan fygythiad, ac sydd ond i'w gweld mewn llond llaw o leoedd yn y DU, a dim ond yng Nghynffig yng Nghymru, gyda'r niferoedd yn codi o oddeutu 200 yn 2011 i dros 4000 yn 2019. Yn ogystal, mae creu llaciau newydd wedi cynyddu nifer ac amrywiaeth y blodau gwyllt sy'n bresennol ac wedi cynyddu nifer ac amrywiaeth y pryfed, yn enwedig gwenyn. Un rhywogaeth nodedig yw'r Gardwenynen Feinlais, rhywogaeth arall sydd mewn perygl ac ond i'w gweld mewn 5 ardal yn y DU. Drwy wella cynefinoedd a chysylltedd, gall y wenynen unig hon ffynnu ac ymestyn ei thiriogaeth a'i throedle. Cofnodwyd 72 o Gardwenyn Meinlais yn 2019.

9.3 Roedd prosiectau eraill a oedd yn dal yn eu blwyddyn gyntaf yn dal i drefnu gweithgareddau, dyrannu cyllidebau, a threfnu gwaith cytundebol. Soniodd ambell brosiect ei fod ar ei hôl hi neu bod ganddo danwariant ac roedd yn gwneud cais am ychydig fisoedd o estyniad er mwyn cyflawni'r gwaith.

9.4 Yn ddealladwy, nid oedd rhai targedau a oedd yn ymwneud â gweithgareddau fel hyfforddiant, cynnal gweithdai neu gynnal ymweliadau ymgysylltu â rhanddeiliaid, ymweliadau ag ysgolion a gweithgareddau cymunedol eraill mewn rhai prosiectau wedi'u cyflawni yn ôl y disgwyl, yn bennaf oherwydd effaith Covid.

**Astudiaeth achos: Manteision ac effeithiau**

Mae Ystâd Ddiwydiannol Wrecsam yn gartref i oddeutu 350 o fusnesau, sy'n cyflogi tua 10,000 o bobl. Mae'n cwmpasu 550 hectar ac mae'n un o'r ystadau diwydiannol mwyaf yn Ewrop. Mae'r lleoliad gwledig yn adnabyddus am ei fioamrywiaeth benodol sy'n cynnwys y Gwibiwr Brith, Tegeirian y Wenynen, y Fadfall Gribog, moch daear, dyfrgwn, y wennol, yr ysgyfarnog, gwas neidr tindrwm, y boplysen ddu yn ogystal â choetiroedd hynafol.

Mae'r prosiect Bioamrywiaeth a Busnes, dan arweiniad Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru wedi gweithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, CNC a'i sefydliadau etifeddol blaenorol, busnesau, sefydliadau arbenigol, Bug Life, Gwarchod Glöynnod Byw Cymru, Gwarchod Amffibiaid ac Ymlusgiaid, Cymdeithas Gwas y Neidr Prydain, Sw Caer, yn ogystal â pherchnogion tir, gwirfoddolwyr, myfyrwyr, grwpiau cymunedol, cwmnïau ymgynghori ecolegol, a chontractwyr.

Mae cydweithio rhwng busnesau yn unigryw o fewn y model cyflawni ar gyfer y prosiect Bioamrywiaeth a Busnes. Mae dod i adnabod y bobl iawn a chael cydweledigaeth wedi bod yn allweddol. Mae safleoedd lliniaru colli cynefinoedd gyda chwmnïau yn gorfod gwneud iawn am ddatblygiadau newydd hefyd wedi bod yn ysgogiad defnyddiol. Mae'r rhain i gyd wedi troi'n ganlyniadau pendant sy'n cynnwys y canlynol:

- Mae Hauck UK yn gweithio i helpu'r glöyn byw prin, y gwibiwr brith. Mae'r ardal wedi'i gwella ar gyfer y glöyn byw yn ogystal â gwarchod tegeirian y wenynen, ac mae blychau gwenoliaid yn cael eu gosod i helpu'r rhywogaeth hon o adar y mae eu niferoedd yn lleihau.
- Mae Hoya Lens UK wedi gweithio gyda'r prosiect i greu gwarchodfa natur newydd a llwybrau a chynefinoedd newydd

- Cydweithiodd Rowan Foods i ymgymryd â gwelliannau er budd gweithwyr a bywyd gwyllt, gan greu ardal bicnic, blwch ar gyfer y dylluan wen, plannu cennin Pedr a rheoli tiroedd
- Mae Village Bakery yn cydweithio ar sawl prosiect gan gynnwys safle lliniaru newydd.

Fel y dywedodd un perchennog busnes: 'Roeddem yn awyddus i wella bioamrywiaeth i gwsmeriaid a staff; rydym yn ymwybodol ein bod yn defnyddio swm sylweddol o adnoddau fel cwmni ac eisiau gwneud cyfraniad cadarnhaol at gynaliadwyedd... mae wedi arwain at fanteision cadarnhaol i'r staff hefyd. Mae dros 1000 o bobl yn dod ar y safle bob wythnos ac rydym yn gwybod eu bod yn sylwi ar y newidiadau amgylcheddol wrth iddynt ddod i mewn i'r gwaith, y lleiniau blodau gwyllt, y gwrychoedd, y byrddau picnic. Rydym am i bobl feddwl am eu hardal a meddwl yn wahanol; teimlo'n rhan o gymuned ar yr ystâd ddiwydiannol.'

**Y canlyniadau a'r effeithiau**

9.5 Er nad yw cofnodi effaith y rhaglen yn un o amcanion yr adroddiad damcaniaeth newid a gwerthusiad proses hwn, mae'n werth edrych ar y dystiolaeth a gasglwyd hyd yma ar y cyfraniad y mae'r SMS yn ei wneud at ganlyniadau disgwyliedig y rhaglen.

*Canlyniadau amgylcheddol*

9.6 Roedd prosiectau a gyfwelwyd yn gallu darparu enghreifftiau o sut roedd gweithgaredd a ariannwyd gan yr SMS:

*yn gwella adnoddau naturiol drwy*:

- leihau effaith nitradau yn cyrraedd cyrsiau dŵr, helpu ffermwyr i ddeall effeithiau eu gweithgareddau a gwella ansawdd dŵr
- gweithio gyda 24 o ffermydd mewn tri dalgylch i ddarparu cyngor arbenigol a chynllunio busnes fel y gallant ffermio'n fwy costeffeithiol ac effeithlon yn ogystal ag er budd yr amgylchedd.
- adfer glannau afonydd gan ddefnyddio pren a byrnau tocion i fynd i'r afael ag erydiad pridd

*creu cysylltedd rhwng ecosystemau drwy:*

- greu coridorau clir mewn rhostir ar gyfer bywyd gwyllt gan gynnwys adar a mamaliaid gwarchodedig
- tocio coed a chael gwared ar rannau o wrychoedd sydd wedi helpu i wella'r system ffosydd
- sefydlu dôl barhaol
- gosod blychau adar mewn tocbrennau i helpu'r boblogaeth adar nes i'r tocbrennau ddechrau tyfu eto

*cynyddu maint/graddfa ecosystemau drwy:*

- greu gwlyptiroedd ychwanegol
- glanhau ffosydd er mwyn cynyddu eu capasiti
- rheoli rhywogaethau estron goresgynnol fel Jac y Neidiwr a chlymog Japan

*gwella iechyd/cyflwr ecosystemau drwy:*

- wella iechyd cynefinoedd grug fel eu bod yn well i adar sy'n nythu ar y ddaear
- adnewyddu perllannau traddodiadol, cael gwared â mieri, a phlannu coed newydd
- hyrwyddo bioamrywiaeth rhostir - ac adnabod 70 o wahanol rywogaethau adar.

**Astudiaeth achos: Manteision ac effeithiau**

Mae'r gwaith a wnaed gan brosiect Golygfa Gwydyr yng Nghonwy wedi cynnwys rhywfaint o waith addysgol a dehongli. Mae wedi llwyfannu cynyrchiadau theatrig, diwrnodau agored a digwyddiadau eraill yn y goedwig sydd wedi cyfrannu'n sylweddol at gysylltu'r gymuned leol â'r goedwig.

Mae cael rhaglen amrywiol wedi eu helpu'r prosiect i gysylltu â gwahanol grwpiau ac i gynyddu cydlyniant cymdeithasol. Er enghraifft, roedd

gwerthu logiau yn lleol yn caniatáu i'r prosiect ymgysylltu â gwahanol unigolion a'u hysbysu am y gweithgareddau eraill yr oeddent yn eu gwneud yn y goedwig. Hefyd, roedd cynnal un gweithgaredd yn ennyn diddordeb pobl mewn rhywbeth arall; er enghraifft, adeiladodd y Sied Dynion focsys plannu wedi'u gwneud o bren a arweiniodd at sefydlu grŵp Naddu a Gwaith Coed i Fenywod a chynhyrchu llwyau pren.

Mae cyflogi trigolion lleol i weithio ar y prosiect wedi helpu i ddatblygu sgiliau a hyder.

Bu Golygfa Gwydyr yn ymwneud yn helaeth â chefnogi grwpiau ac unigolion â phroblemau iechyd meddwl. Er enghraifft, mae'r prosiect wedi gweithio â grwpiau fel Mind Aberconwy a Phrifysgol Bangor ac wedi trefnu sesiynau Ymwybyddiaeth Ofalgar. Mae'r cyllid SMS hefyd wedi arwain at sefydlu mentrau newydd, er enghraifft Grŵp Therapi Natur, sydd bellach yn cynnal sesiynau yn y goedwig. Yn y pen draw, bydd hwn yn dod yn grŵp hunanariannu.

Mae Golygfa Gwydyr yn dangos y gall menter gymdeithasol fach ymgymryd â gwaith rheoli coedwigaeth i safon uchel yn ogystal â gwneud cyfraniad sylweddol iawn at amcanion cymdeithasol, iechyd a llesiant. Mae tîm y prosiect yn teimlo bod yr SMS, yn ddiamau, wedi ei helpu i ymsefydlu a chynyddu effeithiolrwydd eu gwaith allgymorth.

*Manteision cymdeithasol*

9.7 Roedd y prosiectau a gyfwelwyd yn gallu darparu sawl enghraifft o fanteision cymdeithasol a ddeilliodd o weithgaredd prosiectau SMS. Roeddent yn cynnwys:

- adeiladu ymyriadau ffisegol fel clogfeini a lleiniau atal tân gan leihau difrifoldeb tanau gwyllt a gweld gostyngiad mewn troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr ardal
- gweithio gyda phanel o ddefnyddwyr i ddatblygu awgrymiadau am lwybrau cerdded, creu lle parcio newydd a gwella arwyddion fel y gall ymwelwyr ddefnyddio'r ardal ond cadw at drac addas

- darparu mwy o fynediad at ddarnau o dir ac ymgysylltu â'r gymuned leol i egluro gweithgareddau a hyrwyddo defnydd cyfrifol o'r tir i wella eu llesiant
- cynnig gweithgareddau ymwybyddiaeth ofalgar i'r gymuned gan gynnwys therapi natur a chwnsela mewn grŵp er mwyn gwella iechyd meddwl
- sefydlu banc bwyd yn ystod yr achosion o Covid i helpu pobl agored i niwed yn yr ardal
- darparu sgiliau, hyfforddiant a chyfleoedd gwirfoddoli e.e. hyfforddi 56 o fusnesau lleol a busnesau twristiaeth i ddod yn Llysgenhadon Mynydd a Rhostir
- ailagor canolfan dreftadaeth bwysig y gall pobl leol ymweld â hi eto a'i defnyddio. Mae eisoes yn cael ei defnyddio ar gyfer cyfarfodydd a theithiau tywys

**Astudiaeth achos: Manteision ac effeithiau**

Agwedd bwysig ar brosiect Ucheldiroedd Cadarn De-ddwyrain Cymru yw lleihau troseddau tirwedd ar y rhostiroedd. Ers blynyddoedd, mae problemau gyda thipio anghyfreithlon, llosgi bwriadol a gyrru oddi ar y ffordd yn anghyfreithlon wedi bod yn bla yn yr ardal: 'Mae yna ddatgysylltiad rhwng y tir a'r bobl - dydyn nhw ddim yn gwerthfawrogi'r dirwedd, ond rydyn ni'n rhoi cynnig ar ffyrdd arloesol o wella hyn'.

Mae'r prosiect wedi mabwysiadu dull partneriaeth sy'n gweithio gyda'r heddlu, gwasanaethau tân ac eraill sydd â chysylltiadau agos â grŵp Troseddau Tirwedd dan arweiniad yr Aelod Seneddol lleol.

Mae'r prosiect wedi cyflwyno sawl ymyrraeth ffisegol - clogfeini a lleiniau atal tân ar raddfa eang i leihau difrifoldeb unrhyw danau gwyllt. Bellach mae gan ffermwyr gamerâu corff a phan gaiff y drwgweithredwyr eu dal, dangosir effaith eu gweithgaredd ar y fferm iddynt yn uniongyrchol.

Mae'r gymuned leol eisoes yn gwneud mwy o ddefnydd o'u tirwedd leol, wedi'i gynorthwyo'n rhannol gan effaith y pandemig o ran cael pobl i

ymchwilio i ardaloedd yng nghefn gwlad sydd ar garreg eu drws. Mae glanhau'r ardal wedi ei gwneud yn fwy dymunol i bobl leol ei mwynhau. Mae'r prosiect yn bwriadu mynd ymlaen i gam 2 a bydd yn parhau i ganolbwyntio ar droseddau tirwedd.

*Manteision economaidd*

9.8 Disgrifiwyd rhai datblygiadau arloesol a diddorol hefyd gan brosiectau a gyfwelwyd fel rhai a allai greu effaith economaidd. Amlygodd sawl prosiect sut roeddent yn cyfrannu at fwy o wariant yn y gymuned leol drwy ddefnyddio contractwyr lleol fel mecanyddion, cyflenwyr adeiladwyr, a dylunwyr gwe ar gyfer yr holl weithgaredd posibl gyda chefnogaeth SMS. Honnodd y prosiectau fod y gwariant ychwanegol hwn yn rhoi hwb mawr ei angen i'r economi leol. Disgrifiodd rhai prosiectau sut y dylai ymgymryd â phrosiectau cyfalaf leihau'r tebygolrwydd o lifogydd a thrwy hynny leihau'r effaith ar gartrefi a busnesau lleol yn y dyfodol. Teimlai prosiectau eraill y byddai'r gwelliannau a wnaed i'r dirwedd yn denu mwy o ymwelwyr a thrwy hynny gynyddu gwariant lleol. Llwyddodd un prosiect penodol i ddisgrifio sut yr oedd wedi sicrhau cytundeb TWE gyda Heathrow Airport Holdings a fyddai’n dod ag £20,000 i’r economi leol ac roedd hefyd mewn trafodaethau ag Iceland Plc a Marks and Spencers i ddatblygu cyfleoedd ymhellach i ganfod rhagor o gytundebau TWE. Disgrifiodd prosiect arall sut roedd yr SMS wedi caniatáu iddo ganfod ffyrdd o ddenu cwmnïau o'r sector preifat fel Tesco i weithio gydag ef. Barnwyd bod hyn yn 'torri tir newydd', ac yn cyflwyno'r potensial i sicrhau gwerth ychwanegol sylweddol i ffermwyr.

**Astudiaeth achos: Manteision ac Effeithiau**

Nod Partneriaeth Rhostir Powys oedd cyflymu'r gwelliant o'r gwaelod i fyny o oddeutu 20,000 erw o rostir, sy'n ymestyn o Ddyffryn Llanddewi Nant Hodni yn y De i Gomin Bugeildy yn y Gogledd. Wrth wraidd y prosiect roedd tîm o geidwaid rhostir amser llawn, yn creu cyflogaeth wledig werthfawr ac yn atgyfodi sgiliau anghofiedig a'u hailgyflwyno i'r rhostiroedd hyn.

Sefydlwyd menter *Hooftrek* i hyrwyddo'r defnydd o ferlod mynydd gwyllt Cymru fel anifeiliaid pwn i'r rhai sy'n heicio yng Nghanolbarth Cymru. Mae Ireland Moor Conservation Limited yn unigryw o ran cynnal hen linachau gwreiddiol merlod mynydd Cymru, rhai yn dyddio'n ôl filoedd o flynyddoedd. Mae'r fuches yn pori ar amrywiol blanhigion nad yw'r defaid yn pori arnynt (fel eithin ifanc) gan gyfrannu at gynefin corlwyni agored y Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGa) hyn. Ar un adeg roedd galw mawr am y merlod ledled y wlad, ond gyda chost gynyddol microsglodynnu a phasbortau ar gyfer y merlod gwyllt, ychydig iawn o werth sydd i'r ebolion, ac ebolion gwryw yn benodol, ac roedd y niferoedd yn lleihau ar y rhostir. Drwy weithio gyda *Hooftrek* mae'r bartneriaeth wedi dod o hyd i ddyfodol newydd i'r brîd, a marchnad y gallai ardaloedd eraill fel Exmoor a Dartmoor ymchwilio iddi i helpu i achub eu merlod brodorol hwythau hefyd.


Mae'r grŵp wedi gweithio gyda gwenynwyr lleol i ganiatáu iddynt osod cychod gwenyn ar y rhostir i wneud y gorau o'r cynefin grug a chynhyrchu mêl lleol arbenigol. Drwy weithio gyda'r gwenynwyr, maent wedi sicrhau bod y cychod gwenyn yn cael eu gosod mewn lleoliadau addas, draw o lwybrau cerdded prysur a rhannau mwy sensitif o'r rhostir.

**Themâu trawsbynciol**

9.9 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i'r arolwg nodi'r cyfraniad yr oeddent yn disgwyl i'w prosiect ei wneud at dair thema drawsbynciol Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 yn ogystal â strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050. Nodir y canfyddiadau yn Ffigur 9.1 ac nid yw'n syndod o bosibl eu bod yn dangos bod pob ymatebydd ond un yn disgwyl i'w prosiect wneud cyfraniad cadarnhaol tuag at thema datblygu cynaliadwy. Er bod y mwyafrif o'r farn y byddai eu prosiect yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at y ddwy thema drawsbynciol arall, mae'n werth nodi nad oedd traean (naw ymatebydd) yn disgwyl i'w prosiect gael unrhyw effaith benodol ar y thema cyfle cyfartal a phrif ffrydio rhywedd. Roedd tua dwy ran o dair yn disgwyl i'w prosiect wneud cyfraniad cadarnhaol tuag at

strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, ac roedd traean o'r prosiectau nad oeddent yn disgwyl gwneud hynny.

**Ffigur 9.1: Cyfraniad disgwyliedig prosiectau SMS at themâu trawsbynciol a'r strategaeth Cymraeg 2050**




Ffynhonnell: Arolwg ar y we gan OB3 (22 o ymatebion)

*Themâu trawsbynciol*

9.10 Mae tystiolaeth a ddarparwyd gan brosiectau a gyfwelwyd yn awgrymu bod yr SMS yn cofleidio ac yn cyflawni tair Thema Drawsbynciol y Cynllun Datblygu Gwledig, sef

- Cyfle Cyfartal
- Datblygu Cynaliadwy
- Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol.

9.11 O ran y thema drawsbynciol cyfle cyfartal, roedd enghreifftiau penodol yn cynnwys:

- cyflogi menywod sydd â sgiliau llif gadwyn mewn prosiect coetir
- cyflogi prentisiaid a phobl ifanc mewn sawl prosiect
- gwella mynediad i'r awyr agored mewn cymuned ddifreintiedig a

9.12 Teimlai sawl cyfrannwr fod y thema drawsbynciol 'Datblygu Cynaliadwy' wedi'i hymgorffori'n ddwfn yn yr SMS, gyda llawer o sylwadau'n awgrymu bod 'popeth yr ydym wedi'i wneud yn cyfrannu at hyn' gyda phrosiectau yn anelu at gyfrannu at gyflawni anghenion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol heddiw heb niweidio'r anghenion hyn ar gyfer y dyfodol. Amlygodd y prosiectau enghreifftiau fel:

- gwella coetir a chanfod canlyniadau economaidd cydymdeimladol
- gweithgaredd gwrthsefyll llifogydd e.e., gwella systemau twyni a chadwraeth mawndir
- dull cynaliadwy o reoli ucheldiroedd
- datblygu modelau economaidd newydd ar gyfer ffermio er mwyn ei wneud yn fwy cynaliadwy.

9.13 Roedd y thema drawsbynciol trechu tlodi ac allgáu cymdeithasol hefyd yn un yr oedd y prosiectau'n teimlo eu bod yn gallu ymateb iddi. Mae llawer o'r prosiectau'n gweithio mewn ardaloedd o amddifadedd neu mewn ardaloedd gwledig lle ceir pocedi o amddifadedd, incwm isel ac ynysigrwydd cymdeithasol. O'r herwydd, roedd y prosiectau'n teimlo bod y thema drawsbynciol hon yn flaenoriaeth uchel iddynt gyda llawer o'u gweithgareddau'n cyfrannu at gefnogi'r meysydd hyn i ddatblygu budd cymdeithasol ac economaidd fel rhan o'u gwaith o ddydd i ddydd. Ymysg yr enghreifftiau roedd:

- cyflogi pobl leol i sicrhau bod 'arian yn mynd yn ôl i'r economi leol' drwy gontractau. Soniodd un prosiect fod dros hanner cant o fusnesau lleol wedi elwa o wariant y prosiect
- gweithio gyda chontractwyr lleol lle bynnag y bo modd i gefnogi'r economi leol
- creu cyfleoedd economaidd newydd i ffermwyr sy'n rheoli coetiroedd
- gwella mynediad i fannau yn yr awyr agored neu'r arfordir
- cysylltu ffermwyr ar yr ucheldir er mwyn lleihau ynysigrwydd ac annog mwy o wytnwch a chydweithrediad ymhlith preswylwyr

- cyfrannu at raglen ymgysylltu â gwyliau ysgol.

*Cyfraniad at y Gymraeg*

9.14 Rhoddodd sawl prosiect enghreifftiau o sut yr oeddent yn cydymffurfio â'u polisi iaith Gymraeg a bod arwyddion, gwefannau a deunyddiau hyrwyddo a chyhoeddiadau bob amser yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog. Soniodd ambell brosiect hefyd ei fod yn gweithredu'n ddwyieithog ac yn mynd ati i chwilio am gyfleoedd i gyflawni eu gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg.

9.15 Mae llawer o brosiectau yn gweithredu mewn ardaloedd lle mae cyfran uchel o siaradwyr Cymraeg ac o'r herwydd byddent yn gweithredu'n naturiol drwy gyfrwng y Gymraeg, gyda sgyrsiau, cyfarfodydd a chyfathrebu â pherchnogion tir a rhanddeiliaid eraill yn aml yn digwydd drwy gyfrwng yr iaith, a gwasanaethau cyfieithu yn cael eu darparu yn ôl yr angen.

9.16 Disgrifiodd nifer o'r prosiectau sy'n gweithio gyda chymunedau ffermio a chymunedau gwledig, yn enwedig yng Ngogledd-orllewin Cymru, sut roedd y prosiect SMS yn gyfle i gryfhau hyfywedd economaidd cymunedau ffermio Cymraeg ac yn gallu cefnogi'r iaith drwy ddod â ffermwyr Cymraeg eu hiaith ynghyd, gan gryfhau cysylltiadau ac o bosibl creu cyfleoedd cyflogaeth newydd a fyddai'n galluogi siaradwyr Cymraeg i aros yn eu cymunedau gwledig yn y dyfodol.

9.17 Disgrifiodd un prosiect sut roedd yr holl gontractwyr yn gontractwyr lleol ac yn siarad Cymraeg, felly roedd yr SMS yn rhoi hwb i'r economi leol ac yn cadw siaradwyr Cymraeg yn yr ardal. Roedd prosiect arall yn ymgymryd â'i holl weithgaredd gweinyddol ar yr SMS drwy gyfrwng y Gymraeg gan dynnu sylw at y ffaith bod yr iaith yn rhan annatod o'r ardal. Roedd y prosiect wedi ymgymryd â gweithgaredd ymgysylltu ag ysgolion lle y trafodwyd y termau Cymraeg ar gyfer planhigion ac adar. Roedd rheolwr y prosiect hefyd wedi cyfrannu at gynhadledd yn y DU ar reoli mawndiroedd drwy gyfrwng Cymraeg.

*Amcanion y Rhaglen Datblygu Gwledig*

9.18 Gofynnwyd i brosiectau a gyfwelwyd hefyd i ba raddau yr oedd eu canlyniadau'n cyfrannu at amcanion trawsbynciol y Rhaglen Datblygu

Gwledig o ran yr amgylchedd; addasu a lliniaru newid yn yr hinsawdd; ac arloesi. Tynnwyd sylw at rai canfyddiadau cynnar cadarnhaol.

9.19 Barnwyd mai Amcan trawsbynciol yr amgylchedd y Rhaglen Datblygu Gwledig a oedd wrth wraidd yr SMS fel dull gweithredu ac felly roedd pob prosiect, yn ei hanfod, yn cyflawni yn erbyn yr amcan hwn. Fodd bynnag, amlygodd prosiectau weithgaredd penodol gan gynnwys:

- rheoli cynefin grug SoDdGA i sicrhau ei fod mewn cyflwr ffafriol a chadw amgylchedd rhostir prin nad oes llawer ohono'n ffynnu yng Nghymru heddiw
- rheoli'r ucheldiroedd mewn ffordd gynaliadwy - yn enwedig drwy reoli rhedyn a rheoli mawndir
- mae darnau helaeth o goetir bellach yn cael eu gwella neu eu rheoli'n gynaliadwy
- gwelliannau i ansawdd dŵr drwy weithgareddau fel ail-lunio ffosydd eisoes yn dangos canlyniadau gyda rhywogaethau dangosol yn ymddangos
- creu ecosystemau newydd neu ecosystemau sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n well gan arwain at gynnydd yn nifer y nadroedd a chynnydd enfawr yn nifer y Tegeirianau prin iawn mewn twyni tywod.

9.20 Roedd addasu a lliniaru newid yn yr hinsawdd yn un o amcanion eraill y Rhaglen Datblygu Gwledig ble y gallai'r prosiectau ddangos canlyniadau cynnar. Cyfeiriodd o leiaf draean o'r prosiectau a gyfwelwyd at weithgareddau a fyddai'n cynorthwyo gydag atal llifogydd - drwy reoli ucheldiroedd neu goetir i leihau dŵr ffo cyflym, cynyddu capasiti'r system ffosydd neu wella storio dŵr llifogydd mewn mawndir a rhostir. Cyfeiriwyd at addasu dulliau rheoli tir i leihau risg tân, gwella ansawdd dŵr, sicrhau aer glanach, cynyddu storio carbon neu amddiffyn rhag erydiad pridd i gyd fel enghreifftiau pellach o ganlyniadau'r SMS yn erbyn yr amcan hwn.

9.21 O ran arloesi, roedd y rhan fwyaf o brosiectau yn teimlo bod eu dull yn arloesol - yn rheoli eu tirwedd ar raddfa o'r gwaelod i fyny drwy ddull wedi'i arwain gan y gymuned. Teimlai rhai o'r prosiectau fod y cynllun SMS yn ei

gyfanrwydd - gyda'i ffocws ar greu canlyniadau cymdeithasol ac economaidd ochr yn ochr â'r rhai amgylcheddol disgwyliedig, yn arloesol ynddo'i hun. Soniodd ambell un sut roedd partneriaid penodol yn eu dull gweithredu yn gallu eu cefnogi wrth iddynt edrych am atebion arloesol neu geisio cyflwyno arloesedd.

9.22 Roedd enghreifftiau penodol yn cynnwys yr ardal ucheldir gyntaf i gael ei chyfrif twitter ei hun ac sydd bellach â mwy o ddilynwyr na rhai o'r ardaloedd rhostir mwy o faint sy'n fwy adnabyddus. Tynnodd prosiect rhostir sylw hefyd at gyfrif a gwefan Instagram a'r defnydd o godau QR yn ei waith dehongli. Roedd dau brosiect yn defnyddio technegau rheoli tir newydd, gan gyflogi gwirfoddolwyr ochr yn ochr ag ymgynghorwyr i gyflawni'r gwaith neu i reoli'r tir mewn ffordd a allai gydbwyso busnes a bioamrywiaeth.

9.23 Teimlai pedwar o'r prosiectau fod elfen TWE eu prosiect yn ei wneud yn hynod arloesol a pherthnasol. Roedd un prosiect yn mabwysiadu agwedd drawsffiniol tuag at reoleiddio ac yn gweithio gyda'r sector preifat i gyflwyno elfennau newydd ac roedd yn rhannu'r gwersi a ddysgwyd gydag Ymddiriedolaethau Afonydd ledled Cymru. Roedd elfen TWE arall mewn prosiect yn ymwneud â gwaith arbrofol gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a rhannu'r hyn a ddysgwyd gyda phrosiect arall wedi'i leoli yn Swydd Efrog. Roedd prosiect arall yn archwilio a datblygu syniad ar gyfer TWE ac eisoes wedi nodi tirfeddianwyr a fyddai'n gallu rheoli eu tir yn well ar gyfer lliniaru llifogydd ac a oedd yn ceisio dyfeisio ffyrdd o'u cysylltu â 'phrynwyr'.

**Ffactorau allanol**

9.24 Amlygwyd dau brif ffactor allanol fel rhai a oedd wedi effeithio ar allu prosiectau i gyflawni eu gwaith yn unol â'r cynllun. Nid yw'n syndod mai dechrau'r pandemig Covid-19 oedd y prif ffactor a gafodd effaith negyddol ar allu prosiectau i ymgymryd â'u gweithgareddau. Roedd sawl prosiect wedi rhoi ei staff ar ffyrlo ac felly roeddent yn gweithio ar lai o gapasiti. Roedd llawer o waith cyfalaf neu waith paratoi gan gontractwyr wedi gallu parhau, ond bu'n rhaid canslo gweithgareddau fel digwyddiadau a

hyfforddiant. Roedd rhai prosiectau wedi gofyn am ragor o amser i gyflawni eu gwaith er mwyn gwneud iawn am effaith y pandemig.

9.25 Nid oedd y mwyafrif yn teimlo bod Brexit yn broblem i brosiectau SMS yn y tymor byr, ond gallai dyfodol ansicr neu ddirywiad economaidd posibl gael effaith. Teimlai sawl prosiect y gallai Brexit ddarparu cyfleoedd cadarnhaol - er enghraifft, cynnydd mewn arosiadau, mwy o botensial i dirfeddianwyr arallgyfeirio a'r gymuned ffermio'n meddwl yn fwy creadigol.

9.26 Teimlai'r cyfranwyr y gallai'r cynllun a oedd yn disodli Glastir effeithio ar eu gwaith ac y gallai cyllid ar gyfer ffermio yn y dyfodol a oedd yn edrych ar ddatblygu dulliau partneriaeth cydweithredol sy'n gweithio ar raddfa'r dirwedd esblygu o weithgareddau SMS cychwynnol. Yn absenoldeb cyllid Ewropeaidd, roedd y cynllun TWE hefyd yn cael ei ystyried yn 'fodel hanfodol, mwy defnyddiol ar gyfer disodli cymhorthdal'.

9.27 Roedd y tywydd wedi effeithio ar ambell brosiect - yn enwedig stormydd Ciara, Dennis a George a'r llifogydd yn gynnar yn 2020. Er enghraifft, adroddodd un prosiect y gwelwyd llai o rugieir a rhydwyr oherwydd hafau sych a llai o gornchwiglod oherwydd eira yn y Gwanwyn.

**Cynaliadwyedd**

9.28 Roedd bron pob un o'r prosiectau a gyfwelwyd yn teimlo y byddai eu gweithgareddau wedi bod yn annhebygol o ddigwydd heb gyllid SMS. Ni fyddai eu canlyniadau wedi cael eu cyflawni heb y cyllid oni bai eu bod wedi sicrhau ffynhonnell gyllido arall. Dywedodd un prosiect fod derbyn 100 y cant o gyllid ar gyfer prosiect yn anarferol a'i fod yn 'caniatáu lefel o ryddid a chreadigrwydd'. Teimlai prosiect arall y byddai wedi cyflawni'r hyn a wnaeth heb y cyllid SMS, ond y byddai wedi cymryd mwy o amser. Fodd bynnag, roeddent yn teimlo bod yr SMS wedi 'ysbrydoli ffordd newydd o weithio, gan feddwl yn llai mewn seilo a llawer mwy o ymgysylltu â'r gymuned'.

9.29 O ran cynaliadwyedd y gweithgareddau yr ymgymerwyd â hwy, roedd y prosiectau'n teimlo ei bod yn anodd rhoi sylwadau ond roedd y mwyafrif wedi ymgorffori strategaethau ymadael ar gyfer cynnal eu seilwaith cyfalaf yn y dyfodol. Roedd llawer o brosiectau wedi sicrhau bod contractau cyfalaf

yn cynnwys cymalau ar gyfer gwaith cynnal a chadw gan dirfeddianwyr am bum, deg neu bymtheng mlynedd. Teimlai prosiectau eraill y dylai'r gwelliannau a wnaed o dan gyllid SMS fod yn hunangynhaliol am ddegawd neu fwy. Teimlai rhai prosiectau y gallent barhau ar raddfa lai gyda chyllid newydd ac o bosibl efelychu eu gweithgareddau mewn ardaloedd eraill.

**Gwersi a ddysgwyd hyd yma**

9.30 Gofynnwyd i brosiectau a gyfwelwyd am y gwersi allweddol a ddysgwyd yn sgil cyflwyno SMS hyd yma. Mae llawer o'r materion a godwyd, yn ymwneud â'r broses ymgeisio a'r broses hawlio eisoes wedi'u trafod yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt yn cael eu hailadrodd yma.

9.31 Codwyd dwy wers ychwanegol a ddysgwyd gan sawl prosiect a llunwyr polisïau a allai lywio'r gwaith o gyflawni rhaglenni yn y dyfodol. Yn gyntaf, awgrymodd amrywiol gyfranwyr y dylid cynnig grantiau dros gyfnod hwy - pum mlynedd, saith mlynedd neu ddeng mlynedd a mwy. Teimlai'r prosiectau fod y cyfnod cyflawni tair blynedd yn dynn iawn ac er y gallai partneriaethau a oedd wedi bodoli ers tro fwrw ati ar unwaith, roedd angen mwy o amser ar bartneriaethau cymharol newydd i ymsefydlu a chyflawni. Soniodd prosiectau hefyd y byddai cyllid hyblyg tymor hwy yn caniatáu i brosiectau dyfu, addasu i amgylchiadau annisgwyl, newid cyfeiriad, neu gyflogi partneriaid newydd. Cyflwynodd ambell brosiect hefyd achos dros sicrhau bod cyllid fel yr SMS yn dod o arian craidd Llywodraeth Cymru.

9.32 Yn ail, awgrymodd sawl prosiect y byddai rôl mentor - unigolyn gyda diwrnodau penodol wedi'i ddyrannu iddo i gefnogi pob prosiect - yn ddefnyddiol. Roedd rhai prosiectau'n cydnabod y gwaith pwysig yr oedd yr hwyluswyr wedi'i wneud o ran cefnogi rhai partneriaethau i ddatblygu ceisiadau, ond teimlwyd hefyd y byddai mentor yn ystod y cyfnod cyflawni yn ddefnyddiol. Cyfeiriodd dau brosiect at ddull gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri a oedd yn cynnig gwasanaeth effeithiol ar gyfer cefnogi prosiect unigol ac annog rhannu'r hyn a ddysgwyd rhwng cymheiriaid. Byddai cam datblygu wedi'i ddilyn gan gam cyflawni, fel yr un a ddefnyddir gan y Gronfa Dreftadaeth hefyd yn cael ei groesawu.

9.33 Ar drywydd tebyg, roedd y prosiectau'n teimlo y byddai'n ddefnyddiol cael prif gyswllt dynodedig o fewn Llywodraeth Cymru i fod yn gyfrifol am gefnogi arweinwyr prosiectau i ffeindio'u ffordd o amgylch gwahanol adrannau. Gallai unigolyn o'r fath ddatblygu dealltwriaeth fanylach o'r prosiect a'i anghenion. Awgrymwyd y dylai fod gan unigolion o'r fath yr awdurdod i ddelio â cheisiadau. Yn benodol, byddai meithrin perthynas ag unigolyn yn yr uned Rheoli Cynaliadwy - gyda chysylltiad ac ymweliadau mwy rheolaidd â'r prosiect, yn ychwanegol at y cyfarfodydd cynnydd cyfredol - yn cael ei groesawu.

9.34 Teimlai sawl prosiect ei bod yn bwysig ystyried y gwersi a ddysgwyd o adroddiadau gwerthuso ac awgrymwyd nad oedd rhai o'r argymhellion a ddeilliodd o'r rhaglen ragflaenol - y Gronfa Natur - o reidrwydd wedi'u hymgorffori yn nyluniad yr SMS o ran prosesau a systemau. Cyfeiriodd y prosiectau yn benodol at yr hyblygrwydd o fewn y Gronfa Natur a oedd yn galluogi mwy o arloesi a 'rhyddid i fethu'.

9.35 Ymhlith y gwersi eraill a ddysgwyd y cyfeiriodd y prosiectau atynt roedd y canlynol:

- mae partneriaethau'n hanfodol a dyma'r unig ffordd i ddod â gwahanol sectorau ynghyd a thrwy hynny ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o faterion a dulliau gweithredu posibl a all wedyn greu manteision amgylcheddol hirhoedlog
- ymddengys fod cydweithio yn gweithio orau ar sail dalgylch ar gyfer materion amgylcheddol yn hytrach na gweithredu o fewn ffiniau gwleidyddol
- mae prosiectau cydweithredol yn gofyn am amser arwain hwy i ymsefydlu ac mae angen adlewyrchu hynny yn y dull cyllido
- mae cydgynhyrchu o'r cychwyn yn bwysig iawn ynghyd â dull 'o'r gwaelod i fyny' a chynnwys ffermwyr a pherchnogion tir yn uniongyrchol ochr yn ochr â chyrff anllywodraethol, y sector cyhoeddus a grwpiau cymunedol

- mae angen eglurder a chefnogaeth o ran gofynion GIS, monitro a gwerthuso ac efallai y byddai sesiwn hyfforddi gyda WEFO a'r tîm Taliadau Gwledig o gymorth i wella cyfathrebu a dealltwriaeth
- byddai mwy o amser a chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru ar gyfer rhwydweithio a rhyngweithio rhwng cyfoedion yn cael eu croesawu er mwyn i'r prosiectau rannu'r hyn y maent yn ei ddysgu.

9.36 Teimlai cyfranwyr eraill at y gwerthusiad fod gwersi yn deillio o'r SMS yr oedd angen eu bwydo i ddulliau cyllido ffermio yn y dyfodol, yn enwedig mewn perthynas â'r gwaith ar TWE ac o ran sicrhau bod cymorth ariannol digonol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn cael ei ymgorffori yn y fframwaith cyllido ffermio ar gyfer y dyfodol.

9.37 Teimlai'r cyfranwyr fod awydd o fewn cymunedau gwledig i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, ac i ddatblygu eu syniadau arloesol eu hunain. Teimlwyd bod lle i ddull tebyg i SMS weithio yn y dyfodol ond bod angen iddo 'roi'r gorau i geisio bod yn bopeth'. Roedd barn gref bod cyllid ar gyfer dalgylch tirwedd yn ddull cyllido pwysig a oedd yn iawn mewn egwyddor ac y dylid ei gynnal ond na ddylai hynny ddisodli cyllid uniongyrchol i dirfeddianwyr: 'mae camau cydweithredol rhwng tirfeddianwyr yn wych. Mae'n gweithio. Ond mae lle i'r ddau. Ni fydd SMS yn parhau ar draul y dulliau gweithredu eraill... ond gall gynnig gwerth ychwanegol' yn enwedig os yw meysydd polisi eraill yn cael eu cynnwys (e.e. twristiaeth, bwyd) i sicrhau ei fod yn cyflawni'r gwerth a'r effaith fwyaf.

9.38 Soniodd rhai cyfranwyr fod angen i weithgareddau cydweithredol yn y dyfodol fod yn seiliedig ar y strategaethau a nodir yn Natganiadau Ardal CNC, a chyfateb â nhw. Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod y datganiadau ardal cyfredol yn gyfyngedig o ran eu gallu i ddatblygu trefniadau cydweithio lleol neu helpu i nodi blaenoriaethau a bod angen i fersiynau o'r dogfennau yn y dyfodol hwyluso cyd-ddylunio dulliau rheoli tir ymarferol a chynaliadwy: 'roedd cyhoeddiad diweddar y Datganiadau Ardal hirddisgwyliedig gan CNC braidd yn siomedig a dweud y lleiaf'. Teimlai un ymatebydd, er bod y datganiadau ardal yn amlinellu'r hyn y dylai'r blaenoriaethau fod, roedd angen iddynt gael eu hategu gan setiau data a

data economaidd-gymdeithasol a fyddai'n dangos y problemau sy'n wynebu'r cymunedau lleol.

9.39 Cydnabu'r cyfranwyr fod angen cymorth a chyllid ychwanegol ar brosiectau cydweithredol er mwyn eu cyflawni'n effeithiol ond bod ganddynt y gallu i sicrhau mwy o ganlyniadau - gallant fod yn 'fwy na chyfanswm eu rhannau unigol' o gael eu sefydlu'n gywir ac wrth weithio'n effeithiol. Fodd bynnag, roedd barn gref y dylai cynlluniau cyllido yn y dyfodol gynnwys yr elfen gydweithredol hon i gymell gweithgaredd amgylcheddol ar raddfa'r dirwedd.

9.40 Er bod yr SMS yn cael ei ystyried yn gam ymlaen i sicrhau ystod o bartneriaid - yn enwedig cyrff anllywodraethol amgylcheddol, sefydliadau sector cyhoeddus a pherchnogion tir gyda'i gilydd - roedd mwy o gyfleoedd yn y dyfodol i gynnwys y sector busnes (er enghraifft cwmnïau yswiriant sy'n gweithio gyda phartneriaethau sy'n delio â materion yn ymwneud â llifogydd neu well cysylltiadau â chyflenwyr bwyd i gysylltu prosiectau â'r marchnadoedd lleol).

## 10. Casgliadau ac argymhellion

10.1 Mae'r bennod hon yn dychwelyd i ystyried yr amcanion allweddol a osodwyd ar gyfer y cam adroddiad blynyddol cyntaf hwn o'r gwerthusiad ac mae'n cyflwyno ein casgliadau a materion i'w hystyried dros y cyfnod cyflawni sy'n weddill.

**Rhesymeg y cynllun ac chyfatebiaeth prosiectau ag egwyddorion SMNR**

10.2 Mae'n amlwg bod yr SMS wedi'i ddylunio a'i ddatblygu gan Lywodraeth Cymru mewn ffordd sy'n adeiladu ar y Gronfa Natur, ond gydag egwyddorion SMNR yn ganolog iddo. Mae'r dull cyllido ar raddfa'r dirwedd, yn hytrach nag ar raddfa fferm, yn caniatáu ar gyfer partneriaethau prosiect yn seiliedig ar le a all arwain at fanteision llawer ehangach ar lefel gymunedol. Mae'n rhoi cyfle i bartneriaethau o'r fath ehangu eu gwaith a chryfhau eu ffyrdd cydweithredol o weithio. Mae Llywodraeth Cymru i'w chanmol am ddatblygu a chyflwyno cynllun sy'n seiliedig ar yr egwyddorion cadarn hyn.

10.3 Roedd egwyddorion yr SMNR wedi'u hymgorffori'n gadarn yn y meini prawf cyllido a'r broses ymgeisio, gan ei gwneud yn ofynnol i brosiectau ddangos eu bod yn mabwysiadu dull cyfannol yn seiliedig ar yr ecosystem. Ariannwyd ymyriadau yn seiliedig ar le neu ddalgylch sy'n ceisio cynhyrchu mwy o fanteision a chanlyniadau. Roedd sicrhau bod cyllid ar gael i bartneriaethau sefydliadau a pherchnogion tir, ac, yn y camau olaf, cyllido gwasanaeth cymorth gan hwylusydd i alluogi partneriaethau o'r fath i gael eu sefydlu, hefyd yn cyd-fynd i raddau helaeth ag egwyddorion SMNR a ffyrdd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

10.4 Mae'r adborth a gafwyd gan brosiectau yn awgrymu eu bod yn deall nodau'r SMS ac egwyddorion SMNR ac yn teimlo eu bod wedi cyflawni'r prosiectau yn unol â'r rhain. Fodd bynnag, mae'r gofyniad am ddealltwriaeth fanwl o flaenoriaethau ac egwyddorion polisi amgylcheddol yn heriol i bartneriaethau a ddatblygwyd yn lleol. Fe wnaeth yr SMS gydnabod hyn yn ystod y cyfnodau cyllido cynnar, ac o’r herwydd, ymddengys fod darparu gwasanaeth cymorth gan hwylusydd wedi chwarae

rhan hanfodol o ran egluro egwyddorion SMNR i dirfeddianwyr a ffermwyr na fyddent o reidrwydd mor gyfarwydd â’r rhain â staff cyrff anllywodraethol.

**Y ffordd y mae'r cynllun yn cael ei reoli a'i weithredu**

10.5 Mae'r SMS wedi profi i fod yn gynllun cyllido poblogaidd, gan dderbyn cyfanswm o 226 o Ddatganiadau o Ddiddordeb ar draws y pum cyfnod ariannu. Mae'r lefel iach hon o ddiddordeb yn yr SMS ac ymwybyddiaeth ohono ar draws ystod eang o ddarpar ymgeiswyr yn ddangosydd cychwynnol cryf o'r angen am yr SMS a'i lwyddiant.

10.6 Mae'r SMS hefyd, i ryw raddau, wedi dioddef yn sgil ei lwyddiant ei hun. Mae maint y galw am y cynllun, y manylion y mae angen eu cynnwys ar y templed Datganiad o Ddiddordeb ac ansawdd uchel a nifer y Datganiadau o Ddiddordeb a gyflwynwyd wedi golygu, er bod yr ansawdd wedi gwella ym mhob cylch cyllido, bod y gystadleuaeth wedi cynyddu. O ganlyniad, nid yw llawer o brosiectau yn y cyfnodau cyllido diweddarach wedi gallu symud ymlaen i'r cam cais llawn. Mae nifer o brosiectau aflwyddiannus (ond o ansawdd uchel) yn teimlo'n ddiwerth gan nad yw eu disgwyliadau wedi'u gwireddu.

10.7 Er bod y broses benderfynu ar gyfer yr SMS yn gadarn ac yn briodol i raddau helaeth, mae achos cryf dros symleiddio a lleihau hyd y ffurflenni, yn enwedig o ran y wybodaeth y gofynnir amdani yn y cam Datgan Diddordeb. Yn ogystal, o ystyried faint o amser a gymerir i gymeradwyo ceisiadau a dyfarnu cyllid, mae angen symleiddio a chyflymu'r broses pe bai cynllun tebyg ar gael yn y dyfodol. Yn seiliedig ar yr adborth a gasglwyd, mae dadl hefyd dros fabwysiadu dull mwy cyfannol o ymdrin â'r broses asesu, er mwyn osgoi ailadrodd diangen o fewn ceisiadau. Mae'r adborth a gafwyd yn ystod y gwerthusiad hefyd yn awgrymu y byddai ymwneud yn agosach â llunwyr polisi, staff strategol CNC a'r rhai sydd â dealltwriaeth a throsolwg o flaenoriaethau rhanbarthol yn gwella'r broses.

10.8 Mae tystiolaeth ar gyfer yr adroddiad gwerthuso blynyddol cyntaf hwn yn cael ei chasglu'n bennaf o brosiectau a ariannwyd yn ystod y tri chyfnod cyllido cyntaf pan nad oedd gwasanaeth cymorth gan hwylusydd ar gael.

Fodd bynnag, mae arwyddion cynnar ac adborth cychwynnol drwy'r arolwg a chyfranwyr eraill yn awgrymu bod y gwasanaeth hwn wedi'i werthfawrogi'n fawr ac wedi galluogi cydweithio ac wedi sicrhau mwy o degwch o ran mynediad at gyllid yr SMS.

10.9 Mae'n ymddangos bod y materion a amlygwyd yn yr adroddiad hwn yn tynnu sylw at broblem yn ymwneud â chapasiti gweinyddol yn Llywodraeth Cymru a rwystrodd eu gallu i gyflawni'r broses asesu o fewn yr amserlenni cychwynnol a bennwyd. Mae tîm yr SMS wedi cael ei ganmol am ei gefnogaeth a'i barodrwydd i helpu, ond mae'r pwysau ar ei amser a'r galwadau arno yn awgrymu y gallai ei swyddogaeth cymorth parhaus elwa o gael mwy o adnoddau i helpu i ymdopi â llwyth gwaith trwm.

10.10 Nid yw'n ymddangos bod y gofynion anhyblyg ac aneglur ar gyfer adrodd ar hawliadau ariannol, a'r diffyg cyfathrebu ac ymateb yn amserol i ymholiadau yn cyd-fynd â'r dull rheoli ymaddasol sydd wedi'i ymgorffori yn yr SMNR. Mae'r materion hyn wedi bod yn niferus ac yn eang, gan lesteirio cynnydd ac achosi problemau difrifol i nifer o'r partneriaethau a ariannwyd drwy'r SMS, yn enwedig sefydliadau llai yn y trydydd sector neu bartneriaethau wedi'u harwain gan dirfeddianwyr. Mae'n amlwg bod angen gwelliannau ar unwaith i'r weithdrefn hawliadau ariannol. Mae anghysondeb rhwng y ffaith bod yr SMS yn annog partneriaethau lleol ar raddfa'r dirwedd i wneud cais am gyllid ond wrth wneud hynny, yn cyflwyno system gymhleth iddynt nad oes ganddynt y gallu (ac na ddylid disgwyl bod ganddynt y gallu) i ddelio â hi. Mae'n anodd gweld sut y gellir parhau i annog partneriaethau o'r fath i arwain cynigion, heb gymorth sylweddol gan gyrff anllywodraethol neu systemau a phrosesau'r sector cyhoeddus, o fewn y system adrodd gyfredol.

10.11 Mae'r SMS yn rhoi cryn bwys ar egwyddorion cydweithio ac ymgysylltu ar raddfa'r dirwedd gyda disgwyliad y bydd prosiectau a ariennir yn dangos cydweithio ystyrlon ac ymrwymiad gan ystod eang o sefydliadau ac unigolion. Nododd mwyafrif y prosiectau a ariannwyd a oedd yn rhan o'r gwaith maes eu bod yn cydweithio cyn iddynt ddatblygu eu ceisiadau. Er bod yr SMS wedi cryfhau'r partneriaethau hyn ac wedi ehangu eu heffaith,

mae llai o dystiolaeth ar gael hyd yma ei fod wedi ysgogi cydweithrediadau cynaliadwy newydd.

10.12 Er bod prosiectau'n gweld mewnbwn a chyfranogiad CNC yn ddefnyddiol, nid yw'n ymddangos bod lefel gyson o ymgysylltu â phrosiectau ledled Cymru. Yn yr un modd, mae'n ymddangos bod cyfleoedd ychwanegol ar gyfer mwy o gydlyniant rhwng yr SMS a CNC ar lefel fwy strategol gyda chyfle gwirioneddol i gysylltu prosiectau SMS yn agosach â blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg yn y Datganiadau Ardal sydd bellach wedi'u cyhoeddi.

10.13 Nododd y gwerthusiad rywfaint o gydweithio rhwng prosiectau SMS a oedd wedi galluogi dysgu am arfer da ac wedi helpu i osgoi dyblygu ymdrech. Yn gyffredinol, roedd prosiectau'n awyddus i weld mwy o gyfleoedd i gydweithio â phrosiectau eraill a ariennir gan SMS ac mae ymdeimlad bod cyfle wedi'i golli yma, lle y gallai'r rhaglen fod wedi gwneud mwy i hwyluso cyfleoedd o'r fath yn uniongyrchol i rannu profiadau a dysgu. Unwaith eto, mae hyn yn awgrymu diffyg capasiti o fewn strwythur staff Llywodraeth Cymru i gefnogi prosiectau yn llawn fel y byddent wedi dymuno.

10.14 Y wers allweddol sy'n dod i'r amlwg yw bod dull cydweithredol o reoli tir yn llwyddiannus yn cymryd amser - i ddatblygu ymddiriedaeth rhwng partneriaid ac i ddatblygu syniadau. Mae angen dull tryloyw gyda chyfathrebu rheolaidd. Yn hyn o beth, ac yn arbennig ar gyfer partneriaethau dan arweiniad tirfeddianwyr, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod cam datblygu sylweddol yn bwysig ar gyfer dylunio cynllun cyllido fel yr SMS. Gallai rôl mentor 'dal llaw' ar gyfer dyddiau cynnar y cyfnod cyflawni fod yn ddefnyddiol, gan ehangu rôl yr hwylusydd o bosibl.

10.15 Mae'n galonogol gweld bod rhai prosiectau SMS eisoes yn cyfrannu at ddealltwriaeth o sut i ddatblygu dulliau TWE o fewn rheolaeth amgylcheddol. Yn wir, roedd sawl prosiect hefyd yn edrych ar gyllid Glastir neu gontractau TWE fel rhan o'u cynlluniau cynaliadwyedd. Mae cyfle gwirioneddol hefyd i'r llunwyr polisi ystyried y gwersi a gynhyrchir o'r SMS wrth i ddulliau cyllido ar gyfer ffermio gael eu datblygu yn y dyfodol.

**Canlyniadau'r cynllun a chyfraniad at themâu trawsbynciol**

10.16 Er bod arwyddion cynnar yn awgrymu bod yr SMS yn cyflawni yn erbyn ei nodau a'i amcanion a bod y prosiectau, yn gyffredinol, yn cyflawni eu targedau a'u hallbynnau, bydd angen i adroddiadau diweddaru'r gwerthusiad yn y dyfodol ystyried a dadansoddi data i asesu hyn yn gadarnach. Cryfder dull gweithredu'r SMS yw ei hyblygrwydd, ac er ei bod yn ofynnol i bob prosiect fodloni meini prawf penodol, i raddau helaeth maent wedi gallu diffinio a gosod eu targedau eu hunain. Mae'n bwysig bod prosiectau SMS eu hunain yn deall yn llawn y gofynion i ymgymryd â'u prosesau monitro a gwerthuso eu hunain ar lefel prosiect, ac yn defnyddio'r cyfle hwn i dynnu sylw at y ffaith eu bod wedi cyrraedd targedau (neu ragori arnynt) ac unrhyw dystiolaeth o effeithiau a manteision y prosiect ar y cam hwnnw. Mae'r gwerthusiad ar lefel rhaglen yn cydnabod yr anawsterau wrth geisio cael allbynnau a chyflawniadau allweddol cyfanredol ar lefel rhaglen ac adrodd arnynt, ond bydd adroddiadau dilynol yn anelu at wneud hyn gymaint â phosibl. Bydd y gwaith hwn yn cael ei gynorthwyo gan ymdrechion presennol Llywodraeth Cymru i ddatblygu dangosyddion cyfanredol cyffredin ar gyfer y rhaglen. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y rhaglen yn gallu crynhoi, dangos a chyfathrebu'n ehangach y canlyniadau y mae wedi'u cyflawni.

10.17 Mae hefyd yn wir bod union natur yr SMS yn golygu mai dim ond allbynnau uniongyrchol y gellir adrodd amdanynt ar hyn o bryd (e.e., nifer y coed a blannwyd, neu'r hectarau a adferwyd) yn hytrach na'r manteision ehangach a thymor hwy i'r ecosystem a'r canlyniadau cymdeithasol-economaidd a all gymryd sawl blwyddyn i'w gwireddu'n llawn. Bydd angen i adroddiadau diweddaru'r gwerthusiad yn y dyfodol barhau i gadw hyn mewn cof ac ystyried beth fyddai'r goblygiadau ar gyfer gwerthusiadau ar lefel prosiect fel bod cymaint â phosibl o'r canlyniadau ehangach hyn yn cael eu cofnodi a'u hadrodd.

10.18 Mae'r cyfyng gyngor hwn hefyd yn awgrymu y gallai dyluniad cynllun fel yr SMS elwa o ystyried cyfnod cyflawni llawer hwy o bum mlynedd o leiaf er

mwyn gwireddu'r canlyniadau a ddymunir yn llawn ac er mwyn i dystiolaeth o'i effaith ddod i'r amlwg yn llawn.

10.19 Mae'n addawol gweld cyfraniad mor gryf gan brosiectau SMS at y themâu trawsbynciol, amcanion trawsbynciol y Rhaglen Datblygu Gwledig ac, at nodau strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru.

10.20 Hyd yn oed ar y cam cynnar hwn, mae'r gwerthusiad wedi cynhyrchu tystiolaeth y dylid ei defnyddio i lywio'r ffordd y mae rhaglenni cyllido yn y dyfodol yn hwyluso cyd-ddylunio dulliau rheoli tir yn gynaliadwy ac yn cyd-fynd yn agosach â blaenoriaethau ac anghenion rhanbarthol.

10.21 Isod, rydym yn cynnig cyfres o argymhellion i Lywodraeth Cymru eu hystyried. Gellir gweithredu rhai o'r argymhellion yn ystod y cyfnod cyflawni sy'n weddill ar gyfer y rhaglen SMS. Mae argymhellion eraill yn myfyrio ar rai o'r gwersi allweddol o'r SMS, yn enwedig o ran ei ddyluniad, a'r cam cyflwyno cynnar, a allai helpu i lywio unrhyw ddulliau cyllido yn y dyfodol:

- **Argymhelliad 1:** Dylid ystyried gwersi allweddol o ran dylunio polisi ar gyfer prosiectau cydweithredol ar raddfa'r dirwedd mewn unrhyw ddulliau cyllido yn y dyfodol. Dylid rhannu canfyddiadau a chanlyniadau cynnar yr adroddiad gwerthuso hwn â swyddogion polisi Llywodraeth Cymru sydd ar hyn o bryd yn llunio'r strwythur ar gyfer cyllido ffermio yng Nghymru yn y dyfodol.
- **Argymhelliad 2:** Dylai Llywodraeth Cymru barhau i sicrhau bod dulliau cyllido ar gyfer cynlluniau amaeth-amgylchedd yn y dyfodol yn adeiladu ar ddull cydweithredol arloesol a hyblyg yr SMS ond yn ystyried mabwysiadu amserlen gyflawni 5 mlynedd a mwy ar gyfer cynlluniau grant o'r fath yn y dyfodol.
- **Argymhelliad 3:** Mae sawl pwynt dysgu allweddol wedi dod i'r amlwg o broses Datgan Diddordeb a phroses ymgeisio'r SMS y mae angen eu hystyried wrth ddatblygu proses ymgeisio ar gyfer unrhyw gynllun cyllido yn y dyfodol, gan gynnwys:
    - yr angen am broses Datgan Diddordeb fyrrach (dim mwy na 15 tudalen o hyd)

  - cyfnod datblygu o rhwng chwech a 12 mis cyn cyfnod cyflawni tair blynedd llawn
  - proses asesu sy'n asesu'r cais cyfan yn hytrach nag adrannau unigol
  - mwy o gyfranogiad CNC yn y broses asesu, er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â blaenoriaethau rhanbarthol
  - amlinellu'r dyddiadau ar gyfer cyfnodau cyllido o'r cychwyn cyntaf a chadw atynt
  - proses gyflym o ymdrin â cheisiadau llwyddiannus a dyfarnu cyllid

- **Argymhelliad 4:** Dylai'r rôl cymorth gan hwylusydd gael ei darparu o ddechrau cynllun cyllido yn y dyfodol a dylid ymestyn ei gylch gwaith i helpu prosiectau i bontio'r bwlch a symud o'r cam ymgeisio i'r cam cyflawni. Gallai hwyluswyr ymgymryd yn rhannol â rôl rheoli prosiectau o fewn prosiectau cydweithredol nad ydynt yn cael eu harwain gan awdurdod cyhoeddus neu gyrff anllywodraethol nes bod tîm rheoli'r prosiect wedi'i benodi.
- **Argymhelliad 5:** Mae angen i Lywodraeth Cymru hwyluso ac annog rhwydweithio rhanbarthol rhwng cymheiriaid ymysg prosiectau'r SMS er mwyn rhannu profiadau a'r hyn a ddysgwyd. Dylai'r sesiynau hyn fod yn sesiynau rheolaidd (bob chwarter o leiaf ym mhob rhanbarth), a gynhelir ar y safle lle bo hynny'n bosibl, a dylent gynnwys mewnbwn gan Lywodraeth Cymru a CNC.
- **Argymhelliad 6:** Dylid ymchwilio'n llawn hefyd i gyfleoedd i ymgysylltu'n fwy rhwng yr SMS a CNC. Byddai seminar polisi i staff CNC i ledaenu'r gwersi cynnar o'r SMS yn galluogi gwell dealltwriaeth o'r cynllun. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd ystyried ffyrdd o annog CNC i ymgysylltu'n fwy cyson â phob prosiect SMS ledled Cymru.
- **Argymhelliad 7:** Dylid cynyddu capasiti Llywodraeth Cymru fel bod digon o amser ac adnoddau staff ar gael i ddarparu'r cymorth sydd

ei angen ar gyfer ystod mor eang o brosiectau cymhleth ac amrywiol a ariennir gan yr SMS ar gyfer y cyfnod sy'n weddill.

- **Argymhelliad 8:** Mae angen adolygu ac addasu'r weithdrefn hawliadau gyfredol ar unwaith fel y gall fod yn fwy ymatebol i anghenion yr SMS. Dylid trefnu hyfforddiant i sicrhau bod holl staff Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â hawliadau yn deall natur cynlluniau grant ar raddfa'r dirwedd a goblygiadau oedi wrth gyflawni. Dylid ystyried sefydlu tîm pwrpasol o fewn Taliadau Gwledig Cymru, er mwyn caniatáu prosesau asesu a chymeradwyo symlach, a dyrannu unigolyn penodol ar gyfer pob prosiect SMS i ymateb yn brydlon i ymholiadau.

## Atodiad A: Disgrifiad byr o’r 18 prosiect a gyfwelwyd

**PROSIECTAU A ARIANNWYD YNG NGHYFNOD 1**

**Rheoli Adnoddau’n Gynaliadwy yn y Mynyddoedd Duon**

**Sefydliad Arweiniol:** Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

**Dyfarniad Grant:** £1,004,155

**Lleoliad:** Y Mynyddoedd Duon, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheinog

Prosiect cydweithredol gan Bartneriaeth Defnydd Tir y Mynyddoedd Duon, sy’n cynnwys tirfeddianwyr lleol, porwyr a chyrff rheoleiddio, sydd â’r nod o sicrhau newid cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol cadarnhaol drwy weithredu rheolaeth gydweithredol a chynaliadwy o dir ar draws tirwedd y Mynyddoedd Duon. Bydd gweithgareddau’r prosiect yn cynnwys rheoli rhedyn, adfywio grug a diogelu adnoddau mawn. Bydd gwelliannau arfaethedig i fynediad da byw yn helpu i reoli stoc ac yn darparu profiad gwell i ymwelwyr â’r ardal.

Bydd y ffocws ar reoli mawnogydd a rhedyn law yn llaw â gwella profiad ymwelwyr yn yr ardal ac ymgysylltu â chymunedau lleol a fydd yn cymryd rhan drwy ddatblygu rhaglen sgiliau gwledig, ymgysylltu ag ysgolion a chreu cyfleoedd gwaith.

Nod y bartneriaeth yw gwella cadernid ecosystemau yn ardal y prosiect, ochr yn ochr â rheoli da byw sy’n pori’n gynaliadwy, edrych ar ddiogelu cyfalaf naturiol fel dŵr a phridd, bywyd gwyllt a bioamrywiaeth, a llesiant ac iechyd economaidd y rhai sy’n byw ac yn gweithio yn yr ardal eiconig hon. Phil Stocker, Cadeirydd y Bartneriaeth, “Dim ond trwy gydweithio y gallwn ni daro cydbwysedd sy’n diwallu anghenion porwyr, darparwyr twristiaeth a thirfeddianwyr, tra’n diogelu’r dirwedd ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol.

Mae’r prosiect yn cwmpasu arwynebedd o 24,600ha ac yn ymgysylltu â pherchnogion tir, porwyr, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a’r gymuned leol. Mae allbynnau’r prosiect wedi sicrhau canlyniadau sylweddol ar gyfer rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy, megis mae dros 200 o bobl wedi ymweld â’r mynyddoedd Duon drwy ymweliadau addysgol wedi’u trefnu, gan roi mynediad i gymunedau lleol i’r dirwedd wrth ddysgu am eu hamgylchedd, ei reolaeth a’i amrywiaeth. Mae swyddi wedi’u creu i gyflawni’r gwaith sylweddol o reoli’r dirwedd megis adfer mawnogydd, rheoli grug a rhedyn i adfer ansawdd cynefinoedd. Gwaith helaeth i reoli erydiad a chau ffosydd ar safleoedd strategol i sefydlogi adnoddau mawn yn y Parc Cenedlaethol. Bydd amrywiaeth o ddeunyddiau’n cael eu defnyddio ar gyfer gwaith adfer mewn ardaloedd pridd mawn/mwynol sydd wedi’u herydu i wella cyflwr y gors mewn treialon adfer gorchudd llystyfiant mewn ardaloedd o erydiad.

Mae'r bartneriaeth wedi datblygu rhaglen llysgenhadon lwyddiannus, gan ymgysylltu'n gadarnhaol â busnesau lleol drwy'r rhaglen llysgenhadon, gan helpu'r bartneriaeth i ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o'r cymunedau, yr amgylchedd a'r economïau sy'n sail i'r mathau hyn o dirweddau. Mae gan y prosiect gynllun cynaliadwyedd hirdymor i barhau â'r gwaith y mae'r fenter hon wedi'i ddechrau gan alluogi cenedlaethau'r dyfodol i reoli, gweithio a mwynhau amgylchedd y Mynyddoedd Duon.

**Rheoli Perygl Llifogydd yn Naturiol a Chynaliadwy ar y Cyd ar Afon Clwyd**

**Sefydliad Arweiniol:** Cadwyn Clwyd Cyfyngedig

**Dyfarniad Grant:** £330,000

**Lleoliad:** Afon Clwyd, Pwllglas, i'r de o Ruthun i Fod Petryal, ar gyrion coedwig Clocaenog

Prosiect ar raddfa tirwedd i leihau llifoedd brig i afon Clwyd a gwella bioamrywiaeth drwy ymyriadau naturiol seiliedig ar y tir a deall eu manteision ehangach os cânt eu rhoi ar waith ar draws y dalgylch mwy. Y nod tymor hwy yw deall yn well y cyfle i ffermwyr, tirfeddianwyr a'r cyhoedd gydweithio i greu cynefinoedd, lleihau llif llifogydd a gwella dŵr er budd yr ardal leol. Nod y prosiect fydd helpu i ddarparu atebion tymor hwy i'r problemau llifogydd sy'n effeithio ar bobl a busnesau yn yr ardal.

Mae'r grŵp cydweithredol o ffermwyr yn yr ardal yn plannu ac yn adfer gwrychoedd, yn creu coetiroedd bach ac adeiladu argaeau sy'n gollwng ar nentydd ar lethrau'r bryniau i rwystro ymchwyddiadau o ddŵr llifogydd yn rhannau uchaf afonydd Clwyd ac Elwy.

Mae gwaith cyfalaf wedi'i wneud gyda thros 3.5 cilometr o wrychoedd wedi'u plannu, a 1,400 o goed wedi'u plannu yn yr ardaloedd o goetir bach strategol gyda choed unigol wedi'u plannu bob hyn a hyn yn y gwrychoedd newydd. Mae llawer o'r plannu'n cael ei wneud gan wirfoddolwyr lleol fel rhan o'r gwaith ymgysylltu â'r gymuned.

**Gwireddu Cyfalaf Naturiol Mawnogydd Cymru**

**Sefydliad Arweiniol:** Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

**Dyfarniad Grant:** £924,956

**Lleoliad:** Cymru Gyfan

Prosiect sy'n gweithredu ar y cyd â rhanddeiliaid, gan gynnwys cymunedau, i drawsnewid a gwella mawnogydd ledled Cymru. Ymhlith y gwelliannau i fawnogydd

mae sefydlogrwydd ecolegol a rheolaeth gynaliadwy yn yr hirdymor. Y gobaith yw cyflwyno'r prosiect ar raddfeydd gofodol (e.e. dalgylchoedd) a sectoraidd (e.e. safleoedd gwarchodedig), yn ogystal â datblygu arbenigedd a gallu partneriaid i adfer mawnogydd.

Bydd y prosiect yn helpu i gyflawni targed 2020 i reoli mawnogydd yn gynaliadwy. Bydd camau gweithredu cydgysylltiedig yn sicrhau manteision amgylcheddol lluosog drwy gydweithio â mecanweithiau sy'n bodoli eisoes ynghyd â gwaith cyfalaf sy'n cwmpasu'r sectorau 'anodd eu gwneud' presennol o adfer mawnogydd, gan arwain at reolaeth gynaliadwy yn yr hirdymor a gefnogir drwy daliadau am wasanaethau ecosystemau (PES). Bydd gweithgareddau allweddol eraill yn arwain at ddulliau mwy cydgysylltiedig a chydlynol sy'n cwmpasu cyllid allanol, hyfforddiant, addysg, caffael PES, monitro a gweithgareddau ymchwil sy'n berthnasol i fawnogydd Cymru.

Ar ran Grŵp Gweithredu Mawnogydd Cymru, arweinir y prosiect gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, mewn partneriaeth ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, y Ganolfan Ecoleg a Hydroleg, IUCN UK Peatland Programme, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Sir Drefaldwyn, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru, a Phrifysgol Abertawe. Craidd y prosiect hwn yw sicrhau bod ein mawnogydd yn cael eu rheoli'n gynaliadwy ledled Cymru, gan roi cynefinoedd ar ben ffordd i fod mewn cyflwr ffafriol da neu eu cadw mewn cyflwr felly; nodi manteision meithrin cadernid yr ecosystemau hyn a darparu amrywiaeth o wasanaethau ecosystem hanfodol.

Mae'r prosiect yn gyfle da iawn i ehangu cynnydd o ran adfer erydiad, gan ganolbwyntio ar adfer gorchudd llystyfiant, gwaith hydrolegol er mwyn atal draenio parhaus ar hyd nodweddion erydu, rheoli rhedyn a rheoli ymwelwyr.

Ceir tua 3500 hectar o'r cynefinoedd mawnogydd hyn rhwng copaon y Carneddau yng ngogledd Eryri, gyda gorgorsydd mawr ar lethrau Llwytmor a Foel-Grach. Yn hanesyddol, mae'r mawnogydd hyn wedi'u pori'n drwm sydd, o'i gyfuno â'r draeniad naturiol oddi ar y mynyddoedd, wedi arwain at erydu sylweddol a cholli carbon. Mae 'mignoedd' mawn mawr – ffurfiannau moel tebyg i glogwyni sy'n datgelu'r pridd mawn sylfaenol – wedi ffurfio ar y gorgorsydd, gan ddraenio'r mawn a rhyddhau swm aruthrol o nwyon tŷ gwydr.

Heddiw, mae tirweddau mynyddig y Carneddau'n cael eu pori ar lefelau llawer is, gyda mesurau amddiffyn ar waith ar gyfer cynefinoedd mynyddig sensitif ac, wrth gwrs, merlod eiconig y Carneddau.

Er mwyn gwrthdroi effeithiau erydu, bydd gwaith yn cael ei wneud i adfer gorchudd llystyfiant mewn ardaloedd sy'n agored i niwed, arafu llif y dŵr ac adfer y mawnogydd. Bydd y gwaith yn lleihau'r colledion nwyon tŷ gwydr yn sylweddol yn ogystal â chynyddu faint o ddŵr y gall y mawnogydd cyfagos eu storio.

**Datblygu gallu dalgylchoedd i wrthsefyll newidiadau (BRICs)**

**Sefydliad Arweiniol: PLANED**

**Dyfarniad Grant:** £609,549

**Lleoliad:** Sir Benfro

Prosiect, gan arweiniad PLANED, i weithredu ar y cyd ar raddfa’r dirwedd gyfan gan ddwyn partneriaid o bob rhan o’r gadwyn gyflenwi ynghyd mewn tri dalgylch i ddatblygu cynlluniau i liniaru effeithiau’r newid yn yr hinsawdd, i gymryd camau i wella pridd, rheoli dŵr, a gwella cynefinoedd. Bydd y partneriaid hyn yn cynnwys rheolwyr tir, diwydiant a chymunedau. Y gobaith yw y bydd gwaith yn mynd rhagddo mewn tri is-dalgylch amrywiol, yn cynnwys tua 100 o ffermydd, i roi’r prosiect ar waith; mae’r buddion ehangach yn cynnwys diogelu dŵr yfed.

**Talu am wasanaethau ecosystemau**

**Sefydliad Arweiniol:** Ymddiriedolaeth Natur Sir Drefaldwyn

**Dyfarniad Grant:** £269,319

**Lleoliad:** Mynyddoedd Cambria

Prosiect cydweithredol sy’n dwyn cymunedau lleol, rheolwyr tir, asiantaethau statudol a busnesau ynghyd i ailgysylltu’n gymdeithasol ac yn economaidd â’r amgylchedd naturiol yn eu hardal. Drwy gynnwys proses o ddysgu ar y cyd drwy gyfrwng prosiectau a chyrff PES eraill yng Nghymru a’r tu hwnt, y gobaith yw y bydd y prosiect hwn yn sicrhau gwerth ychwanegol sylweddol. Nid yw nifer o gynlluniau a phrosiectau arloesol wedi llwyddo eto i sicrhau cytundebau PES pendant; drwy rannu gwybodaeth a’r hyn a ddysgwyd o’r prosiect hwn ag arloeswyr PES eraill, gall y prosiect hwn wneud cyfraniad gwirioneddol i ddatblygu PES yn ehangach. Gan adeiladu ar waith blaenorol, bydd y prosiect yn archwilio ac yn ymchwilio i ddulliau newydd o sefydlu cytundebau Talu am Wasanaethau Ecosystemau (PES) fel system hunangynhaliol o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn yr hirdymor ar gyfer yr SMNR.

**Cynllun Gwella Gwasanaethau Ecosystem Fferm Ifan**

**Sefydliad Arweiniol:** Fferm Ifan

**Dyfarniad Grant:** £696,352

**Lleoliad:** Ardal Conwy Uchaf

Prosiect cydweithredol dan arweiniad ffermwyr sy'n cymryd camau rheoli tir ar raddfa tirwedd i wella cadernid ecosystemau a'r gwasanaethau y maent yn eu darparu. Mae Fferm Ifan yn gydweithrediaad rhwng 11 o ffermwyr tenant ar ystâd Ysbyty Ifan. Mae ffermwyr Fferm Ifan yn ceisio gwella a rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd fwy cynaliadwy ac effeithlon. Mae'r prosiect yn ymestyn dros ryw 2,456 Ha ac mae'n cynnwys camau rheoli tir newydd wedi'u targedu a fydd yn sicrhau manteision economaidd-gymdeithasol hefyd i'r 11 fferm ac i'r gymuned wledig ehangach y mae Fferm Ifan yn perthyn iddi. Mae gan y ffermwyr hawliau i bori'r Migneint, un o'r ardaloedd mwyaf o orgors yng Nghymru, sydd wedi'i ddynodi'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Ardal Cadwraeth Arbennig ac Ardal Gwarchodaeth Arbennig.

Fel rhan o'r gwaith mae'r Ganolfan Ecoleg a Hydroleg (CEH) yn darparu canllawiau ar blannu sy'n sensitif i'r dalgylch. Byddant yn plannu mwy o goed a gwrychoedd ar dir fferm ar hyd nentydd i helpu i ddiogelu cynefinoedd glan yr afon, lleihau erydiad pridd a lliniaru perygl llifogydd i lawr yr afon. Bydd cau ffosydd ar y Migneint yn parhau ac yn helpu i godi'r lefel trwythiad, storio carbon a bydd yn lleihau'r perygl o lifogydd yn Nyffryn Conwy hefyd.

Mae'r ffermwyr yn cymryd rhan mewn treialon pori hefyd i annog mwy o fioamrywiaeth a bywyd gwyllt yn y mawnogydd. Fel rhan o'r treialon pori, mae gwartheg wedi'u cyflwyno i'r Migneint am y tro cyntaf o fewn cof ac mae cynlluniau ar waith i adfer cynefin i annog mwy o gornchwiglod a gylfinirod i fridio'n llwyddiannus yn yr ardal.

Mae'r grŵp yn gweithio'n agos hefyd gyda nifer o bartneriaid gan gynnwys yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, yr RSPB, Y Ganolfan Ecoleg a Hydroleg, Prifysgol Bangor a Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn rhannu syniadau a dysgu o arbenigedd a phrofiad y partneriaid

**Golygfa Gwydyr: Pobl a Choedwig**
**Sefydliad Arweiniol:** Golygfa Gwydyr

**Dyfarniad Grant:** £232,478

**Lleoliad:** Conwy

Menter gymdeithasol yn Llanrwst yw Golygfa Gwydyr. Mae'n sefydliad di-elw sy'n cael ei arwain gan y gymuned. Yng nghyd-destun y gymuned leol a'r lle, ei nod yw

gwella cydnerthedd cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd a darparu cyfleoedd ar gyfer twf personol a chysylltiadau cymunedol bywiog.

Mae’r prosiect wedi adfer, datblygu a rheoli arboretwm 3 hectar ac wedi rheoli llain 11 hectar o blanhigfa conwydd ungnwd (Caerdroia) yn gynaliadwy gan sicrhau manteision lluosog i’r amgylchedd a’r gymuned leol. Mae’r prosiect yn un sy’n canolbwyntio ar y gymuned ac sy’n gobeithio adeiladu ar y sgiliau, y datblygiadau a’r gwaith meithrin gallu a ddechreuwyd ac a gyflawnwyd o dan y Gronfa Natur. Wrth galon y prosiect mae rheoli a defnyddio adnoddau tir i wella bioamrywiaeth, creu cadernid ein hecosystemau tra’n gwella cyfleusterau hamdden, mynediad, ac adeiladu cymunedau â gwell llesiant ac ymdeimlad o le.

Mae’r angen am y prosiect yn deillio o orlifdir eang Dyffryn Conwy. Mae’n gallu ymdopi â chynnydd yn y llif gan mwyaf, ond ar adegau o law trwm iawn, gall dŵr ffo o ogledd-ddwyrain Coedwig Gwydyr gronni ar orlifdir afon Conwy rhwng yr afon a ffordd y B5106 gan gyfrannu at fwy o achosion o lifogydd yn yr ardal hon o Ddyffryn Conwy.

Bydd y prosiect yn defnyddio atebion arloesol i arafu llif y dŵr o’r goedwig drwy ddefnyddio mesurau rheoli perygl llifogydd naturiol fel argaeau malurion pren. Llwyddiant fydd lleihau faint o ddŵr sy’n cyrraedd llawr y dyffryn dros gyfnod penodol o amser. Bydd y prosiect yn ceisio defnyddio adnoddau naturiol y goedwig, coed wedi’u cwympo a thocion, a dylunio a chreu ardaloedd ar gyfer cronni dŵr.

Nod y prosiect SMS yw cynyddu bioamrywiaeth y safle drwy reoli’r coetir gan ganolbwyntio mwy ar amwynder a bioamrywiaeth yn hytrach na chynhyrchu coed. Bydd hyn yn creu cyfleuster cymunedol/twristiaeth gwerthfawr sy’n darparu adnoddau ar gyfer llesiant ac elw economaidd i’r gymuned.

Canlyniadau cymunedol, iechyd a llesiant disgwyliedig y prosiect yw; cynyddu cyfranogiad unigolion a’r gymuned mewn prosiectau drwy fynd i’r afael â rhwystrau i gyfranogi, hyrwyddo a datblygu sgiliau yn y gymuned, cefnogi cynhwysiant cymdeithasol, darparu cyfleoedd i hyrwyddo llesiant unigolion a’r gymuned, darparu cyfleoedd ar gyfer gwirfoddoli a hyfforddi, hyrwyddo egwyddorion Coedwigaeth Gymdeithasol yng Nghymru.

Bydd Gwyddor Dinasyddion yn cael ei defnyddio hefyd i annog ysgolion a grwpiau cymunedol lleol i gymryd rhan mewn monitro llifoedd a glawiad i bennu effeithlonrwydd y mesurau rheoli perygl llifogydd naturiol ac i ddarparu tystiolaeth ar gyfer prosiectau’r dyfodol.

**Partneriaeth Rhostir Powys**

**Sefydliad Arweiniol:** Ireland Moor Conservation Ltd

**Dyfarniad Grant:** £600,000

**Lleoliad:** Powys

Prosiect mawr ar raddfa tirwedd i annog adfer rhostir drwy weithredu cydweithredol o'r gwaelod i fyny sy'n cael ei ysgogi gan gymunedau sy'n byw ac yn gweithio ar y rhosydd a'u cyffiniau. Mae'n ceisio sicrhau manteision lluosog gan gynnwys iechyd y cyhoedd, rhannu sgiliau ac addysg. Mae rhanddeiliaid allweddol yn cynnwys tirfeddianwyr, ffermwyr a chymunedau wedi creu amgylchedd rhostir bywiog i hybu bioamrywiaeth, gan sicrhau manteision economaidd a chymdeithasol. Nod y prosiect oedd creu menter strategol gyffrous ym Mhowys a gwireddu potensial llawn bron i 20,000 erw o rostir sy'n ymestyn o Ddyffryn Llanddewi Nant Hodni yn ne'r sir i gomin Bugeildy yn y gogledd, y gall cymunedau ei fwynhau yn ogystal â denu twristiaeth a chyfleoedd busnes newydd i hybu swyddi cefn gwlad a rhoi hwb i'r economi wledig.

Adeiladwyd y prosiect o amgylch pedwar prif nod; hyrwyddo bioamrywiaeth y rhostir, rheoli cynefinoedd grug yn well, cydbwyso hamdden ar y rhostir gydag adnoddau naturiol a bywyd gwyllt, ac ymgysylltu â chymunedau lleol.

Roedd bioamrywiaeth y rhostir wedi dirywio o ganlyniad i gyfuniad o ffactorau, a thrwy gyfres o arferion rheoli rhostir a sgyrsiau newydd gyda'r gymuned gyfagos, y nod oedd gwrthdroi'r dirywiad hwnnw drwy ddull cydweithredol.

Rhoddodd y prosiect gynllun rheoli ar waith i adfer iechyd y dirwedd. Mae'r rugiar goch yn rhywogaeth ddangosol allweddol ar y rhostir grug ac mewn gwirionedd dyma'r unig aderyn brodorol gwyllt sy'n byw yno gydol y flwyddyn. Nid yn unig y gellir adfer cyflwr y rhostir er mwyn gwella'r cyfle bridio ar gyfer adar sy'n nythu ar y ddaear, ysgyfarnogod brown ac infertebratau lluosog, ond roedd hefyd yn ceisio darparu gwasanaethau ecosystem gan gynnwys dal a storio carbon, cadw dŵr a lliniaru perygl llifogydd.

Fel arfer, mae'r llystyfiant ar y rhostiroedd hyn yn cynnwys mosaig o gorlwyni fel grug, llusi duon bach, creiglus, a grug y mêl yn gymysg â rhedyn, swp-hesg y fawnog ac eithin. Yn yr ardaloedd gwlypach, gwelir grug croesddail, glaswellt y gweunydd, llafn y bladur, plu'r gweunydd a'r gwlithlys pryfysol gydag is-haen o fwsogl, sy'n cynnwys carpedi o rywogaethau migwyn yn aml.

Defnyddir rhostiroedd Powys yn helaeth gan gerddwyr, marchogion, cerddwyr cŵn, beicwyr modur, cerbydau 4x4 ac mae'r prosiect yn cynnal rhaglen o sgyrsiau i addysgu pob grŵp fel nad yw eu gweithgareddau hamdden yn cael effaith andwyol ar fywyd gwyllt nac yn difrodi'r dirwedd. Drwy weithredu adnoddau arloesol i egluro

Mynediad Agored yn well er mwyn annog pobl i ddefnyddio’r tir yn gyfrifol, yn enwedig yn ystod tymor bridio’r adar yn y gwanwyn.

Un o egwyddorion allweddol y prosiect yw sicrhau cydbwysedd ymarferol a hirdymor rhwng natur a phobl, drwy gael yr holl bartïon â buddiant i gydweithredu, ymgysylltu â llawer o randdeiliaid lleol gwahanol a’u hannog i gyfrannu fel bod popeth o fywyd adar i dwristiaeth yn cael cyfle i ffynnu.

Mae’r Bartneriaeth yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (2015) sy’n ceisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae cofnodi adar, y celfyddydau a cherddoriaeth, gweithdai llesiant, gwyddor dinasyddion, a sgiliau traddodiadol yr ucheldiroedd yn rhai o’r gweithgareddau y mae’r prosiect yn eu denu i helpu pobl i ddeall rhai o’r heriau y mae ein tirweddau’n eu hwynebu. Gan weithio gyda’r elusen iechyd meddwl MIND, mae’r prosiect yn mynd â grwpiau allan i’r gwahanol rostiroedd i helpu i wella lles pobl nad ydynt yn mynd allan i’r dirwedd hardd hon fel arfer.

Wrth i’r prosiect ddod i ben, mae’r Bartneriaeth wedi bod yn myfyrio ar eu prosiect a sut y gellir cefnogi’r cydweithio a’r dirwedd ar gyfer y dyfodol gan sicrhau cynaliadwyedd hirdymor.

**Cynllun Dalgylch Yr Afon Eden**

**Sefydliad Arweiniol:** Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

**Dyfarniad Grant:** £815,444

**Lleoliad:** Dyffryn Eden, Gwynedd

Prosiect dan arweiniad ffermwyr sy’n canolbwyntio ar wella ansawdd ecolegol Afon Eden a’i lednentydd ar raddfa’r dalgylch gyfan drwy blannu a rheoli coed collddail brodorol. Bydd y buddion eraill yn cynnwys gwella cynefinoedd naturiol, atal erydiad, lleihau nwyon tŷ gwydr a defnyddio llai o danwydd ffosil. Bwriedir i grŵp o hyd at 22 o fusnesau fferm yn yr ardal cadwraeth arbennig hon i gydweithredu i roi’r prosiect ar waith. Thema gyffredinol y prosiect yw gwella dalgylch yr afon, yn enwedig o ran diogelu’r misglod perlau dŵr croyw. Caiff hyn ei wneud drwy weithio gyda ffermwyr ac ymgysylltu â’r gymuned leol i gymryd camau amrywiol a fydd yn cryfhau ecoleg y dalgylch ac yn datblygu dulliau cynaliadwy o reoli tir.

## PROSIECTAU A ARIANNWYD YNG NGHYFNOD 2

### Tir a Môr Llŷn – Land and Sea

**Sefydliad Arweiniol:** Cyngor Gwynedd Council

**Dyfarniad Grant:** £700,000

**Lleoliad:** Pen Llŷn

Mae'r prosiect cydweithredol hwn dan arweiniad Partneriaeth Tirwedd Llŷn yn dwyn grwpiau statudol, amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol ynghyd. Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r heriau sy'n effeithio ar yr adnoddau naturiol yn yr ardal y mae cymunedau ym Mhen Llŷn yn dibynnu arnynt.

Ystyrir cynefinoedd arfordirol Pen Llŷn yn un o nodweddion eithriadol yr ardal ac mae'r gydnabyddiaeth ryngwladol o'u pwysigrwydd yn cadarnhau hynny. Er gwaethaf hyn, mae'r llain arfordirol wedi dod dan bwysau cynyddol dros y degawdau yn sgil nifer o newidiadau, gan gynnwys gwelliannau amaethyddol, rhoi'r gorau i bori ar dir comin, pwysau ymwelwyr a ffactorau amgylcheddol gan gynnwys y newid yn yr hinsawdd.

Mae prosiect Tir a Môr Llŷn wedi gwrthweithio yn erbyn rhai o'r bygythiadau hyn ac wedi datblygu a chyflawni camau gweithredu wedi'u targedu i gynnal ac ehangu llain barhaus helaeth o gynefinoedd amrywiol o amgylch yr arfordir. Bydd hyn yn darparu adnodd amhrisiadwy a fydd yn helpu i ddiogelu'r amgylcheddau morol a daearol yn ogystal â datblygu adnodd economaidd a chymdeithasol sylweddol o'i gysylltu â datblygiad Llwybr Arfordir Cymru.

Mae'r bartneriaeth wedi datblygu dull cydweithio a chydweithredol ar lefel leol, gan alluogi pawb dan sylw i ymgysylltu, datblygu a gweithredu cynlluniau gwaith ymarferol. Bydd amser yn cael ei dreulio ar ymgysylltu â'r gymuned ehangach drwy gynnal digwyddiadau lleol ac ymgysylltu ag ysgolion lleol i godi ymwybyddiaeth o fanteision y gwaith.

Bydd y Prosiect yn archwilio'r cysyniad o 'dalu am ganlyniadau' hefyd gyda chymorth tri ffermwr sy'n denantiaid yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Y nod yw creu model ac annog y gymuned ehangach i dreialu a rhedeg y dull newydd.

Mae'r prosiect yn treialu ymyriadau gwahanol, gan gyflwyno'r achos dros gymryd camau strategol pellach i ddiogelu, adfer a chysylltu'r cynefin agored i niwed hwn mewn partneriaeth â thirfeddianwyr a phorwyr yn y dyfodol.

'Talu am ganlyniadau' gyda chymorth tair o ffermydd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Y nod yw creu model ac annog y gymuned ehangach i dreialu a rhedeg y dull newydd. Y gobaith yw y bydd hyn yn arwain at weithredu cynllun

amaeth-amgylcheddol fferm gyfan sy'n seiliedig ar ganlyniadau sy'n gwobrwyo ffermwyr am gyflwyno manteision amgylcheddol.

Grymuso ffermwyr i ddatblygu, gweithredu a hunan-fonitro eu gweithredoedd i gyflawni amcanion economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol ar eu ffermydd. Gweithredu modelau cyflawni aml-asiantaeth i wella ansawdd dŵr ar ddalgylchoedd afonydd sy'n dod â manteision ehangach i'r amgylchedd morol.

Rhannu'r gwersi a ddysgir o'r prosiect i amrywiaeth eang o randdeiliaid gan ddefnyddio dulliau traddodiadol a digidol.

**Cysylltiadau Cymunedau Tir Comin Uwch Gwyrfai**

**Sefydliad Arweiniol:** Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

**Dyfarniad Grant:** £405,328

**Lleoliad:** Caernarfon, Gwynedd

Mae'r prosiect hwn yn gweithredu yn ardal Tir Comin Uwch Gwyrfai - ardal ddaearyddol amrywiol sy'n ymestyn o gyrion tref i gopa anghysbell Mynydd Mawr. Mae'n cynnwys amrywiaeth o gynefinoedd, gyda rhostiroedd eang a glaswelltir asid, llyn, gwlypdiroedd corsiog a rhai mignenni yn ogystal â chwareli llechi segur a rhai safleoedd o ddiddordeb archeolegol. Nod y prosiect arloesol hwn yw trawsnewid Tir Comin Uwch Gwyrfai drwy ei ailgysylltu â chymunedau lleol. Bydd yn galluogi porwyr i gydweithio'n well i bori'r Tir Comin a hynny er mwyn hybu bioamrywiaeth ac er mwyn creu buddion i'r economi gwledig lleol. Bydd y gweithgareddau ymarferol yn canolbwyntio ar leihau peryglon tân yn yr ardal drwy gael gwared ar brysg a'i reoli; bydd hefyd yn gwella trefniadau rheoli da byw a threfniadau pori i helpu i wella cynefinoedd, cyflwr y pridd ac ansawdd y dŵr.

Nod y prosiect yw dwyn grwpiau cymunedol lleol, plant ysgol a chynghorau cymuned ynghyd i benderfynu ar hyn y maent am ei weld yn digwydd i wella mynediad a'r gallu i ddefnyddio'r tir comin at ddibenion hamdden, i greu cyfleoedd addysgol, safleoedd i'w mwynhau a gweithgareddau corfforol ac i helpu i greu ymdeimlad o le.

**Bioamrywiaeth a Busnes**

**Sefydliad Arweiniol:** Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru

**Dyfarniad Grant:** £388,438

**Lleoliad:** Wardiau gwledig Holt a Marchwiel

Ffocws y prosiect hwn yw safle gwledig eang Ystâd Ddiwydiannol Wrecsam (550ha) a'r cymunedau gwledig cyfagos. Bydd busnesau, tirfeddianwyr, ffermwyr a grwpiau cymunedol yn cydweithredu i gryfhau ecosystemau ar y dirwedd, gan sicrhau bod yr ardal yn atyniadol i fusnesau a bod pobl yn gallu ei mwynhau at ddibenion hamdden a dod i adnabod eu hamgylchedd lleol.

Bydd y prosiect yn rhoi blaenoriaeth i ddatblygu gweithgareddau ar y tir a datblygu cynllun strategol ar gyfer y dirwedd i'w wella'n barhaus ac i sicrhau buddion yn y dyfodol. Bydd pwyslais ar y seilwaith gwyrdd gan gynnwys plannu blodau gwyllt, adfer llwybrau troed cyhoeddus, plannu coed brodorol, annog pobl i ddefnyddio systemau draenio cynaliadwy a dangos dulliau peirianyddol meddal a fydd yn helpu i gronni dŵr wyneb a gwella coridorau bywyd gwyllt yn ogystal â chreu lle brafiach i'r rhai sy'n gweithio yn yr ardal. Rhan o amcanion hirdymor y prosiect yw ymgysylltu â'r cymunedau lleol cyfagos a chynnig cyfleoedd i wirfoddolwyr fod yn rhan o'r prosiect. Bydd hefyd yn helpu i greu ymdeimlad o berchnogaeth dros y dirwedd ymhlith y rhai sy'n gweithio, yn byw ac ym mwynhau'r cyfleoedd hamdden yn yr ardal.

**Cryfhau Coetiroedd Eiconig Cymru**

**Sefydliad Arweiniol:** Coed Cymru Cyf

**Dyfarniad Grant:** £563,400

**Lleoliad:** Nifer o leoliadau drwy Gymru

Nod y prosiect hwn yw canolbwyntio ar gynefinoedd coetiroedd eiconig Cymru a'u gwella, gan eu cryfhau er mwyn medru manteisio ar y buddion a'r cyfleoedd busnes y gallant eu cynnig i'r cymunedau cyfagos. Gan fod y rhan fwyaf o'r coetiroedd eiconig a hynafol hyn yn nwylo perchnogion preifat, mae'n allweddol sicrhau cydweithrediad rhwng tirfeddianwyr, rheolwr a defnyddwyr. Bydd y prosiect yn adeiladu ar y gwaith ymgysylltu a'r partneriaethau sydd ar waith i wella nifer o goetiroedd ar hyd y lled Cymru. Drwy hyn bydd modd i'r safleoedd amrywiol rannu syniadau a gwybodaeth i sicrhau bod y camau priodol yn cael eu cymryd i ymdrin â bygythiadau fel rhywogaethau a chlefydau goresgynnol.

Bydd y prosiect hefyd yn helpu i ddatblygu dulliau o gynhyrchu pren yn gynaliadwy, ymchwilio i gyfleoedd eraill i gynhyrchu incwm a threialu opsiynau ar gyfer cynorthwyo coetiroedd ar ôl Brexit i ddatblygu modelau o gymorth hunangynhaliol.

**Lles yr Afon: Atebion seiliedig ar natur yn nalgylch afon Dyfrdwy**

**Sefydliad arweiniol:** Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru

**Dyfarniad grant:** £700,000

**Lleoliad:** Dalgylch Afon Dyfrdwy yng Ngogledd Cymru

Mae'r prosiect hwn yn canolbwyntio ar ddalgylch gyfan afon Dyfrdwy yng Ngogledd Cymru gan gynnwys nifer o afonydd, llynnoedd a chronfeydd dŵr. Mae'r ardal yn cynnwys pum awdurdod lleol, y Parc Cenedlaethol a nifer o safleoedd dynodedig. Mae cymunedau trefol a gwledig yn y dalgylch dan sylw a gall ansawdd yr adnoddau naturiol effeithio ar nifer fawr o bobl. Mae nifer o broblemau'n wynebu'r dalgylch gan amrywio o lifogydd, erydiad pridd ac ansawdd dŵr i ddiweithdra ac amddifadedd cymdeithasol hirdymor. Gan gydnabod hyn, nod y prosiect yw cymryd camau i wella adnoddau naturiol drwy'r dalgylch ac, wrth wneud hynny, creu cyfleoedd i bobl, gan gynnwys pobl ddi-waith ac anabl, ddysgu am wella dulliau o reoli tir a chymryd rhan yn y gwaith hwnnw.

Bydd y prosiect yn datblygu 'Cynllun Gwarchod Afon' i helpu i gyflawni hyn. Mae'r prosiect eisoes wedi sefydlu grŵp o gyrff cydweithredol gan gynnwys AHNE Dyffryn Dyfrdwy, Cyfoeth Naturiol Cymru, Ymddiriedolaethau Natur, Bryniau Clwyd a'r Parc Cenedlaethol. Bydd y prif weithgareddau rheoli tir yn seiliedig ar helpu i atal rhywogaethau goresgynnol anfrodorol drwy'r dalgylch cyfan. Mae'r rhain yn amharu cryn dipyn ar adnoddau naturiol a'r gwasanaethau y maent yn eu darparu. Drwy gynnal arolwg llinell sylfaen cynhwysfawr, bydd y prosiect yn gallu canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r broblem hon a rhoi blaenoriaeth iddi.

**Ucheldiroedd Cadarn De-ddwyrain Cymru**

**Sefydliad Arweiniol:** Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

**Dyfarniad Grant:** £399,000

**Lleoliad:** Torfaen, Caerffili a Blaenau Gwent

Mae tirwedd yr ucheldir yn Nhorfaen, Caerffili a Blaenau Gwent yn wynebu nifer o broblemau sy'n amrywio o drosedd tirwedd, a diflaniad cynefinoedd a rhywogaethau allweddol i seilwaith gwael a chymunedau gwasgaredig. Gan adeiladu ar gynlluniau ymgysylltu eang blaenorol, bydd y prosiect yn datblygu camau cydweithredol i wella'r ucheldiroedd, yn cefnogi mentrau fferm, yn gwella profiadau i ymwelwyr ac yn creu cymunedau mwy cadarn. Bydd y tri awdurdod lleol, yr heddlu, y gwasanaethau tân ac achub, cymdeithasau tir comin, grwpiau gweithredu, undebau amaethyddol a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cydweithredu i roi'r prosiect ar waith.

Ar y dechrau, bydd y pwyslais ar reoli tir i wella cyflwr y pridd ac ansawdd y dŵr, bioamrywiaeth a storio carbon. Yr amcanion eraill fydd cryfhau'r berthynas rhwng rhanddeiliaid a defnyddwyr y tir comin i hybu cymunedau'r ucheldir, meithrin gallu drwy greu cyfleoedd i wirfoddoli a hyfforddi, ymgysylltu â'r gymuned, creu ffermydd mwy cystadleuol a hyfyw drwy eu hannog i arallgyfeirio, a datblygu cyfleoedd busnes arloesol. Bydd y prosiect hefyd yn mynd i'r afael â'r rhesymau sylfaenol dros ddirywiad yr ucheldiroedd, sef dulliau gwael o reoli tir a phroblemau gwrthgymdeithasol fel tipio anghyfreithlon, cynnau tân yn anghyfreithlon a gyrru'n anghyfreithlon oddi ar y ffordd, gan greu cyfleoedd hamdden tawel a gwella'r hyn sydd gan yr ardal i'w gynnig i ymwelwyr.

**Trwy'r Twyni Tywod: Dulliau cynaliadwy o reoli tirwedd arfordirol Pen-y-bont ar Ogwr**

**Sefydliad Arweiniol:** Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

**Dyfarniad Grant:** £312,541

**Lleoliad:** Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cynffig, Pen-y-bont ar Ogwr

Bydd y prosiect hwn yn canolbwyntio ar dirwedd Twyni Cynffig a Merthyr Mawr yn Ne Cymru. Nod y prosiect yw creu cydweithrediad parhaus rhwng rheolwyr y tir a'r warchodfa, tirfeddianwyr, defnyddwyr a buddiolwyr i helpu i reoli'r dirwedd arfordirol hon yn gynaliadwy er mwyn hybu bioamrywiaeth a sicrhau buddion i'r gymuned leol. Bydd gwaith rheoli cynefinoedd yn helpu i gryfhau ecosystem y twyni a'r prif nod yw hybu bioamrywiaeth, creu cysylltedd a sefydlogrwydd gwell. Bydd y prosiect yn gwella golwg yr ardal ac yn ei gwneud yn haws i ymwelwyr ymweld â hi. Bydd arwyddion gwell ac ymgyrch i hysbysebu llwybrau cerdded ac atyniadau hefyd yn gwella profiadau ymwelwyr.

Y nod yw manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd iechyd a lles drwy gynnal a chadw llwybrau cerdded hygyrch a mannau gwyrdd o safon. Bydd y prosiect hefyd yn gyfle i weithio ar y cyd â busnesau lleol fel y clwb golff gan eu helpu i gyflawni eu huchelgais o sicrhau label ECO y GEO. Bydd y gwaith hefyd yn cynnwys plannu a chynaeafu coetiroedd ac ymchwilio i'r posibilrwydd o ddefnyddio coed fel ffynhonnell ynni adnewyddadwy.

**PROSIECTAU A ARIANNWYD YNG NGHYFNOD 3**

**Ffermio Gwastadeddau Gwent yn Gynaliadwy**

**Sefydliad Arweiniol:** RSPB Cymru

**Dyfarniad Grant:** £ 554,953

**Lleoliad:** Gwlyptiroedd De-ddwyrain Cymru

Mae'r prosiect cydweithredol hwn yn cynnwys RSPB Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Ymddiriedolaeth Natur Gwent, sy'n cydweithio'n agos â ffermwyr a phartneriaid eraill i feithrin dealltwriaeth, gwybodaeth, sgiliau a phrofiad er mwyn medru cyflwyno dulliau cynaliadwy o reoli adnoddau naturiol ar Wastadeddau Gwent. Bydd y ffermwyr a'r partneriaid eraill yn cymryd camau i wella'r adnoddau naturiol yn yr ardal, yn enwedig dulliau o reoli dŵr a phridd.

Bydd y gwaith yn cynnwys gwella a chreu cynefinoedd, gan greu'r posibilrwydd o wella cyflwr y pridd, a sefydlu stribedi cynefin ar gyfer peillwyr, a fydd hefyd yn gweithredu fel tir clustog ar gyfer cyrsiau dŵr. Drwy fanteisio ar y ffaith bod y tir mor wastad yn yr ardal, bydd y prosiect yn achub ar bob cyfle i ddatblygu llwybrau beicio di-draffig, a chyfleoedd i ddenu ymwelwyr i fwynhau'r cyfleusterau hamdden sydd ar gael eisoes ar ffermydd, a bydd hefyd yn creu cyfleusterau newydd.

**Ecosystemau Afonydd Gwy, Ieithon a Hafren (WISE)**

**Sefydliad Arweiniol:** Sefydliad Gwy ac Wysg

**Dyfarniad Grant:** £ 530,215

**Lleoliad:** Llandrindod i Drefyclo

Bydd y prosiect cydweithredol hwn yn gweithio gyda phartneriaeth sydd wedi'i hen sefydlu yn y dalgylch, gan gynnwys tirfeddianwyr a chymunedau lleol, i wella'r adnoddau naturiol mewn pedwar dalgylch llai a thri dalgylch mwy sy'n rhan o dirwedd eang yn nalgylch afon Gwy. Bydd y gwaith yn cynnwys gwella cyflwr pridd tir amaethyddol, creu coetir i fanteisio i'r eithaf ar y posibilrwydd o leihau perygl llifogydd, gwella cynefinoedd i hybu bioamrywiaeth ac i wella ansawdd dŵr, a gwella'r seilwaith ar glosydd fferm i leihau llygredd.

Nod y prosiect yw annog cymunedau gwledig a busnesau amaethyddol yn yr ardal i ddeall sut y gallant wella ecosystemau dros gyfnod a deall y gwasanaethau y mae'r ecosystemau hynny'n eu darparu, ac sy'n allweddol i'r ymdrech i leihau effeithiau'r newid yn yr hinsawdd a llifogydd. Yn ei dro, bydd hynny'n creu cyfleoedd i wella iechyd a lles. Bydd y prosiect hefyd yn archwilio'r posibilrwydd o ddenu buddsoddiad preifat i wella ansawdd dŵr a dulliau o storio carbon. Bydd rhaglen fonitro gynhwysfawr ar waith tra bydd y gweithgareddau'n mynd rhagddynt, ac wedi iddynt gael eu cwblhau.

# Atodiad B: Canllaw Trafod Theori Newid

## A: Cefndir a chyflwyniad

1. Beth yw eich rôl swydd ar hyn o bryd?

2. Disgrifiwch eich rôl mewn perthynas â'r SMS a / neu'r polisi sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd a lles.
*Awgrymiadau:*
- Natur a chwmpas y rôl, hyd y swydd, swyddi / cyfrifoldebau blaenorol
- Sut y bu i chi gyfrannu; ar ba gam yr ymunwyd
- Rôl o fewn SMS: cwmpasu/ymchwil, dylunio, datblygu, comisiynu, cyllido, sefydlu systemau gweithredu, rheoli gweithredu
- Meysydd polisi / strategaeth y llywodraeth

## B: Bwriad a dyluniad ar gyfer y SMS

3. Yn eich barn chi, beth oedd y sbardunau pwysicaf i greu'r SMS?
- Holwch am y pryderon allweddol o'u persbectif hwy.
- Holwch am y gyrwyr polisi allweddol (e.e. Cynllun Datblygu Gwledig; Deddf yr Amgylchedd a naw egwyddor SMNR; Polisi Adnoddau Naturiol; Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol).

4. Yn eich barn chi, beth yw'r amcanion strategol allweddol ar gyfer y SMS?
- Pa faterion allweddol y cynlluniwyd i fynd i'r afael â nhw?
- Pam roedd y ffocws hyn?
- Holwch ynghylch amcanion y Cynllun Datblygu Gwledig: meithrin cystadleurwydd amaethyddiaeth; sicrhau rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol; gweithredu yn yr hinsawdd; cyflawni datblygiad cytbwys o economïau a chymunedau gwledig (gan gynnwys creu / cynnal cyflogaeth)

5. Sut fyddech chi'n disgrifio'r math o brosiectau yr oedd y cynllun yn gobeithio eu cefnogi?
- Pa fath o weithgareddau oeddech chi'n disgwyl iddyn nhw eu cyflawni? (natur a chwmpas ymyriadau; hyd yr ymyrraeth)
- Pa fath o randdeiliaid yr oeddech chi'n disgwyl i gymryd rhan?
- Pa fath o allbynnau / canlyniadau oeddech yn edrych amdanynt?

6. Yn gyffredinol, pa faterion allweddol y mae'r SMS wedi'i gynllunio i fynd i'r afael â nhw?
- Holwch am flaenoriaethau'r Cynllun Datblygu Gwledig e.e. technoleg fferm arloesol, rheoli coedwigoedd yn gynaliadwy, gwella ecosystemau amaethyddiaeth / coedwigaeth; hyrwyddo effeithlonrwydd adnoddau; carbon isel; economi sy'n gallu gwrthsefyll hinsawdd yn y sectorau amaeth / coedwigaeth / bwyd; hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, lleihau tlodi a datblygu economaidd mewn ardaloedd gwledig

7. A oedd unrhyw dystiolaeth flaenorol a ddefnyddiwyd am y dulliau a allai fod yn effeithiol wrth gyflawni nodau'r SMS?

- Holwch ynghylch: Ffynonellau tystiolaeth (e.e. gwerthusiadau o ymyriadau tebyg)
- Gwersi a ddysgwyd (e.e. o fentrau blaenorol)
- y ffocws ar ddatblygu cydweithredol a'i natur orfodol mewn SMS
- Dulliau posib a gafodd eu disgowntio a pham

### C: Canlyniadau ac effeithiau

8. Pan ddyluniwyd y polisi, sut oeddech chi'n disgwyl i 'lwyddiant' edrych (h.y. pa ganlyniadau y byddech chi'n disgwyl eu gweld yn cael eu cyflawni)?

*Awgrymiadau:*

- gwelliannau i adnoddau naturiol
- gwell gwytnwch ecolegol
- gwell mynediad i'r amgylchedd / gwell mannau gwyrdd cymunedol
- datblygu sgiliau / creu swyddi / entrepreneuriaeth / arloesi
- gwytnwch yn yr hinsawdd e.e. llai o risg o lifogydd
- gwella lles
- gwell cydlyniant cymunedol

9. Pa ganlyniadau tymor byr neu ganolig fyddech chi'n eu disgwyl gan brosiectau SMS?

10. Pa ganlyniadau tymor hwy fyddech chi'n eu disgwyl gan brosiectau SMS?

11. A oes mathau penodol o brosiectau lle y gallech ddisgwyl gweld budd o'r SMS?
Awgrymiadau:
- e.e. math o sefydliad arweiniol; math o sefydliadau partner; lleoliad / graddfa ddaearyddol
- pa fuddion neu ganlyniadau sydd wedi deillio o ganlyniad i weithio ar y cyd?

12. Pa elfennau o'r prosiectau y disgwylid iddynt wneud y gwahaniaeth mwyaf wrth gyflawni'r canlyniadau disgwyliedig?
- Profi ynghylch: alinio ag egwyddorion SMNR; lefel y cyllid; rheoli a gweithredu; hyd cyfnod cyflwyno'r prosiect; natur a lefel y cydweithredu

13. A oes unrhyw amodau neu amgylchiadau sy'n angenrheidiol neu a fyddai o gymorth wrth ganiatáu i brosiectau gyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd?

*Awgrymiadau:*
- Pa amodau neu amgylchiadau?
- Sut a pham y byddent yn effeithio ar gyflawni canlyniadau?

14. Pa allanolion y gallai a) fod wedi effeithio arnynt a b) a fydd yn effeithio ar gyflawniad neu fel arall y SMS?
*Awgrymiadau:*
- Gofynnwch yn benodol am Brexit ac achosion coronafeirws Covid-19

15. Sut y gellir cynnal y canlyniadau mewn ffordd gynaliadwy ar ôl cyfnod cyllido SMS?

## Ch: Gwersi a ddysgwyd

16. A oes unrhyw wersi am ddylunio a datblygu'r SMS y byddech chi'n tynnu sylw atynt?

    *Awgrymiadau:*

    - A oes unrhyw beth i awgrymu bod rhagdybiaethau a wnaed yn ystod cam dylunio'r SMS yn ddiffygiol mewn unrhyw ffordd?
    - I ba raddau mae'r prosiectau SMS a ariennir yn adlewyrchu'r hyn a ragwelwyd?
    - I ba raddau mae'r elfen gydweithredol wedi bod yn llwyddiannus / broblemus?
    - I ba raddau ydych chi'n disgwyl i'r prosiectau a ariennir gyflawni'r canlyniadau a ddisgwylir?

17. A yw'r gwersi hyn sy'n dod i'r amlwg wedi effeithio / newid darpariaeth a dyluniad y SMS?

18. Pe byddech chi'n dylunio'r SMS o'r newydd, beth fyddech chi'n ei wneud yn wahanol?

19. Sut (os o gwbl) y bydd dyluniad a darpariaeth y SMS yn cael eu defnyddio wrth ddatblygu cynlluniau rheoli cynaliadwy yn y dyfodol ar ôl Brexit / CAP?

20. A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei godi am y gwasanaeth, ei ddyluniad neu ei weithrediad na wnaethom ei gwmpasu?

## Atodiad C: Canllaw Trafod Rhanddeiliaid Allweddol

### A: Cefndir

2. Dywedwch wrthyf am:
    - Eich rôl
    - Eich sefydliad
    - Eich ymwneud â'r SMS

### B: Nodau ac Amcanion y SMS

3. Beth ydych chi'n deall yw nodau ac amcanion y SMS?

3. Beth yw'r ysgogwyr polisi ar gyfer y SMS?
    - Holwch ynghylch y gyrwyr polisi allweddol (e.e. Cynllun Datblygu Gwledig; Deddf yr Amgylchedd a naw egwyddor SMNR; Polisi Adnoddau Naturiol; Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol).
    - Pa gyfraniad y mae'r SMS wedi'i wneud hyd yma i gyflawni rhai o nodau'r polisïau a'r strategaethau allweddol hyn?

4. Beth yw'r materion allweddol y mae'r SMS yn ceisio mynd i'r afael â nhw?
    - Pa wahaniaeth ydych chi'n disgwyl i'r SMS ei wneud wrth fynd i'r afael â rhai o'r materion allweddol?

5. Pa mor briodol y bu dyluniad y cynllun SMS yn eich barn chi?
    - I ba raddau y mae'r SMS wedi'i alinio ag egwyddorion SMNR?
    - I ba raddau y mae dyluniad y SMS wedi'i alinio â'r ffyrdd newydd o weithio yn yr SMNR?
    - Sut mae dyluniad y cynllun wedi bod wrth archwilio natur bosibl cydweithredu mewn perthynas â mecanweithiau cyllido yn y dyfodol?

6. Pa mor effeithiol y mae Llywodraeth Cymru wedi bod wrth ddylunio a datblygu'r SMS?
    - Beth yw cryfderau dyluniad y SMS?
    - Beth ellid ei wella?

### C: Rheoli a Gweithredu'r cynllun

16. Pa mor effeithiol y mae'r SMS wedi'i gyfathrebu a'i hyrwyddo yn eich barn chi?
    - Pa rôl a chwaraewyd gan sefydliadau sector neu ymbarél?

17. Beth yw eich barn am y broses EoI a ddatblygwyd ar gyfer y SMS?

- Pa mor glir oedd y canllawiau?
- Pa mor briodol oedd y meini prawf dewis?
- Sut mae wedi esblygu a pham?
- Pa mor effeithiol oedd y broses o sicrhau bod EoIs yn cwrdd â nodau ac amcanion SMS ’?
- Sut y gellid ei wella?

18. Beth yw eich barn am y broses ymgeisio (ar ôl EoI) ar gyfer y SMS?

- Pa mor briodol oedd y cyfathrebu a'r cyfarwyddiadau / arweiniad a ddarparwyd i ymgeiswyr gan LIC?
- Pa mor briodol oedd y prosesau a'r strwythurau i'w cymeradwyo?
- Sut mae wedi esblygu dros amser a pham?
- Pa mor effeithiol oedd y broses? (Profwch: parthed amserlenni ar gyfer ymateb, ffenestri ar gyfer cymwysiadau)
- Sut y gellid ei wella?

19. [LIC yn unig] Beth oedd y prif resymau dros i brosiectau fod yn llwyddiannus?

- Beth oedd y cryfderau allweddol?

20. [LIC yn unig] Beth oedd y prif resymau dros fod prosiectau yn aflwyddiannus?

- Pa heriau oedden nhw'n eu hwynebu?
- Pa agweddau ar yr EoIs oedd wannaf?
- A ydych chi'n gwybod a oes unrhyw un o'r ymgeiswyr aflwyddiannus wedi gwneud cais neu sicrhau cyllid o rywle arall (Os do, chwiliwch am fanylion)

21. [LIC yn unig] Pa mor ddefnyddiol oedd y gwasanaeth cymorth hwyluso wrth alluogi prosiectau i gyflwyno cynigion?

- Pa agweddau ar y gefnogaeth oedd fwyaf defnyddiol i brosiectau?
- Pa agweddau ar y gefnogaeth a wnaeth y gwahaniaeth mwyaf?
- Beth oedd cryfderau'r gwasanaeth cymorth hwyluso?
- Beth oedd cyfyngiadau'r gwasanaeth cymorth hwyluso?
- Sut, o gwbl, y gellid gwella'r gwasanaeth cymorth hwyluso SMS?

22. [LIC yn unig] Beth yw eich barn ar reolaeth Llywodraeth Cymru o'r SMS?

- Archwiliwch ynghylch: rheoli prosiect; monitro; prosesau rheoli ariannol
- Beth yw'r cryfderau allweddol?

- Pa fuddion sy'n deillio o'r rhyngweithio a'r berthynas rhwng prosiectau a'r tîm canolog SMS?
- Sut mae'r tîm SMS yn cyfathrebu â phrosiectau y teimlad o fod yn rhan o raglen fwy (os o gwbl)?
- Sut mae'r tîm SMS yn helpu prosiectau i gynyddu dealltwriaeth o flaenoriaethau LIC a dealltwriaeth o brosiectau eraill (os o gwbl)?
- Beth ellid ei wella?

23. [LIC yn unig] Pa mor gadarn yw'r prosesau monitro ac adrodd?
    - Sut mae adroddiadau cynnydd prosiect yn cael eu gwirio?
    - Pa mor effeithiol yw'r systemau monitro wrth fesur cynnydd?
    - Beth ellid ei wella ar gyfer y dyfodol?

### D: Natur a maint y cydweithredu

24. Beth fyddech chi'n ei nodi fel arfer da o ran yr agweddau canlynol ar draws prosiectau llwyddiannus a ariannwyd?
    - Trefniadau llywodraethu
    - Rheolaeth
    - Dull partneriaeth

25. Beth yw maint a natur y cydweithredu o fewn prosiectau yn eich barn chi
    - Pa mor rhan yw'r partneriaid?
    - Beth sy'n gweithio'n dda?
    - Pa werth ychwanegol sy'n cael ei sicrhau o'r cydweithrediad hwn?
    - Beth yw'r heriau?

26. Pa mor gynaliadwy yw'r trefniadau cydweithredol ar gyfer y dyfodol (cyllid ar ôl SMS) yn eich barn chi?
    - Pam ydych chi'n dweud hynny?
    - Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw enghreifftiau o gydweithio parhaus sydd eisoes ar waith neu'n cael eu trafod? (Os oes, anogwch am fanylion pellach)

27. Pa wersi a ddysgwyd o'r dull ar gyfer rheoli tir cydweithredol yn llwyddiannus (os o gwbl)?
    - Pa arfer da ydych chi wedi'i weld / brofi?
    - Beth yw'r peryglon i fod yn ymwybodol ohonynt?

### E: Cyflawniadau a Chanlyniadau

28. Beth fu cyflawniadau allweddol yr SMS hyd yn hyn?
    - Sut mae cynnydd yn erbyn y cynllun gwaith a'r gwariant a ragwelir?
    - Beth sydd wedi bod yn gweithio'n dda?
    - Beth fu'r heriau a'r rhwystrau?

29. Pa effaith y mae'r rhaglen wedi'i chael hyd yma ar:
    - Gwella adnoddau naturiol
    - Cysylltedd rhwng ecosystemau
    - Cynnydd ym maint / graddfa ecosystemau
    - Iechyd / cyflwr ecosystemau

30. Pa gyfraniad y mae'r rhaglen SMS wedi'i wneud i'r cymunedau lleol o ran:
    - buddion cymdeithasol?
    - buddion economaidd?

31. Beth yw maint a natur unrhyw gydweithrediad rhwng prosiectau SMS
    - Holwch am enghreifftiau

32. Beth yw'r buddion neu'r gwerth ychwanegol o'r cydweithrediadau hyn?

33. Sut mae'r rhaglen SMS yn cysylltu â chynlluniau RDP eraill neu brosiectau eraill a ariennir gan grant?
    - Archwiliwch ynghylch: pa gynlluniau a phrosiectau eraill
    - Beth yw gwerth ychwanegol (os oes un) y cysylltiadau hyn?

34. Pa ffactorau neu bwysau allanol a allai effeithio ar gyflawniad neu fel arall y SMS / eich prosiect?
    - Gofynnwch yn benodol am Brexit ac achosion coronofeirws Covid-1

35. Pa mor gynaliadwy fydd cynnal y canlyniadau a'r effeithiau hyn ar ôl cyllid SMS?
    - Beth ydym wedi'i ddysgu o'r SMS y gellir ei gymryd a'i ychwanegu at unrhyw fecanwaith cyllido cydweithredol yn y dyfodol a'r cynllun Cyllido Cynaliadwy (amnewid PAC)?

### F: Themâu Trawsbynciol

36. Sut mae'r cynllun SMS yn cyfrannu at themâu trawsbynciol (CCTs) Llywodraeth Cymru:

- Cyfle Cyfartal
- Datblygu cynaliadwy
- Mynd i'r afael â Thlodi ac Allgáu Cymdeithasol?

37. Sut mae'r cynllun SMS yn mynd i'r afael ag amcanion trawsbynciol penodol y Cynllun Datblygu Gwledig sef:

- Arloesi
- Amgylchedd
- Addasu a lliniaru newid yn yr hinsawdd?

38. Sut mae'r cynllun SMS yn cyfrannu at strategaeth Gymraeg Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050?

### G: Gwersi a Ddysgwyd

39. Pe byddech chi'n dylunio'r SMS o'r newydd, beth fyddech chi'n ei wneud yn wahanol?

40. Beth yw'r gwersi allweddol a ddysgwyd y mae angen eu dal fel bod y SMS yn gwella am y cyfnod cyflwyno sy'n weddill?

41. A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei godi am y gwasanaeth, ei ddyluniad neu ei weithrediad na wnaethom ei gwmpasu?

**Diolch a chloi**

## Atodiad Ch: Arweinwyr prosiectau ac unigolion allweddol – canllaw trafod

### A: Cefndir

1. Dywedwch wrthyf am:
    - Eich rôl
    - Eich sefydliad
    - Eich ymwneud â'r SMS

2. Dywedwch wrthyf am:
    - Eich grŵp
    - Eich sefydliadau partner / sy'n cymryd rhan
    - Sut y daethoch chi i weithio gyda'ch gilydd

### B: Nodau ac Amcanion y prosiect a ariennir gan SMS

3. Beth mae eich prosiect yn anelu at ei gyflawni (h.y. beth yw eich nodau a'ch amcanion)?

3. Beth yw'r materion allweddol y mae eich prosiect yn ceisio mynd i'r afael â nhw?
    - Pa wahaniaeth ydych chi'n disgwyl i'ch prosiect ei wneud wrth fynd i'r afael â rhai o'r materion allweddol?

4. Pa mor dda y mae eich prosiect yn cyd-fynd â nodau ac amcanion y SMS yn eich barn chi?
    - I ba raddau y mae'r SMS wedi'i alinio ag egwyddorion SMNR?
    - Beth yw cryfderau allweddol dull eich prosiect?
    - Beth ellid ei wella?

### C. Rheoli a Gweithredu'r cynllun

5. Sut glywsoch chi am y SMS?
    - Pa mor effeithiol y cafodd ei hyrwyddo i ddarpar ymgeiswyr fel chi'ch hun
    - Pa rôl a chwaraewyd gan sefydliadau sector neu ymbarél (os o gwbl) wrth godi eich ymwybyddiaeth o'r cynllun?
    - Yn ystod pa ffenestr wnaethoch chi gais?

6. Sut sefydlwyd eich grŵp / partneriaeth?

- Pa rôl a chwaraewyd gan sector neu sefydliad ymbarél (os o gwbl) wrth gefnogi hyn?
- Pa rôl a chwaraeodd y gwasanaeth cymorth hwyluso (os o gwbl) wrth gefnogi hyn?
- Pa mor gyfarwydd yw'r partneriaid wrth weithio gyda'i gilydd?
- Pa brofiad blaenorol o weithio mewn partneriaeth sydd gennych (os o gwbl)?

7. Beth yw eich barn am y broses EoI a ddatblygwyd ar gyfer y SMS?
    - Pa mor glir oedd y canllawiau?
    - Pa mor briodol oedd y meini prawf dewis?
    - Pa mor effeithiol oedd y broses o sicrhau bod EoIs yn cwrdd â nodau ac amcanion SMS?
    - Sut y gellid ei wella?

8. Beth yw eich barn am y broses ymgeisio a ddatblygwyd ar gyfer y SMS?

9. Pa mor briodol oedd y cyfathrebu a'r cyfarwyddiadau / arweiniad a ddarparwyd i ymgeiswyr gan LlC?
    - Pa mor briodol oedd y prosesau a'r strwythurau i'w cymeradwyo?
    - Sut mae wedi esblygu dros amser a pham?
    - Pa mor effeithiol oedd y broses? (Profwch: parthed amserlenni ar gyfer ymateb, ffenestri ar gyfer cymwysiadau?
    - Sut y gellid ei wella?

10. Pam ydych chi'n meddwl bod eich prosiect wedi bod yn llwyddiannus?
    - Beth oedd y cryfderau allweddol?

11. [Os yw'n berthnasol] Pa mor ddefnyddiol oedd y gwasanaeth cymorth hwyluso wrth alluogi'ch grŵp i gyflwyno cais?
    - Pa agweddau ar y gefnogaeth oedd fwyaf defnyddiol i brosiectau?
    - Pa agweddau ar y gefnogaeth a wnaeth y gwahaniaeth mwyaf?
    - Beth oedd cryfderau'r gwasanaeth cymorth hwyluso?
    - Beth oedd cyfyngiadau'r gwasanaeth cymorth hwyluso?

12. Sut, o gwbl, y gellid gwella'r gwasanaeth cymorth hwyluso SMS?

13. Beth yw eich barn ar reolaeth Llywodraeth Cymru o'r SMS?
    - Pa gyfathrebu a rhyngweithio parhaus sydd gan eich prosiect gyda'r tîm SMS?

- Pa mor effeithiol yw rheolaeth prosiect SMS o ddydd i ddydd yn LIC?
- Pa mor effeithiol yr ymgymerwyd â'r prosesau rheoli ariannol?
- Beth yw cryfderau allweddol y berthynas rhwng LIC a chi fel prosiect?
- Pa fuddion sy'n deillio o'r rhyngweithio a'r berthynas rhwng eich prosiect a'r tîm canolog SMS?

14. Pa mor glir yw'r prosesau monitro ac adrodd sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru?
    - Pa mor effeithiol yw'r systemau monitro wrth fesur cynnydd?
    - Beth ellid ei wella ar gyfer y dyfodol?

15. Pa gyfathrebu a rhyngweithio sydd rhwng eich prosiect a phrosiectau eraill a ariennir gan SMS?
    - Sut mae'r tîm SMS yn cyfathrebu â chi ynglŷn â bod yn rhan o raglen fwy (os o gwbl)?
    - Sut mae'r tîm SMS yn eich helpu i gynyddu dealltwriaeth o flaenoriaethau LIC a dealltwriaeth o brosiectau eraill (os o gwbl)?
    - Beth ellid ei wella?

### D: Natur a maint y cydweithredu

16. Pa drefniadau llywodraethu a rheoli sydd ar waith ar gyfer eich prosiect?
    - Pa mor dda neu fel arall mae'r rhain yn gweithio?

17. Beth yw maint a natur y cydweithredu yn eich prosiect?
    - Pa mor rhan yw'r partneriaid?
    - Beth sy'n gweithio'n dda / beth yw'r buddion?
    - Pa werth ychwanegol sy'n cael ei sicrhau o'r cydweithrediad hwn?
    - Beth yw'r heriau?

18. Pa mor effeithiol yw model cyflawni eich prosiect yn eich barn chi?
    - A fu unrhyw newidiadau neu addasiadau sylweddol i'r hyn a gynigiwyd yn wreiddiol?
    - Sut mae'r dull cydweithredol yn cyfrannu neu'n ychwanegu gwerth at nodau ac amcanion y prosiect (os o gwbl?)

19. Pa mor gynaliadwy yw'r trefniadau cydweithredol ar gyfer dyfodol eich prosiect (cyllid ar ôl SMS) yn eich barn chi?
    - Pam ydych chi'n dweud hynny?

- Pa mor debygol yw'r cydweithredu i barhau?
- A yw hyn yn cael ei drafod neu ei gytuno ar hyn o bryd? (Os oes, anogwch am fanylion pellach)

20. Pa wersi a ddysgwyd o'r dull ar gyfer rheoli tir cydweithredol yn llwyddiannus (os o gwbl)?
    - Pa arfer da ydych chi wedi'i weld / brofi?
    - Beth yw'r peryglon i fod yn ymwybodol ohonynt?

21. Beth yw eich barn ar reolaeth Llywodraeth Cymru o'r SMS?
    - Pa gyfathrebu a rhyngweithio parhaus sydd gan eich prosiect gyda'r tîm SMS?
    - Pa mor effeithiol yw rheolaeth prosiect SMS o ddydd i ddydd yn LIC?
    - Pa mor effeithiol yr ymgymerwyd â'r prosesau rheoli ariannol?
    - Beth yw cryfderau allweddol y berthynas rhwng LIC a chi fel prosiect?
    - Pa fuddion sy'n deillio o'r rhyngweithio a'r berthynas rhwng eich prosiect a'r tîm canolog SMS?

22. Pa mor glir yw'r prosesau monitro ac adrodd sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru?
    - Pa mor effeithiol yw'r systemau monitro wrth fesur cynnydd?
    - Beth ellid ei wella ar gyfer y dyfodol?

23. Pa gyfathrebu a rhyngweithio sydd rhwng eich prosiect a phrosiectau eraill a ariennir gan SMS?
    - Sut mae'r tîm SMS yn cyfathrebu â chi ynglŷn â bod yn rhan o raglen fwy (os o gwbl)?
    - Sut mae'r tîm SMS yn eich helpu i gynyddu dealltwriaeth o flaenoriaethau LIC a dealltwriaeth o brosiectau eraill (os o gwbl)?
    - Beth ellid ei wella?

### D: Natur a maint y cydweithredu

24. Pa drefniadau llywodraethu a rheoli sydd ar waith ar gyfer eich prosiect?
    - Pa mor dda neu fel arall mae'r rhain yn gweithio?

25. Beth yw maint a natur y cydweithredu yn eich prosiect?
    - Pa mor rhan yw'r partneriaid?
    - Beth sy'n gweithio'n dda / beth yw'r buddion?
    - Pa werth ychwanegol sy'n cael ei sicrhau o'r cydweithrediad hwn?

- Beth yw'r heriau?

26. Pa mor effeithiol yw model cyflawni eich prosiect yn eich barn chi?
    - A fu unrhyw newidiadau neu addasiadau sylweddol i'r hyn a gynigiwyd yn wreiddiol?
    - Sut mae'r dull cydweithredol yn cyfrannu neu'n ychwanegu gwerth at nodau ac amcanion y prosiect (os o gwbl?)

27. Pa mor gynaliadwy yw'r trefniadau cydweithredol ar gyfer dyfodol eich prosiect (cyllid ar ôl SMS) yn eich barn chi?
    - Pam ydych chi'n dweud hynny?
    - Pa mor debygol yw'r cydweithredu i barhau?
    - A yw hyn yn cael ei drafod neu ei gytuno ar hyn o bryd? (Os oes, anogwch am fanylion pellach)

28. Pa wersi a ddysgwyd o'r dull ar gyfer rheoli tir cydweithredol yn llwyddiannus (os o gwbl)?
    - Pa arfer da ydych chi wedi'i weld / brofi?
    - Beth yw'r peryglon i fod yn ymwybodol ohonynt?

29. Beth yw eich barn ar reolaeth Llywodraeth Cymru o'r SMS?
    - Pa gyfathrebu a rhyngweithio parhaus sydd gan eich prosiect gyda'r tîm SMS?
    - Pa mor effeithiol yw rheolaeth prosiect SMS o ddydd i ddydd yn LlC?
    - Pa mor effeithiol yr ymgymerwyd â'r prosesau rheoli ariannol?
    - Beth yw cryfderau allweddol y berthynas rhwng LlC a chi fel prosiect?
    - Pa fuddion sy'n deillio o'r rhyngweithio a'r berthynas rhwng eich prosiect a'r tîm canolog SMS?

30. Pa mor glir yw'r prosesau monitro ac adrodd sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru?
    - Pa mor effeithiol yw'r systemau monitro wrth fesur cynnydd?
    - Beth ellid ei wella ar gyfer y dyfodol?

31. Pa gyfathrebu a rhyngweithio sydd rhwng eich prosiect a phrosiectau eraill a ariennir gan SMS?
    - Sut mae'r tîm SMS yn cyfathrebu â chi ynglŷn â bod yn rhan o raglen fwy (os o gwbl)?
    - Sut mae'r tîm SMS yn eich helpu i gynyddu dealltwriaeth o flaenoriaethau LlC a dealltwriaeth o brosiectau eraill (os o gwbl)?

- Beth ellid ei wella?

### D: Natur a maint y cydweithredu

32. Pa drefniadau llywodraethu a rheoli sydd ar waith ar gyfer eich prosiect
    - Pa mor dda neu fel arall mae'r rhain yn gweithio?

33. Beth yw maint a natur y cydweithredu yn eich prosiect?
    - Pa mor rhan yw'r partneriaid?
    - Beth sy'n gweithio'n dda / beth yw'r buddion?
    - Pa werth ychwanegol sy'n cael ei sicrhau o'r cydweithrediad hwn?
    - Beth yw'r heriau?

34. Pa mor effeithiol yw model cyflawni eich prosiect yn eich barn chi?
    - A fu unrhyw newidiadau neu addasiadau sylweddol i'r hyn a gynigiwyd yn wreiddiol?
    - Sut mae'r dull cydweithredol yn cyfrannu neu'n ychwanegu gwerth at nodau ac amcanion y prosiect (os o gwbl?)

35. Pa mor gynaliadwy yw'r trefniadau cydweithredol ar gyfer dyfodol eich prosiect (cyllid ar ôl SMS) yn eich barn chi?
    - Pam ydych chi'n dweud hynny?
    - Pa mor debygol yw'r cydweithredu i barhau?
    - A yw hyn yn cael ei drafod neu ei gytuno ar hyn o bryd? (Os oes, anogwch am fanylion pellach)

36. Pa wersi a ddysgwyd o'r dull ar gyfer rheoli tir cydweithredol yn llwyddiannus (os o gwbl)?
    - Pa arfer da ydych chi wedi'i weld / brofi?
    - Beth yw'r peryglon i fod yn ymwybodol ohonynt?

### E: Cyflawniadau a Chanlyniadau

37. Beth mae eich prosiect wedi'i gyflawni hyd yma?
    - Sut mae cynnydd yn erbyn y cynllun gwaith, y targedau a'r gwariant a ragwelir?
    - Beth sydd wedi bod yn gweithio'n dda?
    - Beth fu'r heriau a'r rhwystrau?

38. Pa effaith y mae eich prosiect wedi'i chael hyd yma ar:

- Gwella adnoddau naturiol
- Cysylltedd rhwng ecosystemau
- Cynnydd ym maint / graddfa ecosystemau
- Iechyd / cyflwr ecosystemau
- [hefyd ymchwilio i unrhyw: dargedau penodol y mae prosiectau wedi cytuno â LIC - a nodwyd mewn adroddiadau cynnydd]

39. Pa gyfraniad y mae eich prosiect wedi'i wneud i'r gymuned leol o ran:

- buddion cymdeithasol?
- buddion economaidd?

40. A yw'ch prosiect wedi cydweithredu ag unrhyw brosiectau eraill a ariennir gan SMS?

- Os oes, pa rai?
- beth yw maint a natur y cydweithredu?
- Pa fuddion neu werth ychwanegol (os o gwbl) y mae'r cydweithredu hwn wedi'i gyflawni?

41. A yw'ch prosiect wedi cysylltu ag unrhyw gynlluniau CDG eraill neu brosiectau eraill a ariennir gan grant?

- Archwiliwch ynghylch: pa gynlluniau a phrosiectau eraill
- Beth yw gwerth ychwanegol (os oes un) y cysylltiadau hyn?

42. Pa ffactorau neu bwysau allanol a allai effeithio ar gyflawniad neu fel arall eich prosiect?

- Gofynnwch yn benodol am Brexit ac achosion Covid-19 coronavirus

43. Pa mor debygol fyddai'r canlyniadau hyn wedi'u cyflawni heb gyllid SMS? Pam ydych chi'n dweud hynny?

44. Pa mor debygol yw hi y bydd eich prosiect yn gallu cynnal y canlyniadau a'r effeithiau hyn ar ôl cyllid SMS?

- Beth ydym wedi'i ddysgu o'r SMS y gellir ei gymryd, a'i ychwanegu at unrhyw fecanweithiau cyllido cydweithredol a'r cynllun Cyllido Cynaliadwy (amnewid CAP) yn y dyfodol?

## F. Themâu Trawsdoriadol

45. Sut mae'ch prosiect yn cyfrannu at themâu trawsbynciol (CCTs) Llywodraeth Cymru:

- Cyfle Cyfartal
- Datblygu cynaliadwy
- Mynd i'r afael â Thlodi ac Allgáu Cymdeithasol?

45. Sut mae'ch prosiect yn mynd i'r afael ag amcanion trawsbynciol penodol y Cynllun Datblygu Gwledig sef:

- Arloesi
- Amgylchedd
- Addasu a lliniaru newid yn yr hinsawdd?

46. Sut mae eich prosiect yn cyfrannu at strategaeth Gymraeg Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050?

## G. Gwersi a Ddysgwyd

48. Pe byddech chi'n dylunio'r SMS o'r newydd, beth fyddech chi'n ei wneud yn wahanol?

49. Beth yw'r gwersi allweddol a ddysgwyd y mae angen eu dal fel bod y SMS yn gwella am y cyfnod cyflwyno sy'n weddill?

50. A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei godi am y gwasanaeth, ei ddyluniad neu ei weithrediad na wnaethom ei gwmpasu?

**Diolch a chloi**